



Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC

2009/2010

Cynnwys

Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol	3
Teledu	5
BBC One	5
Atodiad BBC One Scotland	9
Atodiad BBC One Wales	11
Atodiad BBC One Northern Ireland	13
BBC Two	15
Atodiad BBC Two Scotland	19
Atodiad BBC Two Wales	21
Atodiad BBC Two Northern Ireland	23
BBC Three.....	24
BBC Four.....	27
CBBC	30
CBeebies.....	34
BBC HD.....	37
Radio	39
BBC Radio 1.....	39
BBC Radio 2.....	42
BBC Radio 3.....	45
BBC Radio 4.....	48
BBC Radio 5 Live	51
Radio 5 Live Sports Extra.....	53
BBC 1Xtra	55
BBC 6 Music.....	57
BBC Radio 7.....	59
BBC Asian Network.....	61
Cyfryngau'r dyfodol	63
BBC Ar-lein.....	63
Botwm Coch y BBC.....	66
Newyddion	68
BBC News Channel.....	68
BBC Parliament.....	71
Gwledydd a Rhanbarthau.....	73
Gorsafoedd Radio Lleol y BBC yn Lloegr.....	73
BBC Radio Scotland.....	76
Radio nan Gàidheal.....	79
BBC ALBA.....	82
BBC Radio Wales.....	85
BBC Radio Cymru	87
BBC Radio Ulster/Foyle	89
Ymrwymïadau pellach	92
Ymrwymïadau pellach yn ymwneud â rhaglenni	92
Ymrwymïadau pellach y BBC	92

Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mae'r Datganiadau o Bolisi Rhaglenni hyn yn nodi ymrwymïadau o ran rhaglenni a blaenoriaethau golygyddol y BBC, ar gyfer pob un o'n gwasanaethau, yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae ymrwymïad i newyddiaduraeth ryngwladol, cenedlaethol a lleol o'r ansawdd a'r didwylledd uchaf yn parhau yn ganolog i'r hyn y mae'r BBC yn ei gynnis, a bydd datblygiad ar-lein newydd pwysig, Democracy Live, yn helpu pobl i gysylltu â'u cynrychiolwyr ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a dilyn eu gwaith.

Yn ystod y flwyddyn i ddod rydym yn gobeithio cryfhau'n perfformiad yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU, gan wella ansawdd ac amrywiaeth y gwasanaethau rydym yn eu cynnis. Rydym yn bwriadu cyflwyno rhwydwaith newydd o ohebwyr arbenigol i gyfoethogi'r sylw y mae'r BBC yn ei roi i lywodraeth leol, mwy o raglenni meithrin gwybodaeth yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a rhaglen bêl-droed ranbarthol newydd yn Lloegr. Byddwn hefyd yn cwblhau'r gwaith o ailgynllunio safleoedd BBC Lleol sy'n canolbwyntio ar newyddion, chwaraeon a thywydd lleol a chyda dolenni i amrywiaeth eang o safleoedd lleol allanol.

Rhoddir lle blaenllaw i'r celfyddydau a diwylliant. Bydd Poetry Season, sef gwaith ar y cyd rhwng BBC Two a BBC Four, yn darparu dros wyth awr o raglenni oriau brig, gan gynnig amrywiaeth o wahanol safbwyntiau ar werth ac ystyr barddoniaeth, tra bydd Off By Heart yn cyflwyno plant i'r hwyl o ddysgu ac adrodd penillion.

Rhaglenni ffeithiol fydd yn cael y prif sylw ar BBC One, â rhaglenni newydd fel The Science Show [teitl dros dro] yn dod â gwyddoniaeth i gynulleidfa deuluol yng nghanol yr amserlen oriau brig, gyda rhaglenni awr arbennig a deunydd ar-lein yn ei ategu. Y gyfres Life gan David Attenborough fydd canolbwynt tymor Darwin 200. Bydd BBC Two yn dilyn llwyddiant Oceans gyda chyfres chwe rhan newydd ar fyd natur o'r enw The South Pacific a fydd yn canolbwyntio ar fywyd y môr, a bydd Stephen Fry yn archwilio rhai o'r rhywogaethau anifeiliaid sydd yn y perygl mwyaf yn Last Chance To See.

Ar BBC One, bydd y dramâu cyfoes yn cynnwys Occupation, sef cyfres newydd bwysig am fywydau milwyr sy'n dychwelyd o Irac. Hefyd, bydd y sianel yn darlledu addasiad newydd o glasur Jane Austen, Emma. Bydd comedi prif ffrwd yn cael ei gryfhau trwy gomisiynu rhaglenni newydd, gan gynnwys Big Top, Reggie Perrin a The Jon Culshaw Impression Show.

Bydd Radio 4 yn darlledu cyfresi ffeithiol, arloesol, gan gynnwys penodau terfynol y gyfres 90 rhan, America - Empire Of Liberty, ac A History Of The World In 100 Objects, sef partneriaeth gyda'r Amgueddfa Brydeinig a fydd yn sbarduno partneriaethau yn y dyfodol i archwilio hanes mewn ffyrdd rhyngweithiol drwy eitemau mewn casgliadau gwahanol amgueddfeydd. I ddathlu ugain mlynedd ers dymchwel Wal Berlin, bydd rhaglenni ar Radio 2, Radio 3 a Radio 4 yn archwilio effaith barhaol y digwyddiad hwn ar wleidyddiaeth, diwylliant a chymdeithas dros y ddau ddegawd diwethaf.

Bydd Radio 1, mewn partneriaeth ag 1Xtra a BBC Switch, yn darlledu cyfres o ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn canolbwyntio ar faterion yn cynnwys cyffuriau, bwlio a gwirfoddoli, tra bydd 1Xtra yn cynnal prosiect ar yr awyr, lle bydd pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant yn cyfrannu'n uniongyrchol at y rhaglenni, gan rannu eu safbwyntiau ar ddiwylliant du a threfol modern yn y DU.

Yn dilyn adolygiad diweddar Ymddiriedolaeth y BBC o BBC Ar-lein, byddwn yn cyrraedd amrywiaeth ehangach o sefydliadau sy'n bartneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol, gan greu gwell cysylltiadau â safleoedd a gwasanaethau y tu hwnt i'r BBC. Gan adeiladu ar lwyddiant iPlayer y BBC, byddwn yn sicrhau bod y gwasanaeth ar gael ar amrywiaeth ehangach o lwyfannau a dyfeisiau.

Credaf y bydd y blaenoriaethau a nodir yn y Datganiadau hyn yn ei gwneud yn flwyddyn gyffrous i'r BBC a'i chynulleidfaedd.

Teledu

BBC One

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC One yw bod yn wasanaeth teledu cymysg mwyaf poblogaidd y BBC ledled y DU a chynnig amrywiaeth eang o raglenni o safon. Hon ddylai fod yn brif sianel y BBC ar gyfer digwyddiadau cartref a rhyngwladol pwysig a dylai rhaglenni'r sianel adlewyrchu'r DU gyfan. Dylai cyfran uchel iawn o'r rhaglenni fod yn gynyrchiadau gwreiddiol.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC One yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Mae BBC One yn gwneud cyfraniad hanfodol i gyflawni'r diben pwysig hwn, gan gyflwyno gwerth i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd trwy newyddiaduraeth ryngwladol, genedlaethol a lleol o ansawdd. O ran newyddion, bydd BBC One yn parhau i ategu ei bwletinâu rheolaidd gyda rhaglen 8pm, â'r nod o wneud y newyddion rhwydwaith yn fwy hygyrch ac eang ei gyrhaeddiad, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd. Hefyd, bydd yn darparu dadansoddiad a newyddiaduraeth ymchwiliol o ansawdd, gan gynnal ei hymrwymiad cyfredol i faterion cyfoes yn ystod yr oriau brig, gyda rhaglenni arbennig oriau brig yn ategu Panorama yn rheolaidd. Bydd The Big Questions, Question Time, This Week a The Politics Show hefyd yn darparu dadansoddiadau a sylwebaeth wleidyddol a chrefyddol ac ym maes materion cyfoes.
- **Blaenoriaeth:** Bydd slot cyson yn ystod oriau brig nos Fawrth yn rhoi sylw i'r goreuon ymhlith ffilmiau dogfen. Cyflwynir rhaglenni ar oroeswyr trychineb y Marchioness, tymor o ffilmiau am y modd y mae swyddogaeth mamau yn newid, a chyfres o raglenni dogfen gan gyfarwyddwyr enwog. Hefyd yn ystod yr oriau brig, bydd materion cymdeithasol cymhleth sy'n effeithio ar Brydain heddiw yn cael sylw. Bydd themâu cyfoeth, digartrefedd, trosedd a rhoddi organau'n cael eu harchwilio. Bydd y gyfres boblogaidd Missing Live, sy'n dilyn gwaith yr heddlu wrth iddynt chwilio am rai o'r bobl sydd ar goll yn y DU, yn dychwelyd ochr yn ochr â sawl drama i'w hategu.

2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd BBC One yn ceisio gwella'r modd y cyflawnir y diben hwn, drwy barhau i foderneiddio, cynnig amrywiaeth o raglenni comedi ac adloniant a dramâu nodedig, gyda syniadau ffres a newydd.
- Bydd BBC One yn arddangos ymroddiad i raglenni ffuglen cyfoes gyda Occupation, sef cyfres bwysig newydd am fywydau milwyr sy'n dychwelyd o Irac, i gyd-fynd â dychweliad y cyfresi drama cyffrous, modern Spooks a Survivors. Bydd BBC One hefyd yn dangos addasiad o'r nofel a enillodd wobrau i Andrea Levy, Small Island, sydd wedi'i lleoli yn Jamaica a Llundain. **Bydd yr addasiad yn cyffwrdd â themâu**

ymerodraeth, rhagfarn a rhyfel. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, bydd BBC One hefyd yn cyflwyno addasiad newydd o'r clasur Emma.

- Mae ymrwymiad BBC One i raglenni comedi ac adloniant prif ffrwd yn parhau drwy gomisiynu rhaglenni newydd, gan gynnwys Big Top, Reggie Perrin a The Jon Culshaw Impressions Show ochr yn ochr â chyfresi newydd o Outnumbered, Gavin And Stacey a QI. Yn dilyn y cyfresi adloniant teuluol 'corfforol' uchelgeisiol fel Total Wipeout fe welir teuluoedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn cyfres ryngwladol o'r enw Dropzone. Bydd y gyfres boblogaidd Strictly Come Dancing hefyd yn dychwelyd yn yr hydref.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC yn cyfrannu'n sylweddol at strategaeth datblygu gwybodaeth y BBC. Bydd cyfres newydd, The Science Show [teitl dros dro], yn dod â gwyddoniaeth i gynulleidfa deuluol brif ffrwd yng nghanol amserlen yr oriau brig. Bydd rhaglenni arbennig awr o hyd yn cyd-fynd â'r gyfres yn ystod y flwyddyn a bydd yn derbyn buddsoddiad aml-lwyfan sylweddol.
- Bydd BBC One yn parhau i gyflwyno rhaglenni ffeithiol arloesol i gynulleidfa oedd prif ffrwd mewn ffordd effeithiol. Y gyfres byd natur, Life, gan David Attenborough fydd canolbwynt tymor Darwin 200. Bydd y rhaglen Imagine gan Alan Yentob yn dychwelyd, ochr yn ochr â chyfres gelf newydd, The Seven Ages Of Britain gan David Dimbleby.
- Bydd tair cyfres newydd ar newyddiaduraeth defnyddwyr yn cymryd agweddau ffres at fwyd. Bydd Jimmy's Food yn rhoi cyfle i'r gwyddonydd a'r ffermwr Jimmy Doherty ymchwilio i darddiad a'r dull o gynhyrchu bwyd. Bydd Nigel Slater yn dathlu'r ffenomen ddiweddar ym Mhrydain o dyfu ein bwyd ein hunain. Sioe fformat fywiog yw Pop Up Restaurant sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'n perthynas gymhleth â bwyd. Bydd BBC One Daytime yn cynnal tymor a fydd yn rhoi sylw i ddigwyddiadau allweddol ym 1939 drwy raglenni ffeithiol a dramâu gwreiddiol yn The Week We Went To War.

4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Mae gan BBC One gyfraniad pwysig i'w wneud wrth adlewyrchu amrywiaeth y DU. Er mwyn gwella perfformiad, yn unol â blaenoriaethau cyffredinol y BBC, bydd rhaglenni rhwydwaith o bob cwr o'r DU yn cael eu cryfhau mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys buddsoddiad newydd mewn rhaglenni newyddion rhanbarthol hirsefydlog (yn amodol ar gael y gymeradwyaeth angenrheidiol) ac mewn dramâu newydd. Bydd y rhaglenni drama yn parhau i adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol y DU, gan gynnwys All The Small Things gan Debbie Horsefield sydd wedi'i lleoli yn ardal Manceinion ac sy'n codi'r galon gyda hanes côr amatur, a Hope Springs, cyfres ddrama wyth rhan newydd yn ystod oriau brig sydd wedi'i lleoli yn yr Alban ac sy'n dilyn hynt a helynt pedair cyn-droseddwrraig sy'n ceisio cael trefn ar eu bywydau. O ran y rhaglenni drama a chomedi o Gymru, bydd Gavin And Stacey yn trosglwyddo'n llwyddiannus i BBC One a Merlin a Doctor Who yn dychwelyd i'r sgrin. Bydd The Street a Waterloo Road hefyd yn dychwelyd.
- O ran rhaglenni adloniant, bydd Live From The Apollo yn symud allan o Lundain ac yn teithio o gwmpas Prydain i arddangos y digrifwyr gorau. Yn ystod nosweithiau'r wythnos, bydd The One Show ac Inside Out yn parhau i dathlu amrywiaeth y DU. Bydd Countryfile yn symud i slot yn ystod oriau brig ac yn cael ei adfywio i roi gwell sylw i faterion gwledig ac amgylcheddol ledled y DU.
- I gyd-fynd â'r tymor Aged In Britain Today, bydd Silverville yn cyflwyno cyfres unigryw a theimladwy o raglenni dogfen sy'n adlewyrchu bywydau pobl hŷn ym Mhrydain. Bydd yn cael ei darlledu tua'r un amser â'r rhaglen Panorama arbennig ar BBC One am

driniaeth yr henoed yn y DU a rhaglen ddogfen gan Gerry Robinson ar drawsnewid cartrefi gofal preifat ar BBC Two.

5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd BBC One yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu darganfod mwy ar-lein am faterion a godir gan raglenni a gwneud cysylltiadau perthnasol rhwng y gwahanol feysydd gwybodaeth. Yn arbennig, eleni bydd yr adnoddau ar-lein ar gyfer Earth yn cael eu hymestyn i gynnig mynediad ehangach a manylach nag erioed o'r blaen i gynnwys byd natur y BBC. Bydd LabUK yn cefnogi amrywiaeth o raglenni i alluogi gwylwyr i gymryd rhan mewn ymchwil wyddonol ddilys. Ceir cyfleoedd, trwy ffrydiau pwnc ar-lein, i ddilyn y straeon sy'n cael eu darlledu ar yr awyr.
- Bydd BBC One yn arloesi gyda ffyrdd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd o gwmpas digwyddiadau pwysig yn yr amserlen trwy fanteisio ar gynnwys ar-lein, ar y teledu a thrwy'r botwm coch. Bydd cynulleidfaoedd yn cael eu hannog i ymuno, cymryd rhan a meithrin cymunedau o gwmpas sioeau adloniant pwysig. Bydd y sianel yn parhau i gefnogi ymgyrchoedd gweithredu cymunedol ledled y wlad drwy lwyfannau rhyngweithiol sy'n galluogi cynulleidfaoedd i gymryd rhan a chyfrannu at weithgareddau codi arian ar gyfer digwyddiadau fel Plant mewn Angen a Sport Relief.

6 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Mae BBC One yn allweddol yn y gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r BBC yn hyn o beth, yn enwedig drwy raglenni newyddion a materion cyfoes, gan ddarparu gwybodaeth a dadansoddi straeon a materion rhyngwladol. O ran dramâu, bydd Occupation yn dod â rhannau o'r byd sydd wedi'u dinistrio gan ryfel i'r DU trwy olrhain bywydau tri o filwyr Prydeinig, tra bod y gyfres rhaglenni dogfen Mega Cities yn trafod croestoriad fforensig o ddinasoedd mwyaf y byd.
- Yn dilyn y ffilm lwyddiannus a enillodd glod yr adolygwyr yn gynharach y llynedd, mae The No.1 Ladies' Detective Agency wedi dychwelyd fel cyfres chwe rhan. Dyma'r gyfres deledu prif ffrwd gyntaf erioed i gynnwys dim ond actorion duon, a chaiff ei ffilmio ym Motswana.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC One

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 45 awr o gerddoriaeth a'r celfyddydau
(heb gynnwys yr hyn a ddarlledir dros nos yn y Sign Zone)

Hyrwyddo addysg a dysg

- 700 awr o raglenni ffeithiol newydd
- 1,500 awr o raglenni plant, ymrwymiad wedi'i rannu gyda BBC Two

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 110 awr o raglenni crefyddol, ymrwymiad wedi'i rannu gyda BBC Two
(heb gynnwys yr hyn a ddarlledir dros nos yn y Sign Zone)

Ymrwymiadau statudol

Mae oriau brig yn yr ymrwymiadau hyn wedi'u diffinio fel bod rhwng 18:00 a 22:30 o'r gloch.

Cytunir ar y cwtâu canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn bbc.co.uk/annualreport):

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.
- Sicrhau bod o leiaf 70% o'r holl oriau, a 90% o oriau brig, yn gynyrchiadau gwreiddiol.
- Cynnal y patrwm cyffredinol cyfredol o raglenni newyddion gydol y dydd, sef o leiaf 1,380 awr o raglenni newyddion rhwydwaith, gydag o leiaf 275 awr yn yr oriau brig.
- O leiaf 3,920 awr o raglenni newyddion rhanbarthol, gydag o leiaf 2,010 awr yn yr oriau brig.

Yn ogystal, mae BBC One yn rhannu'r ymrwymïadau canlynol gyda BBC Two:

- O leiaf 365 awr o raglenni materion cyfoes rhwydwaith gydag o leiaf 105 awr yn yr oriau brig.
- O leiaf 655 awr o raglenni rhanbarthol yn yr oriau brig, a 280 awr arall ar adegau nesaf at yr oriau brig (h.y. yr awr bob ochr i'r oriau brig) ac eithrio newyddion ar BBC One.
- O leiaf 6,270 awr o raglenni rhanbarthol o bob math, gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol ar gyfer BBC One.
- Dylai o leiaf 95% o raglenni rhanbarthol gael eu gwneud yn yr ardal berthnasol.

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC - boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall - yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau BBC One:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

Atodiad BBC One Scotland

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC One Scotland yw ategu amserlen rhwydwaith BBC One trwy ddarparu rhaglenni o bob math sy'n apelio at gynulleidfaoedd prif ffrwd yr Alban ac sy'n cymryd lle rhaglenni BBC One yn llwyr neu'n eu symud i ran arall o'r amserlen.

Dylai'r gwasanaeth ddarparu rhaglenni sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth yr Alban i wylwyr yn yr Alban a dyma ddylai prif gyfrwng y BBC fod ar gyfer darlledu digwyddiadau pwysig yn yr Alban ar y teledu.

Datblygiadau allweddol

Mae BBC One Scotland yn darparu amrywiaeth eang o raglenni teledu nodedig sy'n adlewyrchu natur amrywiol yr Alban a diwylliant a threftadaeth yr Alban i gynulleidfaoedd yr Alban. Dyma ddatblygiadau allweddol BBC One Scotland eleni:

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Er mwyn cryfhau'r perfformiad, yn unol â blaenoriaethau cyffredinol y BBC, mae BBC One Scotland yn bwriadu dyfnhau a chynyddu'r sylw a roddir i newyddion a digwyddiadau lleol, ar y teledu ac ar-lein, yn ogystal ag mewn meysydd fel newyddion busnes. Yn amodol ar gael y gymeradwyaeth angenrheidiol, bydd yn aildrefnu staffio ac adnoddau er mwyn eu neilltuo i nodi a rhoi sylw i straeon cymunedau lleol ledled yr Alban.
- Bydd y gwasanaeth yn darparu cyfres o raglenni dogfen pwysig, wedi'u recordio dros hanner blwyddyn ar stad o dai yn Kilmarnock, sy'n myfyrio ar fywydau, gobeithion a dyheadau cymuned amrywiol mewn cyfnod o galedi economaidd.
- Bydd BBC One Scotland yn rhoi sylw arbennig i'r etholiadau Ewropeaidd ym mis Mehefin 2009. Bydd adroddiadau newyddion ar Senedd yr Alban a'i chyfrifoldebau datganoledig yn cael eu hategu trwy gyflwyno'r prosiect Digital Democracy, sy'n cynnwys deunydd testun a fideo ar-lein ar fusnes y Senedd a'i phwyllgorau.
- Bydd llawer o raglenni yn parhau i gael eu darlledu yn y gyfres Investigations.

2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd ail hanner y prosiect uchelgeisiol iawn, Scotland's History yn cael ei ddarlledu yn 2009, a chyfres deledu i'w dangos ar BBC One Scotland ac ym mhob rhan o'r DU wedi hynny fydd yr uchafbwynt. Bydd nifer o gyfresi radio, cyngherddau gan SSO y BBC mewn gwahanol leoliadau enwog ledled yr Alban, teithiau clywedol, gwefannau ar-lein a rhaglenni ar gyfer dysgu, deunydd Gaeleg a digwyddiadau a gweithgareddau allgymorth yn ychwanegu at y rhaglenni. Bydd y prosiect yn dod i'w anterth gyda chyngherdd mawr.
- Bydd cyfres gomedi chwe phennod newydd, Happy Hollidays, yn cael ei darlledu ar BBC One Scotland gan roi sylw i gymysgedd o dalent newydd a sefydledig.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd rhaglenni arbennig yn cael eu darlledu i ddathlu degawd ers datganoli yn yr Alban, ynghyd â nifer o raglenni dogfen yn myfyrio ar agweddau ar fywyd cyfoes yn yr Alban, gan gynnwys un ar waith y Drugs Enforcement Agency a fydd yn archwilio'r broblem gynyddol o'r defnydd o gocên ar strydoedd yr Alban.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC One Scotland

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 265 awr o newyddion a materion cyfoes ar y teledu

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 140 awr o raglenni eraill (ac eithrio newyddion)

Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC One Scotland yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC One fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One.

Atodiad BBC One Wales

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC One Wales yw ategu amserlen rhwydwaith BBC One trwy ddarparu rhaglenni o bob math sy'n apelio at gynulleidfaoedd prif ffrwd Cymru ac sy'n cymryd lle rhaglenni BBC One yn llwyr neu'n eu symud i ran arall o'r amserlen.

Dylai'r gwasanaeth ddarparu rhaglenni sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Cymru i wylwyr yng Nghymru a dyma ddylai prif gyfrwng y BBC fod ar gyfer darlledu digwyddiadau pwysig yng Nghymru.

Datblygiadau allweddol

Bydd BBC One Wales yn parhau i gyfrannu tuag at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy BBC One yn yr amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Dyma ddatblygiadau allweddol BBC One Wales eleni:

1 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd BBC One Wales yn cynhyrchu rhaglenni i ddathlu 40 mlynedd ers arwisgo Tywysog Siarl fel Tywysog Cymru, gan fwrw golwg ar ddigwyddiadau cynhyrfus y flwyddyn, yn ogystal ag archwilio swyddogaeth a pherthnasedd y frenhiniaeth yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.
- Bydd y gyfres materion defnyddwyr, X Ray, yn parhau i roi cipolwg bywiog a hygyrch ar hawliau a materion defnyddwyr.
- Bydd cyfres o raglenni dogfen, The Chiefs, yn archwilio'n fanwl yr heriau a'r penblethau sy'n wynebu ffigyrau amlwg yng Nghymru.

2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd cyfres ddrama arloesol newydd yn ystod oriau brig yn cael ei lansio ar gyfer BBC One Wales. Bydd Crash, sy'n seiliedig ar fywydau grŵp o feddygon ifanc mewn ysbyty prysur yn y ddinas, yn dod ag elfen fwy unigryw i amserlen BBC One Wales ac yn ymgysylltu â chynulleidfa eang. Bydd doniau ifanc yn cael eu meithrin drwy dîm o awduron newydd a fydd yn creu'r gyfres o dan arweiniad Tony Jordan (cyd-greawdwr Life On Mars a chreawdwr Holby Blue).

3 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC One Wales yn parhau â'r fformat trafod aml-lwyfan National Exchange. Ei phrif nod yw meithrin trafodaeth genedlaethol am ddetholiad o bynciau allweddol sy'n achos pryder cyfoes. Ar ôl dechrau drwy edrych ar blentyndod ac ansawdd bywyd plant yng Nghymru, bydd y sianel yn ceisio parhau â'r lefel uchel hon o ymgysylltu gyda dau neu dri o bynciau eraill gydol y flwyddyn.
- **Blaenoriaeth:** Er mwyn cryfhau perfformiad, yn unol â blaenoriaethau cyffredinol y BBC, mae BBC One Wales (yn amodol ar gael y gymeradwyaeth angenrheidiol) yn bwriadu cynyddu ei hadnodd casglu newyddion mewn meysydd lle gall adlewyrchu'r gwahaniaethau rhanbarthol amlycaf yng Nghymru, drwy benodi gohebwy'r arbenigol. Mae BBC Wales hefyd yn bwriadu rhoi mwy o sylw i bum etholaeth ranbarthol y Cynulliad yng Nghymru.
- Bydd BBC One Wales yn parhau i roi sylw manwl ac ymchwilio i faterion polisi cyhoeddus trwy ein rhaglenni newyddion, gwleidyddiaeth a materion cyfoes.

4 Troglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd y gwasanaeth yn parhau i arloesi wrth harneisio technolegau newydd a llwyfannau an-linol i ddyfnhau ymgysylltiad y gynulleidfa â chynnwys teledu BBC Wales. Bydd cynnwys amrywiol yn cael ei ddarparu ar lwyfannau an-linol, gan gynnwys deunydd o Wales Today a fformat trafod newydd.

Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC One Wales

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 250 awr o newyddion a materion cyfoes ar y teledu

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 60 awr o raglenni eraill (ac eithrio newyddion)

Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC One Wales yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC One fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One.

Atodiad BBC One Northern Ireland

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC One Northern Ireland (NI) yw ategu amserlen rhwydwaith BBC One trwy ddarparu rhaglenni o bob math sy'n apelio at gynulleidfaeodd prif ffrwd Gogledd Iwerddon ac sy'n cymryd lle rhaglenni BBC One yn llwyr neu'n eu symud i ran arall o'r amserlen. BBC One NI ddylai prif gyfrwng y BBC fod ar gyfer darlledu digwyddiadau pwysig yng Ngogledd Iwerddon ar y teledu.

Datblygiadau allweddol

Bydd BBC One NI yn archwilio themâu hanesyddol a chyfoes. Bydd y gwasanaeth yn ategu amserlen y rhwydwaith gydag amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys portffolio cymysg o raglenni ffeithiol.

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd gohebiaeth newyddion o fusnes y Cynulliad yn cael ei hategu gan amrywiaeth o raglenni am faterion cymdeithasol, gwleidyddol a chymunedol:
 - Wrth i'r drafodaeth barhau am y ffordd orau o ymdrin ag etifeddiaeth y gorffennol agos, bydd y sianel yn disgrifio hanes teulu a ymfudodd yn ystod yr Helbulon a bydd hefyd yn rhoi sylw i brofiadau 40 o bobl a gafodd eu geni ar ddechrau'r gwrthdaro ym 1968.
 - Bydd realiti'r Helbulon hefyd yn cael sylw mewn archwiliad o'r Shankill Butchers.
- Bydd BBC One Northern Ireland yn parhau i roi sylw eang i Gynulliad Gogledd Iwerddon ar BBC Newline. Bydd The Politics Show Northern Ireland yn darparu dadansoddiad trylwyr o ddatblygiadau a thrafodaethau gwleidyddol fel y maent yn effeithio ar gynulleidfaeodd lleol. Rhoddir hefyd broffil estynedig o Lywydd Sinn Féin, Gerry Adams. Bydd BBC News a rhaglenni cysylltiedig yn rhoi sylw eang i etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mehefin 2009.
- **Blaenoriaeth:** Er mwyn cryfhau'r perfformiad, yn unol â blaenoriaethau cyffredinol y BBC, mae BBC One Northern Ireland (yn amodol ar gael y gymeradwyaeth angenrheidiol) yn bwriadu cynyddu ystod a dyfnder ei gallu i gasglu newyddion gyda gohebwy'r ychwanegol yn Siroedd Tyrone, Antrim a Down.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd themâu hanesyddol a bywyd cyfoes yn thema gref mewn rhaglenni. Bydd rhaglenni ffeithiol yn ystyried materion cymdeithasol sy'n llawn her ac yn boenus o bryd i'w gilydd. Bydd hyn yn cynnwys cyfres yn dilyn grŵp o fechgyn yn eu harddegau sy'n wynebu eu cyfrifoldebau fel tadau a rhaglen ddogfen yn bwrw golwg ar hunanladdiad.
- Mae system addysg Gogledd Iwerddon wedi bod yn destun trafodaethau gwleidyddol a chymdeithasol dwys. Bydd cyn-arolygwr Ofsted, Chris Woodhead, yn cyflwyno'i safbwynt ar addysg leol.
- Bydd BBC Northern Ireland yn cyflwyno ffilm sydd wedi'i chomisiynu a'i hysgrifennu'n lleol am George Best, a bydd hefyd yn cael ei darlledu ar deledu rhwydwaith y BBC. Bydd Best yn portreadu effeithiau alcoholiaeth ar George a'i fam, Anne, a fu hefyd farw oherwydd y salwch. Caiff y ddrama ei darlledu ar y cyd â menter Headroom y BBC, sydd â'r nod o annog pobl i ofalu am eu hiechyd a'u lles meddyliol.
- Bydd ffigyrau pwysig yn hanes Gogledd Iwerddon yn cael sylw mewn dwy raglen am fywydau Harry Ferguson a Blair Mayne. Bydd The Man Who Could Fly yn asesu

cyfraniad Ferguson at ddatblygiad awyrennau a bydd y cyn yrwr Formula 1, Eddie Irvine, yn cyflwyno In The Footsteps Of Blair Mayne.

3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd ymrwymiad y BBC i ddiwydiannau creadigol Gogledd Iwerddon yn cael ei adlewyrchu drwy raglenni newydd arloesol, a fydd wedi'u cynhyrchu i raddau helaeth gan y sector annibynnol lleol. Bydd hyn yn cynnwys cyfres lle bydd comedïwr Americanaidd yn chwilio am ddigrifwr uchelgeisiol sydd â'r hiwmor (a'r dewrder) i berfformio yng Ngŵyl Caeredin.
- Darlledir rhaglen deyrnged i ddathlu pen-blwydd un o feirdd gorau Iwerddon, Seamus Heaney, yn 70 oed.
- Bydd y nofelydd lleol, Colin Bateman, yn trafod rhai o'r awduron o Ogledd America sydd wedi ysbrydoli ei waith.

4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Mae gan Goleg St Columb yn Londonderry yr anrhydedd hynod o fod â dau gyn-fyfyriwr sydd wedi ennill y Wobr Nobel. Yn The Boys Of St Columb's, mae Seamus Heaney a John Hume yn ymuno â chyn-ddisgyblion eraill i hel atgofion am eu dyddiau ysgol.
- Bydd y gwasanaeth yn cyflwyno amrywiaeth o raglenni sy'n ceisio deall ac adlewyrchu credoau crefyddol a materion moesegol.
- Bydd BBC Sport NI yn rhoi sylw i'r prif ddigwyddiadau chwaraeon, fel y North West 200, GAA Ulster Championship ac uchafbwyntiau gemau pêl-droed rhyngwladol Gogledd Iwerddon.

5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd i'r cyhoedd

- Rhoddir adnoddau ymroddedig ar y wefan i ategu cyfresi a rhaglenni newydd sydd wedi'u comisiynu ar gyfer BBC Northern Ireland. Bydd pyrth newydd ar y we yn cael eu lansio hefyd yn y Wyddeleg a Sgoteg Ulster.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau BBC One Northern Ireland

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 280 awr o newyddion a materion cyfoes ar y teledu

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 80 awr o raglenni eraill (ac eithrio newyddion)

Ymrwymadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymadau a amlinellir yn yr atodiad hwn, bydd BBC One NI yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC One fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One.

BBC Two

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC Two yw darparu arlwy amrywiol sy'n apelio at gynulleidfa eang o oedolion gyda rhaglenni treiddgar o sylwedd. Dyma sianel deledu'r BBC a ddylai ddarlledu'r nifer fwyaf a'r amrywiaeth ehangaf o raglenni sy'n cynyddu gwybodaeth pobl, a chânt eu hategu gan raglenni comedi, drama a chelfyddydol nodedig.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC Two yn parhau i gyfrannu tuag at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Two yn ceisio cynnal ei henw da am newyddiaduraeth o ansawdd a rhaglenni materion cyfoes pryfoclyd drwy fwrw golwg ar faterion pwysig y dydd a myfyrio ar bryderon y cyhoedd, gan gynnwys archwilio achosion ac arwyddocâd y sefyllfa economaidd sydd ohoni. Bydd cyfres newydd o raglenni dogfen o'r enw Recession Britain yn dangos trafferthion rhai o'r enwau enwocaf ar stryd fawr Prydain, tra bydd drama newydd, Lehman Brothers, yn adrodd hanes cwmp y banc buddsoddi hwn. Caiff newid diwylliannol, economaidd a demograffig ei archwilio'n fanwl yn The History Of The British Family. Bydd The Trouble With Working Women yn dangos sut mae'r ffaith fod menywod wedi dechrau gweithio ers y rhyfel, wedi trawsnewid yr economi a chymdeithas.
- Bydd cyfres ddogfen newydd, Generation Jihad, yn ystyried dynion a menywod ifanc o Brydain y mae eu syniadau wedi'u llywio gan negeseuon sy'n deillio o Islam radicalaidd tra bydd rhaglenni'r Violence Season yn archwilio sut mae gweithredoedd treisgar yn y byd cyhoeddus ac yn y cartref yn cael effaith ddinistriol ar sawl agwedd ar fywyd cyfoes ym Mhrydain. Bydd Surveillance UK yn asesu effaith lledaeniad camerâu diogelwch a thechnolegau gwyliadwriaeth eraill. Bydd Working Lunch a Newsnight yn parhau i gynnig sylwebaeth a dadansoddiad deallus o faterion cyfoes ac economeg. Fel rhan o'r tymor Aged In Britain Today, bydd rhaglen ddogfen gan Gerry Robinson ar drawsnewid cartrefi gofal preifat yn cael ei darlledu tua'r un amser â Silverville ar BBC One, sef cyfres ddogfen sy'n myfyrio ar fywydau pobl hŷn ym Mhrydain. Hefyd, darlledir rhaglen Panorama arbennig am y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yn y DU.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- **Blaenoriaeth:** Bydd cyfresi arloesol yn cael lle mwy canolog yn yr amserlen oriau brig, gan geisio gwneud yr argraff fwyaf ar y gynulleidfa a chynnal enw da'r BBC am raglenni ffeithiol o'r ansawdd uchaf. Bydd BBC Two yn adeiladu ar lwyddiant Oceans gyda chyfres byd natur newydd mewn chwe rhan ar fywyd y môr, sef The South Pacific. Bydd The Great Rift yn dangos sut mae dyffryn mwyaf Affrica wedi pennu tynged llawer o fywyd gwylt y cyfandir, ac mewn cyfres arall o bwys, bydd Stephen Fry yn ymuno â'r swolegydd Mark Carwardine i archwilio rhai o'r rhywogaethau anifeiliaid sydd yn y perygl mwyaf, yn Last Chance To See

- Bydd BBC Two yn darlledu cyfresi i greu argraff, wedi'u harwain gan y cyflwynwyr. Byddant yn cynnig portffolio nodedig, gwreiddiol o bynciau a dulliau cyflwyno gydag apêl amrywiol, gan gynnwys Age Of Churchill gydag Andrew Marr a The British Navy gyda Dan Snow. Y tu hwnt i'r glannau hyn, bydd gwylwyr yn cael cipolwg ffres ar Ffrainc yn y 18fed ganrif yn The French Revolution a bywyd y brenin Louis XIV yn Versailles: Dream Of A King. I ddathlu 40 mlynedd ers glanio ar y lleuad, bydd ffilm gan James May a chyfres mewn dwy ran yn dilyn hanes NASA. Bydd The Supersizers yn dychwelyd gyda chwe phennod ddiddorol arall ar hanes bwyd Prydeinig.
- Bydd BBC Two yn cryfhau ei henw da am gyflenwi rhaglenni deallus a phryfoclyd sy'n rhoi sylw i bob agwedd ar wyddoniaeth. Bydd How The Earth Made Us yn dangos sut mae daeareg wedi llywio hanes a gwareiddiad dyn mewn ffyrdd annisgwyl yn aml. I gyd-fynd â thymor Darwin 200 bydd The Human Journey yn ail-greu taith y bobl gyntaf i adael Affrica, cyn mynd ymlaen i ymgartrefu ym mhedwar ban byd. Bydd Solar System yn defnyddio technolegau arloesol i gyfleu delweddau ysblennydd o'r planedau cyfagos - gydag offer rhyngweithiol newydd ar y safle ar-lein i'w hategu. Bydd cyfres wyddoniaeth gysylltiedig mewn saith rhan ar CBBC yn ategu'r gyfres hon.

3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Two yn ceisio darlledu tymhorau o raglenni sy'n archwilio'r celfyddydau a diwylliant, gan sicrhau'r argraff fwyaf. Mae'r rhain yn cynnwys Poetry Season 2009 sy'n fynegiant allweddol o ymrwymiad y sianel i adlewyrchu un o elfennau pwysicaf traddodiad llenyddol Prydain. Gyda phobl fel Griff Rhys Jones, Simon Schama, Armando Iannucci a Sheila Hancock yn cyfrannu at dros wyth awr o raglenni oriau brig, bydd y sianel yn cynnig amrywiaeth o wahanol safbwyntiau ar werth ac ystyr barddoniaeth. Bydd y gyfres Off By Heart yn cyflwyno plant i'r pleser o ddysgu ac adrodd penillion. Mae'r tymor hwn yn cael ei arwain gan BBC Two mewn cydweithrediad â BBC Four a'i nod yw cynnal digwyddiad llenyddol uchelgeisiol ar y teledu.
- Mae meysydd diwylliannol eraill yn cael sylw mewn sawl cyfres arloesol amlwg. Bydd The Birth Of British Music yn archwilio esblygiad *repertoire* genedlaethol o gerddoriaeth glasurol drwy waith Purcell a dylanwad Handel a Haydn. Ceir elfen gyfoes unigryw i'r sylw a roddir i gerddoriaeth glasurol wrth i'r artist 'drum and bass', Goldie, yn sgil llwyddiant Maestro, greu cyfansoddiad clasurol ar gyfer Proms y BBC eleni. Bydd The Genius Of Design yn datgelu gwreiddiau eitemau pob dydd ac yn rhoi teyrnged i'r rhai hynny a wnaeth eu dylunio. Bydd un o noddwyr mwyaf dylanwadol y byd celf yn dethol artistiaid ifanc mwyaf addawol Prydain a'u cynnwys mewn arddangosfa yn St Petersburg a allai newid eu gyrfa, yn y rhaglen Charles Saatchi, Next Big Thing. Hefyd, bydd cyfres o raglenni dogfen arsylwadol arbennig yn olrhain datblygiad disgyblion o ddwy ysgol sy'n cynrychioli'r teuluoedd Montague a Capulet yn ystod perfformiad o Romeo And Juliet gan Shakespeare.
- Bydd rhaglenni drama a chomedi BBC Two yn canolbwyntio ar gynnwys newydd sbon, gan gyflwyno amserlen arloesol ac eclectic eleni, gan gynnwys Krod Mandoon (cleddyfwr di-glem sy'n arwain grŵp o arwyr yr un mor analluog mewn gwlad ffantasi hynafol) a Psychoville, sef rhaglen a fydd yn dilyn hynt a helynt cymuned wledig ryfedd a'i thrigolion anghyffredin. Bydd un o actoresau comedi mwyaf dawnus Prydain i'w gweld mewn sioe sgetsys newydd, Miranda Hart's Joke Shop, sydd wedi symud o Radio 4. Bydd bywydau preifat llawn sgandal yr artistiaid cyn-Raffaëlaidd yn dod yn fyw yn Desperate Romantics, cyfres a gefnogir gan raglenni ffeithiol ategol i'w dangos ar BBC Four.

4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Nod BBC Two yw sicrhau bod amrywiaeth gyfoethog cymunedau Prydain yn cael ei chynrychioli ar draws y gwahanol fathau o raglenni a fformatau. Mae nifer o gyfresi

comedi a drama newydd ar y gweill. Cyfres gomedi sy'n archwilio'r hiwmor y tu ôl i faterion hunaniaeth genedlaethol yw In My Country, a bydd dramâu gwreiddiol yn dathlu bywydau'r lesbiad flaenllaw o'r cyfnod Sioraidd, Anne Lister, a'r pêl-droediwr George Best.

- O ran rhaglenni ffeithiol, cynhyrchir amrywiaeth o raglenni ym maes hanes, gwyddoniaeth a'r celfyddydau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y tîm sy'n cyflwyno Coast yn adrodd straeon hynod ddiddorol o'r cymunedau sy'n ffynnu ar hyd arfordir y DU. Bydd ail gyfres The History Of Scotland yn cyflwyno hanes yr Alban hyd at yr oes fodern, a bydd y cyn-ddirprwy Brif Weinidog yn archwilio'r gwahaniaethau daearyddol rhwng agweddau a ffyrdd o fyw pobl Prydain yn John Prescott: The North-South Divide. Caiff gwylwyr eu cyflwyno i rai o erddi mwyaf hardd a diddorol y wlad yn A Year At Bodnant. Bydd Si a Dave yn teithio ar hyd a lled Prydain i brofi'r prydau bwyd lleol gorau yn The Hairy Bikers: Mum Knows Best.

5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd BBC Two yn blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu adnoddau ar-lein sy'n meithrin gwybodaeth. Fel rhan o ymrwymiad y BBC i'r Flwyddyn Gwyddoniaeth, caiff rhaglenni BBC Two fel Solar System a Horizon eu hategu ar-lein gan gynnwys o bob rhan o'r BBC a chysylltiadau â rhannau eraill o'r we. Bydd y sianel yn parhau i arloesi mewn perthynas â rhaglenni blaenllaw, gan annog cynulleidfaoedd ar-lein i gymryd rhan a chyfrannu at raglenni. Bydd presenoldeb aml-lwyfan cyfoethog Springwatch yn datblygu er mwyn cynnig ffyrdd newydd i gynulleidfaoedd gysylltu â darllediadau byw a chyfrannu'n uniongyrchol at raglenni. Bydd Dragons' Den, ar y llaw arall, yn rhoi cyfle i entrepreneuriaid gyflwyno'u syniadau i ddau arbenigwr newydd ar-lein. Eleni, gwelir gwelliannau i gefnogi amrywiaeth o fathau o raglenni fel garddio a choginio, yn ogystal â byd natur trwy'r prosiect Earth.

6 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Two yn darparu amrywiaeth eang o raglenni dogfen a materion cyfoes a fydd yn helpu cynulleidfaoedd i ddeall a gwneud synwyr o'r hyn sy'n digwydd yn y byd. Eleni, bydd BBC Two yn darlledu rhaglen ddogfen mewn dwy ran a fydd yn dangos bron pob cam o esgyniad Barack Obama o seneddwr talaith Illinois i'r swydd fwyaf pwerus yn y byd. Bydd y sianel yn dychwelyd i'r Unol Daleithiau i glywed barn pobl America am flwyddyn gyntaf yr Arlywydd newydd yn y swydd, yn Obama: One Year On. Ugain mlynedd ar ôl cwmp Comiwnyddiaeth, bydd Matt Frei yn dychwelyd i'r Almaen i gyflwyno'r gyfres tair rhan Berlin, tra bydd Tiananmen Square yn dod o hyd i dystion o'r protestiadau yn erbyn rheolwyr Tsieina. Bydd BBC Two yn cyflwyno Explore, cyfres newydd ar deithio'r byd a fydd yn rhoi sylw i deithio a materion cyfoes, a bydd y rhaglen anturiaethau mynydd High Altitude yn dychwelyd gyda chyfres newydd.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Two

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Hyrwyddo addysg a dysg

- 520 awr o raglenni ffeithiol newydd
- 1,500 awr o raglenni plant, ymrwymiad wedi'i rannu gyda BBC One

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 200 awr o gerddoriaeth a'r celfyddydau
(heb gynnwys yr hyn a ddarlledir dros nos yn y Sign Zone)

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 110 awr o raglenni crefyddol, ymrwymiad wedi'i rannu gyda BBC One (heb gynnwys yr hyn a ddarlledir dros nos yn y Sign Zone)

Ymrwymadau statudol

Mae oriau brig yn yr ymrwymadau hyn wedi'u diffinio fel bod rhwng 18:00 a 22:30 o'r gloch.

Cytunir ar y cwotâu canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn bbc.co.uk/annualreport):

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.
- Sicrhau bod o leiaf 70% o'r holl oriau, a 80% o oriau brig, yn gynrychiadau gwreiddiol.

Yn ogystal, mae BBC Two yn rhannu'r ymrwymadau canlynol gyda BBC One:

- O leiaf 365 awr o raglenni materion cyfoes rhwydwaith gydag o leiaf 105 awr yn yr oriau brig.
- O leiaf 655 awr o raglenni rhanbarthol yn yr oriau brig, a 280 awr arall ar adegau nesaf at yr oriau brig (h.y. yr awr bob ochr i'r oriau brig) ac eithrio newyddion ar BBC One.
- O leiaf 6270 awr o raglenni rhanbarthol o bob math, gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol ar gyfer BBC One.
- Sicrhau bod o leiaf 95% o raglenni rhanbarthol yn cael eu gwneud yn yr ardal berthnasol.

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC - boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall - yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau BBC Two:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel. (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys. (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys. (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

Atodiad BBC Two Scotland

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Two Scotland yn diwallu anghenion a diddordebau arbennig cynulleidfaoedd yr Alban, gan ategu apêl rhaglenni rhwydwaith ar BBC Two Scotland.

Datblygiadau allweddol

Mae BBC Two Scotland yn cyflawni'i chylch gwaith gan amlaf trwy symud rhaglenni rhwydwaith i wneud lle i raglenni a gynhyrchwyd yn yr Alban ar gyfer cynulleidfaoedd yr Alban. Bydd yn parhau i gyfrannu tuag at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC mewn amrywiaeth o ffyrdd fel yr amlinellir yn y drwydded gwasanaeth. Dyma'r datblygiadau allweddol ar gyfer eleni:

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Two Scotland yn darlledu rhaglen ddogfen a fydd yn archwilio agweddau ac ymatebion cymdeithas i bobl sydd wedi'u hanafu mewn rhyfeloedd. Bydd Walking Wounded yn adrodd straeon personol milwyr a fu'n ymladd mewn rhyfeloedd diweddar wrth iddynt geisio ymsefydu yn ôl yn y gymdeithas.
- Bydd BBC Two Scotland hefyd yn rhoi sylw arbennig i'r etholiadau Ewropeaidd ym mis Mehefin 2009.

2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd BBC Two Scotland yn cynnwys ystod o brosiectau sy'n myfyrio ar y celfyddydau yn yr Alban yn 2009.
 - Caiff perfformiadau cerddorol byw ac wedi'u recordio eu cynnwys yn yr amserlen drwy'r flwyddyn, gan gynnwys cyngherddau a digwyddiadau clasurol (Proms In The Park a chyngherdd gan y Scottish Symphony Orchestra yn yr hydref), traddodiadol (Celtic Connections, Transatlantic Sessions) a roc (T In The Park).
 - Rhoddir llwyfan i dalentau comedi newydd gydag o leiaf ddwy gyfres newydd a ddarlledir dros sawl wythnos.
 - Caiff dau gynllun ffilmiau byr newydd ar gyfer doniau newydd ym maes rhaglenni dogfen a drama eu cefnogi a'u dangos ar BBC Two Scotland.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- Yn ogystal â rhaglenni ffeithiol sydd wedi hen ennill eu plwyf, fel Landward, dangosir rhaglenni dogfen yn archwilio cyfraniad yr Alban at feddygaeth, technoleg, cyfathrebu ac adeiladu, yn The Scots Who Made The Modern World a The Lighthouse Stevensons.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau BBC Two Scotland

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 190 awr o raglenni heblaw newyddion, gan gynnwys rhaglenni mewn Gaeleg

Ymrwymadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymadau a amlinellir yn yr atodiad hwn, bydd BBC Two Scotland yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymadau statudol

ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC Two fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two.

Atodiad BBC Two Wales

Cylch gwaith y gwasanaeth

Dylai gwasanaeth BBC Two Wales ddarparu rhaglenni amrywiol i Gymru, gan apelio at gynulleidfa eang gyda rhaglenni perthnasol a threiddgar. Dylai ddarparu amrywiaeth o raglenni sy'n cynyddu gwybodaeth y gwylwyr ynghyd â rhaglenni dogfen am gefn gwlad a'r gymdeithas gyfoes, â'r nod o fod yn ddiddorol ac yn berthnasol i gynulleidfaedd yng Nghymru.

Datblygiadau allweddol

Mae BBC Two Wales yn cyflawni'i chylch gwaith trwy symud rhaglenni rhwydwaith i wneud lle i raglenni a gynhyrchwyd yng Nghymru ar gyfer cynulleidfaedd Cymru. Bydd yn parhau i gyfrannu tuag at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC mewn amrywiaeth o ffyrdd fel yr amlinellir yn y drwydded gwasanaeth. Dyma'r datblygiadau allweddol ar gyfer eleni:

1 Hyrwyddo addysg a dysg

- Cyfres storiol arloesol i blant 3-6 oed a gyd-gomisiynwyd gyda CBeebies yw Telly Tales. Mae'n cyfuno animeiddiad a grëwyd gan blant hŷn a pherfformiadau go iawn gan blant. Mae'r gyfres yn cynnig dull newydd ac unigryw o adrodd straeon mewn prosiect a grëwyd gan blant ar gyfer plant.
- Bydd Tell It Like It Is, cyfres ddwy ran a fydd yn lansio ym mis Mawrth, yn cyflwyno prosiect dinasyddiaeth weithredol a democratiaeth uchelgeisiol ar gyfer pobl ifanc gan redeg trwy gydol 2009/2010. Mae'r gyfres yn canolbwyntio ar y materion sy'n wynebu pobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn archwilio sut y gallant ddefnyddio'r broses ddemocrataidd i sicrhau gwell canlyniadau. Bydd y wefan ategol yn galluogi pobl ifanc i rannu pryderon cyffredin ac atebion posibl a fydd yn eu helpu i wella'u bywydau.
- Bydd cyfres a gyflwynir gan Lolo Williams yn edrych yn ôl ar rai o'i raglenni sydd wedi archwilio bywyd gwyllt Cymru.

2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd pobl ifanc a chreadigrwydd yn thema gyffredin yn llawer o raglenni BBC Wales ar y celfyddydau yn 2009/2010. Bydd y rhaglen ddogfen Kick Into Reading yn bwrw golwg ar fenter Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i annog llythrennedd ymhlith plant ysgol gynradd ac, i ddathlu'r ffaith bod tref enwog y Gelli Gandryll wedi gefeillio â Mali yn Timbuktu, bydd pedwar unigolyn yn eu harddegau'n teithio i Mali i ddarganfod mwy am y wlad.
- Bydd rhaglenni Canwr Y Byd Caerdydd Y BBC yn rhan bwysig o'r amserlen, gan ddangos rhagoriaeth leisiol o safbwynt lleol a byd-eang.

3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Two Wales yn dathlu a chynrychioli Cymru, ei chymunedau a'i thirwedd mewn amrywiaeth o feysydd. Caiff cyfres a fydd yn dilyn blwyddyn ym mywyd gardd fwyaf adnabyddus Cymru, Bodnant, ei darlledu yn y gwanwyn. Mae yna hefyd gynlluniau ar gyfer cyfres arall lle bydd y dyn tywydd Derek Brockway'n annog gwylwyr i fynd allan am dro yng nghefn gwlad Cymru, gyda gwefan ategol yn rhoi manylion y llwybrau dan sylw. Bydd ail gyfres o'r rhaglen boblogaidd Pembrokeshire Farm yn dilyn Griff Rhys Jones wrth iddo barhau i adfer ei ffermdy.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Two Wales

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 160 awr o raglenni heblaw newyddion

Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr atodiad hwn, bydd BBC Two Wales yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC Two fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two.

Atodiad BBC Two Northern Ireland

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Two Northern Ireland (NI) yn darparu rhaglenni arbenigol sy'n adlewyrchu anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon ac sy'n ategu amrywiaeth ac apêl y rhaglenni rhwydwaith ar BBC Two NI.

Datblygiadau allweddol

Mae BBC Two NI yn cyflawni'i chylch gwaith trwy symud rhaglenni rhwydwaith i wneud lle i raglenni a gynhyrchwyd yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer cynulleidfaoedd Gogledd Iwerddon. Bydd yn parhau i gyfrannu tuag at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC mewn amrywiaeth o ffyrdd fel yr amlinellir yn y drwydded gwasanaeth. Dyma'r datblygiadau allweddol ar gyfer eleni:

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Two NI yn parhau i ddarparu rhaglenni byw a dadansoddi trafodion y Cynulliad yn Stormont Live. Bydd Hearts And Minds yn adlewyrchu ac yn archwilio gwaith gwleidyddion lleol ac effeithiau datblygiadau gwleidyddol ehangach yn Llundain, yn Nulyn ac mewn mannau eraill. Bydd ein rhaglenni o Gynulliad Gogledd Iwerddon hefyd yn elwa ar fuddsoddiadau sy'n gysylltiedig â phrosiect democratiaeth ddigidol y BBC.

2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd y gwasanaeth yn parhau i roi llwyfan i ddoniau comedi lleol, gan gynnwys cyfres deledu wedi'i chymryd o raglen Radio Ulster, Colin Murphy's Great Unanswered Questions.

3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Caiff yr ymrwymiad i ddarpariaeth mewn ieithoedd lleiafrifol brodorol ei gryfhau trwy amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys cyfres newydd o'r ddrama Wyddeleg gyfoes Seacht, a rhaglenni'n edrych ar ddiwylliant a threftadaeth Sgoteg Ulster.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau BBC Two Northern Ireland

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllodiadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 55 awr o raglenni heblaw newyddion

Ymrwymadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymadau a amlinellir yn yr atodiad hwn, bydd BBC Two NI yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC Two fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two.

BBC Three

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC Three yw denu cynulleidfaoedd iau at wasanaeth darlledu cyhoeddus o safon uchel trwy amserlen sy'n cynnwys rhaglenni arloesol o bob math a rheiny'n dangos doniau newydd y DU. Dylai'r sianel ddefnyddio'r holl lwyfannau digidol i ddarparu'i chynnwys a meithrin perthynas ryngweithiol gyda'i chynulleidfa.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC Three yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC yn yr amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Eleni bydd y sianel yn rhoi pwyslais arbennig ar fynd i'r afael â blaenoriaethau'r BBC drwy gefnogi doniau newydd a buddsoddi mewn syniadau mentrus, gwreiddiol a newydd. Er enghraifft, bydd BBC Three yn parhau i gadarnhau ei henw da fel sianel ddigidol fwyaf blaenllaw'r DU o ran doniau comedi newydd gyda chomedi stiwdio newydd o'r grŵp perfformio ifanc, We Are Klang, a chomedi naratif newydd, The Gemma Factor. Bydd BBC Three hefyd yn ehangu ei chefnogaeth i ddrama Brydeinig newydd gyda phwyslais ar ddoniau ifanc y rhaglen PAs.
- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Three yn ceisio arloesi, arbrofi a rhyfeddu gyda'i rhaglenni ffeithiol ar sawl fformat gwahanol wedi'u hanelu at wylwyr ifanc. Young Butcher Of The Year fydd y gyntaf mewn cyfres o gystadlaethau sy'n archwilio i sgiliau technegol a galwedigaethol gweithwyr ifanc Prydeinig, tra y bydd My Life As An Animal yn darparu ffordd wreiddiol i archwilio i fynd natur.
- Fel rhan o'i hymrwymiad i ddoniau creadigol newydd, bydd BBC Three yn parhau i gefnogi cyfarwyddwyr rhaglenni dogfen newydd drwy'r cynllun Fresh.

2 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Three yn parhau i gysylltu â chynulleidfaoedd iau y mae'n fwy anodd eu cyrraedd gan ddefnyddio cyfryngau rhyngweithiol. Bydd y sianel yn adeiladu ar ei llwyddiannau rhyngweithiol diweddar drwy ehangu ei gwasanaeth ar lwyfannau symudol. Bydd BBC Three yn adlewyrchu defnydd ei chynulleidfa o'r cyfryngau drwy gynnig nifer o fentrau aml-lwyfan, megis PAs, sy'n dwyn prosiectau teledu mawr a chynnwys ar-lein ynghyd.
- Bydd BBC Three yn parhau i ehangu ei hymrwymiad i ddoniau newydd i'r maes ar-lein trwy gynnig deunydd o sioeau comedi fel Scallywagga a We Are Klang ochr yn ochr â doniau comedi sy'n newydd i'r BBC mewn adnodd comedi ar-lein newydd.

3 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Mae gan BBC Three gyfraniad pwysig i'w wneud i gefnogi blaenoriaeth y BBC i ymgysylltu'n well â rhannau o'r gynulleidfa sy'n anoddach eu cyrraedd trwy roi sylw i newyddion, materion cyfoes a phynciau llosg sy'n berthnasol iddynt. Bydd y tymor Grown-Up yn cynnwys rhaglenni amrywiol a fydd yn archwilio i'r cwestiwn: ar ba

oedran ddylai unigolyn gael ei drin fel oedolyn? Bydd y tymor yn cynnwys rhaglen ddogfen yn ystyried ar ba oedran y dylai pobl ifanc fod yn gymwys i bleidleisio, yn ogystal â rhaglenni sy'n archwilio i feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau ac oedran cyfrifoldeb i weithio.

- 60 Seconds fydd prif fwletin newyddion teledu'r sianel o hyd, a bydd yn parhau i gynnig bwletin newyddion rhyngwladol pwrpasol bob nos yn ogystal â bwletin rheolaidd sy'n canolbwyntio ar wyddoniaeth a thechnoleg a'r amgylchedd. Bydd y rhaglenni materion cyfoes Born Survivors a Mischief yn dychwelyd ac yn rhoi sylw i faterion cyhoeddus a phersonol pwysig i wylwyr ifanc, gan gynnwys y rhyfel yn Afghanistan a'r fasnach opiwm, troseddau cyllyll, tadau absennol, ansawdd bwyd a'r amgylchedd.

4 Hyrwyddo addysg a dysg

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Three yn parhau i gyfrannu at ddiben y BBC yn y maes hwn drwy archwilio i amrywiaeth o faterion pwysig a diddorol drwy fformatau ffeithiol cymhellgar gyda'r bwriad o gysylltu â chynulleidfaoedd iau. Yn Where Food Comes From, bydd grŵp o bobl ifanc yn darganfod yr amodau creulon a'r gwaith caled y mae'n rhaid i bobl y byd datblygol eu goddef er mwyn cyflenwi bwyd i'r DU. Bydd Stacey Does Child Labour wedi'i hanelu at yr ifanc ac yn archwilio sut y gall plant gael eu gorfodi i weithio. Bydd fformat ffeithiol newydd, Virgin Cooks, yn ceisio ennyn diddordeb pobl ifanc mewn bwyd ffres a choginio gartref.

5 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd BBC Three yn parhau i gyfrannu at ddiben y BBC yn y maes hwn gan sicrhau y cynrychiolir amrywiaeth y DU yn gryf mewn ffordd sy'n cysylltu â chynulleidfaoedd ifanc. Er enghraifft, bydd gwyliau cerdd yn cael eu darlledu o bob cwr o'r DU, o Glastonbury a Radio 1's Big Weekend i T In The Park yn yr Alban. Bydd y rhaglen gomedï lwyddiannus, Scallywagga, sy'n rhoi llwyfan i ddoniau newydd, hefyd yn dychwelyd o Fanceinion, yn ogystal â'r gyfres ddrama/arswyd/comedi Being Human.
- Fel rhan o strategaeth y sianel i adlewyrchu amrywiaeth yn y DU heddiw, bydd dwy raglen yn mynd i'r afael â maes anabledd. Mae Otto's Story yn rhoi sylw i fywyd bachgen yn ei arddegau â Syndrom Down, tra bod I'm Alive Again yn dilyn hanes dyn ifanc yn dechrau ail-adeiladu'i fywyd ar ôl cael ei barlysu. Bydd Gwobrau MOBO (Music Of Black Origin) yn dychwelyd hefyd, gan barhau i roi sylw i bobl dalentog o gefndiroedd amrywiol ar y sgrin.

6 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd BBC Three yn parhau i ddwyn materion a phynciau rhyngwladol i sylw ei chynulleidfifa. Bydd y rhaglen ddogfen Ben Anderson On The Drugs Frontline yn archwilio i'r mater cymhleth o gynhyrchu opiwm yn Afghanistan. Bydd The World's Strictest Parents yn dychwelyd hefyd, gyda phob rhaglen yn archwilio i ddiwylliant gwahanol drwy lygaid dau berson Prydeinig ifanc, a bydd Last Woman Standing yn rhoi cipolwg anthropolegol ar lwythau o bob cwr o'r byd.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau BBC Three

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 35 awr o raglenni cerddoriaeth a chelfyddydau newydd

Hyrwyddo addysg a dysg

- 125 awr o raglenni ffeithiol newydd

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 15 awr o raglenni materion cyfoes newydd

Ymrwymadau statudol

Mae oriau brig yn yr ymrwymadau hyn wedi'u diffinio fel bod rhwng 19:00 a 24:00 o'r gloch.

Cytunir ar y cwtâu canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn bbc.co.uk/annualreport):

- Sicrhau bod o leiaf 70% o'r holl oriau, a 70% o oriau brig, yn gynyrchiadau gwreiddiol.

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC - boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall - yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau BBC Three:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

BBC Four

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC Four yw cynnig rhaglenni amrywiol ar y teledu ar gyfer oedolion o bob oed. Mae'n darlledu detholiad uchelgeisiol o raglenni arloesol o safon uchel sy'n ddeallusol ac yn ddiwylliedig. Dylai ganolbwyntio ar ddarparu rhaglenni ffeithiol a chelfyddydol.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC Four yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd BBC Four yn ymdrechu i wella'r ffordd y cyflawnir y diben hwn drwy ddarnau seiliedig ar syniadau sy'n ehangu dewis y ffilmiau a'r rhaglenni dogfen sydd ar gael ar y teledu ac yn gwneud lle i gymhlethdod, chwilfrydedd deallusol ac awduriaeth, yn enwedig ym maes y celfyddydau a diwylliant.
- **Blaenoriaeth:** Ym maes y celfyddydau, bydd BBC Four yn cydweithio â BBC Two i gynnal mis o raglenni ar farddoniaeth a fydd yn cynnwys astudiaethau o Beowulf a Sir Gawain And The Greene Knight a chyfres chwe rhan ar y tirweddau ym Mhrydain a fu'n ysbrydoliaeth i feirdd. Bydd Andrew Graham-Dixon yn dychwelyd gyda thrydedd rhan ei gyfres, Art Of Europe. Mewn tymor pwysig newydd gan BBC Four ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Albanaidd, bydd Peter Capaldi, a raddiodd yn Ysgol Gelf Glasgow, yn darganfod yr hyn mae portreadau pwysig yr Alban yn ei ddweud am ei wlad. O ran cerddoriaeth, bydd y sianel yn gweithio'n agos gyda'r Proms er mwyn rhoi mwy o gyd-destun trwy ddarlledu rhaglenni dogfen newydd ochr yn ochr â pherfformiadau sydd gyda'r gorau yn y byd. Hefyd dangosir cyfres mewn pedair rhan ar gerddoriaeth a'r diwylliant Latino yn ogystal ag ail ran Sacred Music, tra y bydd Britannia yn parhau trwy roi sylw i gerddoriaeth blues Prydain.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd BBC Four yn parhau i wneud cyfraniad helaeth at ddiben y BBC ym maes meithrin gwybodaeth, gan roi mwy o gyd-destun a dyfnder nag unrhyw un o sianeli eraill y BBC. Bydd yn parhau i ymdrin ag amrywiaeth uchelgeisiol o bynciau ac yn aml yn rhoi lle yn ystod oriau brig i gyflawni'r hyn y mae sianeli prif ffrwd yn ei chael yn anodd ei wneud, megis edrych yn fanwl iawn ar thema unigol. Bydd hefyd yn gweithio'n agosach fyth gyda BBC Two er mwyn i raglenni gwybodaeth y BBC gael mwy fyth o argraff.
- **Blaenoriaeth:** Bydd y sianel yn parhau i gynnig amrywiaeth gref o gyfresi ffeithiol a chelf arbenigol er mwyn cynnig dealltwriaeth well a'i gwneud hi'n haws i wylwyr fynd i'r afael â phynciau cymhleth. Bydd yr Athro Diarmaid MacCulloch, sef Athro ym maes Hanes yr Eglwys yn Rhydychen, yn cyflwyno cyfres chwe rhan, History Of Christianity. Bydd yr Athro Jim Al-Khalili yn egluro mathemateg caos. Nod Cell, sef cyfres newydd mewn tair rhan, yw efelychu ym maes bioleg, lwyddiant y gyfres Atom a enillodd

wobrau am ei hymdriniaeth o faes ffiseg. Bydd Dr Adam Rutherford yn olrhain y ffordd y mae ein dealltwriaeth o'r elfen sylfaenol hon o fyd natur wedi tyfu. Bydd tymor o raglenni dogfen dros dair wythnos, The Old, yn archwilio i brofiad yr henoed ym Mhrydain heddiw. Bydd cyfle i gynulleidfaoedd ddarganfod yr hyn a ddigwyddodd pan aeth y newyddiadurwr Paul Morley i'r Coleg Cerdd Brenhinol i ddysgu theori cerdd, nodiant sgorau a sut i arwain cerddorfa. Bydd BBC Four hefyd yn dathlu gwerth dysgu yn The OU Changed My Life, sy'n rhoi sylw i'r sefydliad hwn sy'n annwyl gan lawer, er y caiff ei watwar yn aml.

3 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Four yn gwneud cyfraniad sylweddol at flaenoriaethau diben y BBC yn y maes hwn, trwy ehangu profiad cynulleidfaoedd o wahanol ddiwylliannau o bob cwr o'r byd. Bydd yn parhau i ddarlledu'r goreuon o blith ffilmiau hir a rhaglenni dogfen rhyngwladol ac mewn ieithoedd tramor, gan gynnwys Storyville, yn ogystal â newyddion rhyngwladol. Yn dilyn y cyfresi ar ysgolion yn Affrica, India a Tsieina, bydd y tîm yn teithio i Damascus i ffilmio profiadau mewn dwy ysgol yn Syria. Bydd y BBC Four World Cinema Awards yn parhau i adolygu blwyddyn o sinema'r byd ac o eleni ymlaen bydd yn cyflwyno gwobr cyfraniad oes. Yn Magic Train bydd y gwneuthurwr ffilmiau, Gerry Troyna, yn dychwelyd i reilffyrdd India i archwilio i ysbty symudol unigryw. Mewn cyfres dair rhan, Feasts, bydd Stefan Gates yn cymryd rhan mewn gwyliau dathliadol crefyddol a thraddodiadol o bob cwr o'r byd.

4 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Four yn adeiladu ar lwyddiant tymhorau diweddar pryd y llwyddodd i gyfoethogi ei chynnwys teledu trwy roi cynnwys dyfnach ac ehangach ar-lein. Bydd yn rhoi sylw arbennig i ddeunydd o'r archif. Bydd BBC Four, fel sawl sianel arall, yn annog gwylwyr i rannu eu barn ar y pynciau a drafodir ar yr awyr drwy gynnig ffyrdd newydd o gyfrannu at wefannau'r rhaglenni.
- Bydd BBC Four yn cysylltu ei hadnoddau ar-lein â phynciau allweddol, er mwyn ategu a chysylltu â rhaglenni sy'n cynyddu gwybodaeth pobl. Bydd cyfresi fel The Art Of Europe yn cael eu hategu gan ddull newydd o ddarparu ar gyfer y celfyddydau ar-lein, tra y bydd Chaos and Cell a rhaglenni BBC Two fel Solar System yn cyfrannu at ymrwymiad cynyddol i raglenni gwyddonol.

5 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd BBC Four yn parhau i wneud cyfraniad arbennig at gyflawni'r diben hwn ym maes y celfyddydau a diwylliant trwy roi sylw i berfformwyr a pherfformiadau o bob gwlad a rhanbarth yn y DU. Bydd traethawd tair rhan Jonathan Meades ar ddiwylliant a phensaerniaeth yn binacl tymor tri mis sy'n trafod yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Albanaidd. Dangosir rhaglenni ar bwysigrwydd Calfiniaeth i feddylfryd pobl yr Alban ac ar hanes traddodiad milwrol yr Alban. Bydd y gyfres bedair rhan The Story Of Agriculture yn cyfuno cynnwys o'r archif a hanes llafar er mwyn olrhain newidiadau pwysig yn y broses o gynhyrchu bwyd yn ystod y ganrif ddiwethaf. Bydd The Celts yn archwilio i Oesoedd Tywyll Prydain. Ym maes cerddoriaeth, bydd BBC Singer Of The World a'r Gystadleuaeth Biano Ryngwladol yn Leeds yn dychwelyd er mwyn rhoi sylw i'r doniau cerddorol gorau o bob cwr o'r DU a thramor.

6 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd BBC Four yn parhau i gyfrannu at y diben hwn trwy ei rhaglenni dogfen yn bennaf yn ogystal â'i rhaglen World News Today sy'n cynnig safbwynt rhyngwladol a dadansoddol unigryw. Bydd yn ymdrechu i gynnal ei swyddogaeth nodedig gyda

chyfres a fydd yn adlewyrchu amrywiaeth eang o brofiadau bywyd yn y DU. Bydd cyfres o raglenni dogfen yn ystyried sut mae olew Môr y Gogledd, awyrennau a thechnoleg gyfrifiadurol wedi newid ein bywydau. Bydd cyfresi hanes llafar yn ymchwilio i ddiwylliant gemau'r iard chwarae a phwysigrwydd cofio ac anrhydeddu'r bobl a fu farw mewn rhyfel. Bydd Shooting The War yn defnyddio archifau ffilm teuluoedd i ddangos profiadau pobl ym Mhrydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd, o lygad y ffynnon.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Four

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys dangosiadau cyntaf o raglenni gwreiddiol a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 100 awr o raglenni celfyddydau a cherddoriaeth newydd

Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- 20 dangosiad cyntaf o ffilmiau rhyngwladol newydd (wedi'i ddiffinio fel y dangosiad cyntaf yn y DU ar sianel deledu ddigidol)

Hyrwyddo addysg a dysg

- 110 awr o raglenni ffeithiol newydd

Ymrwymiadau statudol

Mae oriau brig yn yr ymrwymiadau hyn wedi'u diffinio fel bod rhwng 19:00 a 24:00 o'r gloch.

Cytunir ar y cwotâu canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn bbc.co.uk/annualreport):

- Sicrhau bod o leiaf 70% o'r holl oriau, a 50% o oriau brig, yn gynyrchiadau gwreiddiol.

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC - boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall - yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau BBC Four:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel. (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys. (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys. (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

CBBC

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith CBBC yw darparu amrywiaeth eang o raglenni nodedig o safon uchel ar gyfer plant 6-12 oed, gan gynnwys drama, adloniant, comedi, rhaglenni wedi'u hanimeiddio, newyddion a rhaglenni ffeithiol. Dylai'r rhan fwyaf o'r rhaglenni fod wedi'u cynhyrchu yn y DU.

Dylai CBBC ddarparu amgylchedd ysgogol, creadigol a phleserus sydd hefyd yn ddiogel ac y gellir ymddiried ynddo. Dylai'r gwasanaeth ganolbwyntio'n arbennig ar ddysgu anffurfiol, gyda phwyslais ar annog cyfranogiad.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd CBBC yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd CBBC yn ceisio gwella'r ffordd y mae'n cyflawni'r diben hwn i blant trwy gynnig cymysgedd o raglenni, gan gynnwys adroddiadau newyddion a rhaglenni ffeithiol newydd sy'n rhoi sylw i gyfranogiad cymdeithasol a dinasyddiaeth. Bydd rhaglenni sefydledig fel Newsround a Blue Peter yn parhau i fod yn rhan annatod o ddull CBBC o gyflawni'r diben. Cânt eu hategu gan y rhaglenni llwyddiannus Newsround Specials, a enillodd glod adolygwyr, a rhaglen beilot Newsround, Tourist From Mars - sy'n canolbwyntio ar straeon newyddion o safbwynt estronwr sydd newydd gyrraedd ar y Ddaear.
- Bydd y gyfres Serious, sydd wedi ennill lluo o wobrau, yn dychwelyd gyda thaith antur gyffrous newydd. Yn Serious Explorer, bydd wyth o blant o bob cwr o'r DU yn profi her a mwynhad gweithio mewn tîm wrth iddynt ddilyn taith Marco Polo ar hyd ffordd enwog y Llwybr Sidan. Mae drama newydd, Roy, yn dilyn hanes bachgen wedi'i animeiddio sy'n byw yn y byd go iawn, ac yn ystyried themâu sy'n gysylltiedig â bod yn wahanol a cheisio cael eich derbyn. Ym maes adloniant, rhaid i gystadleuwyr y rhaglen Keep Your Enemies Close ddysgu gweithio gyda'u cystadleuwyr er mwyn aros yn y gêm.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- **Blaenoriaeth:** Bydd CBBC yn parhau i gyfrannu at gyflawni'r diben hwn drwy annog ei chynulleidfa i ddysgu'n anffurfiol mewn sawl maes amrywiol. Bydd Horrible Histories yn defnyddio comedi i gyflwyno digwyddiadau a chymeriadau hanesyddol o Brydain a'r byd i gyd i blant. Yn Deadly 60 bydd cynulleidfa oedd yn mynd ar daith i chwe chyfandir er mwyn gweld arferion a chynefinoedd creaduriaid mwyaf peryglus y byd. Bydd sawl rhaglen yn dychwelyd, gan gynnwys Gastronomics, sy'n annog plant i feithrin diddordeb mewn bwyd trwy gyflwyno anturiaethau coginio gwylt iddynt, a Me And My Movie, sef rhaglen unigryw gan CBBC a BAFTA lle rhoddir cyfle i blant wneud eu ffilmiau eu hunain.

- **Blaenoriaeth:** Bydd CBBC yn parhau i ddefnyddio llwyfannau rhyngweithiol i ennyn diddordeb plant mewn dysgu. Mae Gamebuilder yn adnodd newydd gan CBBC sy'n rhoi cyfle i blant greu, chwarae a graddio eu gemau bach eu hunain gan ddefnyddio cynnwys CBBC. Bydd canolbwynt cymunedol cryf i hyn, a rhoddir y gallu i blant ddatblygu eu cynnwys eu hunain gyda'u cyfoedion mewn lle diogel tra'n hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau a sgiliau datrys problemau.

3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Mae gan CBBC gyfraniad unigryw i'w wneud i'r BBC wrth gyflawni'r diben hwn gan mai hi yw'r unig sianel sy'n buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni a gynhyrchir yn y DU ar gyfer cynulleidfa 6-12 oed. Nod y sianel yw parhau i wneud y cyfraniad hwn a rhoi hwb i enw da'r BBC am raglenni creadigol ac arloesol drwy gynnig arlwy amrywiol. Mae gan ddrama a chomedi ran arbennig o bwysig ac eleni bydd y sianel yn darlledu drama newydd arloesol a hynod drawiadol yr olwg, Roy, sy'n cynnwys cymysgedd o animeiddio a'r byd go iawn. Mae rhaglenni comedi newydd yn cynnwys Ooglies, sef sioe sgetsys gyffrous sy'n dod â gwrthrychau pob dydd yn fyw, a Big Babies, sy'n rhoi llwyfan i ysgrifenywyr a pherfformwyr newydd.
- Bydd CBBC yn parhau i gomisiynu a datblygu prosiectau arloesol sy'n annog y gynulleidfa i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol o bob math. Mae Jump Nation/Skate Nation yn sioe adloniant newydd gyffrous sy'n dysgu plant i sglefrolio ac yn ennyn brwdfrydedd y gwylwyr dros weithgarwch corfforol.

4 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Mae CBBC yn frand aml-lwyfan sy'n ceisio gwella'i phresenoldeb ar-lein a'i henw da am arloesi drwy roi cyfle i gynulleidfa oedd ddefnyddio a rhyngweithio gyda'r cynnwys yn uniongyrchol ar y we. Bydd ei chynnwys aml-lwyfan allweddol yn cynnwys Tronji, sy'n sioe deledu, gwefan a gêm y gall sawl person ei chwarae ar-lein gan gymysgu lluniau byw a phlant go iawn mewn amgylchedd wedi'i animeiddio. Yn Bamzooki Street Wars, gall plant greu eu 'zook' eu hunain ar-lein, er mwyn profi eu sgiliau creadigol ac ennill cyfle i gystadlu yn y sioe deledu.
- Nod CBBC yw cyflwyno plant fel modelau rôl cadarnhaol i blant eraill. Bydd yn nod allweddol o hyd i ddarparu lle diogel a chreadigol i blant, a thrwy hynny adeiladu llythrennedd y cyfryngau. Bydd MyCBBC yn parhau i fod yn lle diogel i blant greu cynnwys a'i rannu gyda'u ffrindiau. Bydd y wefan arloesol Bugbears yn darparu amgylchedd diogel i fentora cyfoedion, a bydd yr iPlayer i blant yn cynnig amgylchedd diogel lle y gall plant gael gafael ar gynnwys unrhyw bryd.
- Mae CBBC yn ceisio annog ei chynulleidfa i ddysgu mwy am y byd ehangach a chymryd rhan ynddo yn ddiogel. Eleni bydd gwefan Newsround yn cael ei hail-lansio er mwyn cyflwyno'r agenda newyddion mewn ffyrdd sy'n fwy rhyngweithiol a grymus i'r grŵp oedran hwn. Caiff Newsround a Blue Peter eu cefnogi'n barhaus gan ddeunydd y botwm coch er mwyn cysylltu â'r gynulleidfa ehangaf posibl.
- Er mwyn cyrraedd mwy o bobl, bydd CBBC yn dechrau arbrofi trwy ddarlledu rhai o'i rhaglenni gyntaf ar-lein ar gyfer rhai o'i rhaglenni.

5 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd CBBC yn ceisio cyfrannu at y flaenoriaeth hon trwy roi llais i gymunedau gwahanol y DU, meithrin ymdeimlad o berthyn a hyrwyddo dealltwriaeth o amrywiaeth ymhlith ei chynulleidfa. Bydd y comedi sefyllfa newydd, Planet Ajay, yn rhoi blas o Bollywood i'r sianel. Bydd y cymeriad hynod boblogaidd, Tracey Beaker, yn dychwelyd

yn Beaker's Back. Caiff plant swnllyd eu herio i fod yn gwbl ddistaw yn School of Silence.

- Bydd BBC Scotland yn gwneud cyfraniad mawr at y sianel. Bydd Ed And Ocho yn dychwelyd am ail gyfres, ac mae Wait For It...! yn gêm newydd gyffrous a gynhyrchir yn yr Alban. Yn yr Alban hefyd y gwneir Copycats a'r sioe antur Raven. Caiff cynnwys allweddol ei gynhyrchu yng Ngogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys y cyfresi Beat the Boss a Prank Patrol.

6 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Mae gan CBBC gyfraniad pwysig i'w wneud yn y maes hwn, yn enwedig er mwyn dod â'r byd i sylw'r DU a chyflwyno pynciau a materion rhyngwladol i'w chynulleidfa ifanc. Eleni bydd drama flaenllaw newydd, Bo And The Spirit World, yn dwyn ysbrydoliaeth o chwedlau hynafol o Tsieina a bydd Shaolin yn bwrw golwg ar fywydau ac arferion mynachod Bwdhaidd. Bydd Newsround a Blue Peter yn parhau i roi sylw rheolaidd i newyddion a phynciau o dramor.
- Caiff byd natur a'i breswylwyr eu cyflwyno i wylwyr yn Natural Born Hunter, sy'n dangos ysglyfaethwyr o bedwar ban byd. Bydd Serious Explorers a Safari Eight, sy'n dysgu plant i fod yn geidwaid saffari, hefyd yn rhoi blas rhyngwladol i'r sianel ac yn archwilio i'r themâu o waith tîm mewn amgylcheddau newydd.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau CBBC

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 665 awr o raglenni drama

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 85 awr o raglenni newyddion

Hyrwyddo addysg a dysg

- 550 awr o raglenni ffeithiol

(Sylwer ar yr amodau o ran oriau ar gyfer rhaglenni plant ar BBC One a BBC Two yn eu Datganiadau o Bolisi Rhaglenni eu hunain)

Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y cwotâu canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn bbc.co.uk/annualreport):

- Sicrhau bod o leiaf 70% o'r oriau yn gynyrchiadau gwreiddiol.

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC - boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall - yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau CBBC:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

CBeebies

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith CBeebies yw cynnig rhaglenni o safon uchel sydd wedi'u cynhyrchu yn y DU gan mwyaf i addysgu a difyrru cynulleidfa ieuengaf y BBC. Dylai'r gwasanaeth ddarparu amrywiaeth o raglenni sydd â'r nod o annog plant dan chwech oed i ddysgu trwy chwarae a hynny mewn amgylchedd diogel.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd CBeebies yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Mae gan CBeebies gyfraniad pwysig i'w wneud i'r BBC er mwyn cyflawni'r diben hwn, fel bron yr unig fuddsoddwr mewn rhaglenni gwreiddiol i gynulleidfa o blant o dan chwech oed yn y DU. Rhoddir pwyslais ar gomisiynu rhaglenni nodedig o safon uchel ac ar weithio gydag amrywiaeth o ddoniau creadigol i adfywio'r sianel a denu gwylwyr newydd iddi. Eleni mae'r rhaglenni creadigol ac arloesol yn cynnwys I Can Cook, a fydd yn ysgogi creadigrwydd a chwilfrydedd y plant. Unwaith eto caiff plant cyn oed ysgol eu hysbrydoli gan Mister Maker a Get Squiggling, wrth i'r sioeau hynod lwyddiannus hyn ddychwelyd i'r sianel.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- **Blaenoriaeth:** Mae gwerthoedd dysgu yn parhau i fod yn rhan allweddol o gylch gwaith CBeebies. Mae'r rhan fwyaf o gynnwys CBeebies yn cael ei lywio gan Gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a Nodau Dysgu Cynnar y DU, a chaiff ei ddatblygu a'i gynhyrchu gyda chymorth arbenigwyr cyn oedran ysgol. Bydd cymeriadau poblogaidd yn dychwelyd ar sawl ffurf - bydd Guess With Jess yn apelio at wylwyr iau CBeebies, tra bod Nina yn edrych ar sut caiff pethau eu gwneud yn Nina And The Neurons Go Inventing. Mae'r animeiddiad newydd, Garth And Bev, yn cyflwyno amser a theithio i'r gynulleidfa CBeebies. Mae'r gyfres Something Special ar gyfer plant ag anawsterau dysgu, sydd wedi ennill sawl gwobr yn dychwelyd, gan ddefnyddio symbolau, arwyddion, odlau a chaneuon er mwyn helpu i annog y plant i gyfathrebu a datblygu iaith.

3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Mae'r ymdeimlad o berthyn yn bwysig i blant, yn enwedig rhai ifanc iawn. Bydd CBeebies yn parhau i ddarparu rhaglenni amrywiol sy'n portreadu rhanbarthau a chymunedau gwahanol. Mae The Green Balloon Club yn parhau i ddarparu'r rhaglen amgylcheddol wythnosol o bob cwr o'r DU, gan ddysgu'r gynulleidfa i ofalu am ei gwlad a'i chymuned. Mae Let's Celebrate yn cyflwyno gwyliau a ddethlir gan deuluoedd a chymunedau ledled y DU i blant cyn oed ysgol.

4 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd CBeebies yn cadw at yr egwyddor o brynu neu gomisiynu cynnwys gorau'r byd i blant ifanc, fel Tinga Tinga Tales, sef cyfres drawiadol yr olwg sydd wedi'i seilio ar chwedlau gwerin Affrica am sut y daeth anifeiliaid i fodolaeth. Adroddir straeon traddodiadol i blant o bedwar ban byd yn Telly Tales, sy'n cynnwys cymysgedd hudol o waith celf y plant a lluniau byw.

5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd CBeebies yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at flaenoriaethau'r BBC o ran cyflawni'r diben hwn, gan ddefnyddio llwyfannau rhyngweithiol i annog plant ifanc i ymgysylltu'n gryfach â chynnwys CBeebies. CBeebies yw un o wefannau mwyaf poblogaidd y BBC o hyd, a bydd yn parhau i ddarparu cynnwys gwreiddiol, gemau a chyfleoedd creadigol ychwanegol er mwyn i blant iau allu rhyngweithio a chysylltu â'u hoff gymeriadau a rhaglenni. Bydd prosiect aml-lwyfan newydd, mawr ym maes llythrennedd o'r enw Alphabox yn cyflwyno animeiddiadau byr a straeon rhyngweithiol i blant, gan eu helpu i adeiladu eu byd ar-lein diogel eu hunain. Mae Waybuloo yn frand uchelgeisiol, newydd ar Cbeebies sy'n ymdrin ag emosiynau ac yn ymestyn y ffyrdd y mae plant cyn oed ysgol yn darganfod cynnwys a llywio trwyddo. Mae hefyd yn datblygu sgiliau echddygol y plant a llythrennedd y cyfryngau.
- Bydd y wefan yn parhau i fod yn llwyfan i gyrraedd gwrandawyr radio trwy ffrydio a phodledu rhaglenni CBeebies Radio, a bydd yn parhau i fod yn ddull i gefnogi rhieni a gofalwyr trwy eu galluogi i archwilio a dysgu mwy am ddatblygiad plant a dysgu cynnar.
- Eleni caiff fersiwn bwrpasol o ryngwyneb yr iPlayer ei datblygu, fel y bydd rhaglenni ar alw ar gael mewn ffordd sy'n briodol i blant iau. Er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd fyth i'r gynulleidfa hon gael gafael ar gynnwys, bydd y sianel yn arbrofi trwy ddarparu rhai o raglenni CBeebies ar-lein yn gyntaf.
- Caiff cynnwys botwm coch CBeebies ei ailwampio i'w gwneud yn haws i rieni a'u plant gael gafael ar gynnwys CBeebies. Bydd hefyd yn cyflwyno gemau dysgu newydd i gynulleidfa oedd na allant fynd ar y wefan o bosibl.

Amodau

Dim amodau penodol.

(Sylwer ar yr amodau o ran oriau ar gyfer rhaglenni plant ar BBC One a BBC Two yn eu Datganiadau o Bolisi Rhaglenni eu hunain)

Ymrwymadau statudol

Cytunir ar y cwotâu canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn bbc.co.uk/annualreport):

- Sicrhau bod o leiaf 80% o'r oriau i fod yn gynyrchiadau gwreiddiol.

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC - boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall - yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau CBeebies:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

BBC HD

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith y sianel BBC HD yw cynnig amrywiaeth o raglenni mewn fformat Manylder Uwch, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn rhaglenni gwreiddiol sianeli eraill y BBC.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Gan mai dim ond ychydig iawn o'i rhaglenni ei hun y mae BBC HD yn eu comisiynu, mae ei chyfrifoldeb dros gyfrannu at hybu'r rhan fwyaf o ddibenion cyhoeddus y BBC yn ymwneud yn bennaf â sicrhau bod rhaglenni teledu'r BBC yn parhau i apelio ac i fod yn berthnasol wrth i ddisgwyliadau'r gwylwyr o fanylder uwch (HD) barhau i dyfu. Mae'n bwriadu cyflwyno holl gynnwys sianeli eraill y BBC mewn HD er mwyn sicrhau na fydd gallu cyffredinol y BBC i gyflawni'i dibenion cyhoeddus yn y fantol wrth i bobl newid i wyllo cynnwys a sianeli mewn manylder uwch.

Datblygiadau allweddol

1 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Mae cyfraniad penodol BBC HD i gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC yn ymwneud â hyrwyddo teledu digidol, yn arbennig hyrwyddo ac annog pobl i wyllo teledu manylder uwch ar bob llwyfan y mae modd cael gafael arno.
- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC HD yn parhau i arddangos cynnwys gorau'r BBC a wneir mewn HD, ac yn gweithio i ehangu ystod y cynnwys ymhellach. Byddwn yn blaenoriaethu'r rhaglenni mwyaf poblogaidd gyda'r cynulleidfaoedd ar sianeli eraill y BBC, ac yn datblygu'r cynnwys ar gyfer yr holl fathau amrywiol o raglenni. Mae'r rhaglenni y rhoddir blaenoriaeth i'w dangos ar HD yn cynnwys y ddrama Doctor Who, y comedi Outnumbered a'r rhaglenni ffeithiol Coast, Countryfile ac Autumnwatch, yn ogystal â'r rhaglen adloniant Dragons' Den. Bydd y rhaglenni yn ystod y dydd a rhaglenni chwaraeon yn cynnwys Pencampwriaeth Athletau'r Byd, y Gynghrair Bêl-droed a Flog it!
- Mae BBC HD yn ystyried holl raglenni newydd y BBC yn ofalus er mwyn asesu pa rai fyddai'n elwa fwyaf ar gael eu gwneud mewn HD a pha rai allai ehangu amrywiaeth cynnwys BBC HD er mwyn denu cynulleidfaoedd newydd. Bydd BBC HD yn ceisio cynnwys comedi a drama gyda The Fall And Rise Of Reginald Perrin, Emma a Small Island. Bydd yna gyfle i gynulleidfaoedd iau fwynhau Just William a Waybuloo. Ceir cyfresi blaenllaw newydd ar BBC One a BBC Two, gan gynnwys Rivers, How The Earth Made Us, The Great Rift, South Pacific a Seven Ages Of British Culture.
- Bydd cyfresi materion cyfoes myfyrgar sy'n cynrychioli'r Brydain fodern yn cael eu dangos ar BBC HD, fel The History Of The British Family. Fel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bydd BBC HD yn rhoi sylw i Proms y BBC, Electric Proms y BBC, sesiynau cerddoriaeth y BBC gydol y flwyddyn a digwyddiadau chwaraeon allweddol y DU, gan gynnwys Wimbledon a Rygbi'r Chwe Gwlad.
- Bydd BBC HD yn parhau i weithio gyda llwyfannau newydd a rhai sy'n datblygu er mwyn sicrhau bod rhaglenni HD y BBC ar gael i'r cynulleidfaoedd ehangaf bosibl. Yn ogystal â hyn, bydd rhaglenni HD ar gael ar alw, wedi'u ffrydio neu i'w lawrlwytho drwy'r iPlayer, a bydd y BBC yn archwilio i'r syniad o gynnig BBC HD ar-lein trwy ei ffrydio'n fyw.

2 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Yn ogystal â chynnwys peth deunydd rhyngwladol ar gyfer pob math o raglen, bydd BBC HD yn gweithio gyda sianeli rhyngwladol y BBC wrth iddi barhau i lansio sianeli BBC HD ledled y byd. Bydd BBC HD hefyd yn ceisio rhoi llwyfan i raglenni rhyngwladol amrywiol y mae'r BBC wedi'u prynu ac sy'n cael eu gwneud mewn HD, fel Heroes, Mad Men, Damages a The Tudors.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymïadau BBC HD

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymïad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Sicrhau bod llai nag 20% o'r cynnwys yn ddarllediadau cyntaf o raglenni chwaraeon a ffilmiau hir wedi'u prynu
(ac eithrio digwyddiadau chwaraeon pwysig)

Radio

BBC Radio 1

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith Radio 1 yw diddanu a difyrru amrywiaeth eang o wrandawyr ifanc gyda chymysgedd nodedig o gerddoriaeth gyfoes a sgwrs. Dylai adlewyrchu bywydau a diddordebau pobl 15-29 oed, ond hefyd groesawu eraill sy'n rhannu diddordebau tebyg.

Dylai gynnig amrywiaeth o gerddoriaeth newydd, cefnogi artistiaid newydd – yn enwedig rhai o'r DU – a rhoi llwyfan i gerddoriaeth fyw. Dylai newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori drin a thrafod meysydd sy'n berthnasol i oedolion ifanc.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd Radio 1 yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Gan adeiladu ar lwyddiant Scottcam yn 2008, mae nifer o fentrau gweledol a rhyngweithiol blaengar pellach wrthi'n cael eu harchwilio ar gyfer 2009/2010, gan gynnwys amrywiaeth well o flogiau a chynllun ar gyfer 'diwrnod agored' rhithwir i annog cynulleidfaoedd i ddarganfod rhagor am y ffordd y caiff yr orsaf ei rhedeg.
- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn parhau i ddatblygu'r brand BBC Switch er mwyn sicrhau bod Radio 1 yn parhau i apelio at y genhedlaeth nesaf o wrandawyr ifanc. Mae yna gynllun ar y gweill i gynnal taith i glybiau dan 18 oed yn ystod yr haf, ac mae ail ddigwyddiad byw Switch Live wedi'i drefnu ar gyfer yr hydref.
- Mae cyfres o ddigwyddiadau wrthi'n cael ei chynllunio ar gyfer chwarter cyntaf 2010 sy'n ategu ymrwymiad yr orsaf i ddarganfod a datblygu cerddoriaeth newydd, gan gynnwys taith BBC Introducing... o amgylch y DU a phenwythnos yn rhoi sylw i raglenni arbenigol gorau Radio 1.
- Bydd darllediadau o gyngherddau byw dau o fandiau mwyaf poblogaidd y DU, sef Coldplay a Take That, yn cymryd eu lle ochr yn ochr â darllediadau o ddigwyddiadau llai sy'n fwy arbenigol eu hapêl, er enghraifft y Warehouse Project ym Manceinion ac Eurosonic yn yr Iseldiroedd.

2 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd Newsbeat dyddiol Radio 1 yn parhau i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd ifanc. Bydd yn esbonio materion allweddol ac yn cynnig cyfle i bobl ddweud eu dweud. Mae iselder ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau, cyfraddau llog, y wasgfa gredyd ac ailddosbarthiad canabis yn rhai o'r pynciau sy'n denu adborth sylweddol gan y gynulleidfa ar hyn o bryd.

- Bydd trafodaethau a rhifynnau ar bynciau arbennig yn cael eu cynnwys yn rhaglen gyngor Radio 1, The Surgery. Mae'n cynnwys themâu amserol sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth - er enghraifft materion amgylcheddol.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- **Blaenoriaeth:** Cynhelir cyfres o ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol amlwg yn ystod y rhaglenni dydd ar y cyd â 1Xtra a BBC Switch. Mae cyffuriau, gwirfoddoli a bwlio ymhlith rhai o'r pynciau dan sylw yn 2009/2010. Caiff yr ymgyrchoedd hyn eu hyrwyddo ym mhob rhan o'r amserlen.
- Bydd rhaglenni dogfen yn archwilio i faterion sy'n effeithio ar fywydau'r gwrandawyr, ac yn rhoi sylw i bynciau cerddorol amrywiol. Er enghraifft, bydd The Beat Of Life yn ceisio ateb y cwestiwn: pam ydym ni'n hoffi cerddoriaeth?

4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bwriedir adolygu amseriad ac amrywiaeth sioeau pwrpasol Radio 1 ar gyfer gwledydd y DU, er mwyn gwella'u proffil a'r argraff a wnânt. Bydd calendr digwyddiadau byw'r rhwydwaith yn sicrhau ei fod yn cynrychioli cerddoriaeth fyw a nosweithiau mewn clybiau ledled y DU, gan gynnwys nifer o sioeau'r Essential Mix Introducing Tour gydol y flwyddyn sydd â'r nod o ddarganfod troellwyr talentog newydd.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd cyfres arall o raglenni dogfen rhyngwladol ar Radio 1 yn ystod yr hydref yn rhoi sylw i brofiadau nifer o droellwyr arbenigol allweddol Radio 1 wrth iddynt archwilio i gerddoriaeth a ffordd o fyw ym mannau eraill o'r byd. Mae'r sioeau hyn yn cynnwys taith i'r wyl unigryw, Burning Man, yn niffeithdir y Black Rock yn Nevada, yr UDA. Bwriedir ymweld ag Iran hefyd.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd tîm rhyngweithiol Radio 1 a 1Xtra, sydd wedi cael ei gyfuno yn ddiweddar, yn canolbwyntio ar nifer o brosiectau creadigol allweddol yn ystod y flwyddyn, gan ategu ddiwyddiadau cerddoriaeth fyw ac ymgyrchoedd mawr, yn ogystal â gweithio i wella lefel y cynnwys gweledol sydd ar gael i ddefnyddwyr.
- Bydd rhai rhaglenni'n cael eu syndicetio a'u ffrydio ar wefannau trydydd parti, gan helpu i sicrhau y gall sioeau arbenigol, yn enwedig, gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
- Bydd Radio 1 yn archwilio i'r posibilrwydd o gynig profiad ar-lein sy'n fwy personol, er enghraifft trwy ganiatáu i ddefnyddwyr ryngweithio gyda'r orsaf neu wneud sylw ar rai meysydd a phynciau penodol.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau Radio 1

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 60 awr o gerddoriaeth arbenigol yr wythnos
(Ystyr cerddoriaeth arbenigol yw cerddoriaeth sy'n apelio at grwpiau penodol o wrandawyr, gan ganolbwyntio ar fath penodol o gerddoriaeth neu gerddoriaeth o ystod o fathau sy'n torri tir newydd.)
- 40% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU
(Caiff y dydd ei ddiffinio fel bod rhwng 06.00 a 19.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08.00 a 14.00 o'r gloch ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.)
- 45% o gerddoriaeth yn ystod y dydd i fod yn newydd
(naill ai heb ei rhyddhau neu lai na mis ers ei rhyddhau - rhyddhau'n ffisegol, nid rhyddhau i'w lawrlwytho)

- tua 25 darllediad o wyliau a digwyddiadau byw yn y DU
- 250 o sesiynau newydd
(ac eithrio ailddarllediadau)
- Cyfrannu at ymrwymiad Radio'r BBC i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o ddarledu gan gynhyrchwyr annibynnol

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 1 awr o newyddion yn ystod y dydd, pob diwrnod o'r wythnos, gan gynnwys dau fwletin estynedig
(gyda hyblygrwydd ar gyfer gwyliau a newidiadau achlysurol i amserlenni dan amgylchiadau arbennig)
- Bwletinau rheolaidd yn ystod y dydd dros y penwythnos

Hyrwyddo addysg a dysg

- 40 o raglenni dogfen newydd

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 200 awr o raglenni gwreiddiol o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

BBC Radio 2

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith Radio 2 yw darparu gwasanaethau nodedig sy'n cynnig cymysgedd o gerddoriaeth a sgwrs. Mae'n targedu cynulleidfa eang a'i nod yw apelio at bob grŵp oed dros 35 oed.

Dylai gynnig rhaglenni cerddoriaeth boblogaidd difyr a chynnwys llafar gan gynnwys newyddion, materion cyfoes, rhaglenni dogfen, crefydd, y celfyddydau, comedi, darlenniadau a deunydd gweithredu cymdeithasol.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd Radio 2 yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 2 yn dathlu caneuon poblogaidd Prydain a chyflwyno safbwyntiau newydd arnynt drwy ddatblygu ymhellach ei menter Great British Songbook a fydd yn comisiynu artistiaid o bedwar ban byd i berfformio caneuon enwog gan gyfansoddwyr gorau Prydain. Trwy wneud hyn byddant yn creu casgliad arbryn o recordiadau er mwyn dathlu'u gwaith. Bydd yr artistiaid yn rhoi sylwebaeth am eu dewisiadau gan nodi sut mae'r caneuon wedi dylanwadu ar eu gwaith eu hunain. Bydd y cynnwys cael sylw mewn rhaglenni gwahanol, gan gynnwys sioeau arbennig Gŵyl y Banc, ac yn helaeth ar-lein.
- Bydd Radio 2 yn parhau i ddatblygu doniau newydd ac archwilio fformatau newydd. Bydd cyfres gan y seren newydd, Wilson Dixie, yn cael ei chomisiynu a darlledir sioe beilot o'r enw Two Episodes Of Mash, a fydd yn rhoi sylw i berfformwyr newydd. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal sioe banel newydd, I'm Spartacus. Bydd doniau newydd yn cael sylw ochr yn ochr â chlasuron comedi Prydain drwy ddarlledu proffiliau am Stanley Baxter, Dick Emery a Benny Hill.

2 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd rhaglenni sy'n nodi 20 mlynedd ers cwmp Wal Berlin yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni'r diben hwn fel y nodir o dan ddiben 5 isod.
- Bydd Radio 2 yn comisiynu rhaglen ddogfen ddwy ran sy'n nodi 30 mlynedd ers i Margaret Thatcher gael ei phenodi'n Brif Weinidog Prydain. Bydd y rhaglen yn ystyried effaith ei gwaith ar gerddoriaeth a diwylliant poblogaidd.
- Ar 29 Mehefin nodir 40 mlynedd ers y terfysg yn sgil cyrch yr heddlu yn y Stonewall Inn yn Efrog Newydd. Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, bydd Radio 2 yn dychwelyd i'r Stonewall Inn i ystyried y terfysg unwaith eto ac archwilio i effaith yr wythnos hanesyddol hon o aflonyddwch a oedd yn sbardun ar gyfer y mudiad rhyngwladol dros hawliau hoywon.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 2 rhoi sylw arbennig i gerddoriaeth jazz yn ystod flwyddyn sydd i ddod. Darlledir rhaglenni dogfen yn dathlu 70 mlynedd ers sefydlu'r label eiconig Blue Note Records, a bywyd Billie Holiday. Mae rhaglenni arbennig eraill wedi'u cynllunio i ddathlu Benny Goodman, Nat King Cole a Miles Davies o 1969 ymlaen wedi iddo droi at offerynnau trydan.
- Bwriedir cynnal cyfres yn ystod yr haf sy'n archwilio i ddylanwad Harlem, ac yn yr hydref bydd noson arbennig o raglenni dogfen yn nodi 50 mlynedd ers agor clwb enwog Ronnie Scott.
- Caiff rhaglen ddogfen newydd ei chomisiynu sy'n rhoi sylw i'r ffordd y gall cerddoriaeth effeithio ar yr emosiynau, o hwiangerddi i blant sy'n eu hannog i ddatblygu sgiliau lleferydd, i'r ffordd y mae cerddoriaeth roc yn gallu mynegi gwewyr pobl yn eu harddegau. Bydd y rhaglen hon yn edrych ar rythm er mwyn egluro sut y mae'r ymennydd yn dehongli mathau o gerddoriaeth, ac yn ymchwilio i sut y gall pobl fyddar werthfawrogi cerddoriaeth.
- Bydd Radio 2 yn cyflwyno dull hygyrch o ddeall gwreiddiau'r argyfwng ariannol byd eang sydd ohoni trwy raglen ddogfen yn adrodd hanes chwalfa 1929. Darlledir hon ym mis Hydref, 80 mlynedd ers y chwalfa.

4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Yn dilyn llwyddiant y rhaglen Radio Ballads, bydd y gyfres yn dychwelyd gan fynd i'r afael â materion cymdeithasol pwysig a'u harwyddocâd diwylliannol. Bydd baled newydd a gafodd ei hysbrydoli gan streic glowyr yr 1980au yn cyfeirio at gyfweiliadau gyda'r cymunedau a gafodd eu heffeithio ac yn cynnwys cerddoriaeth wedi'i hysgrifennu a'i pherfformio gan Jon Tams
- Mewn rhaglen ddogfen bydd Radio 2 yn archwilio i rôl unigryw Gogledd Lloegr yn esblygiad y gân bop. Bydd y rhaglen yn cyfuno dadansoddiadau a sylwadau ar gerddoriaeth gyda hiwmor dychanol.
- Bydd yr orsaf yn darparu rhaglenni sy'n archwilio i gerddoriaeth a diwylliant gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen ddogfen sy'n rhoi sylw i yrfa Tom Jones. Caiff y rhaglen ei seilio ar gyfweiliad estynedig gyda'r comedïwr Rob Brydon, sydd hefyd yn Gymro ac sy'n dynwared Tom Jones o bryd i'w gilydd.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Mae Radio 2 yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau cydlynol er mwyn datblygu dealltwriaeth y cynulleidfaoedd o arwyddocâd gwleidyddol a diwylliannol cwmp Wal Berlin, 20 mlynedd ers y digwyddiad pwysig hwn. Bydd cyfres o raglenni dogfen yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau 1989, tra caiff yr arwyddocâd gwleidyddol ehangach ei archwilio mewn rhifyn arbennig o The Jeremy Vine Show. Bywyd diwylliannol Berlin a'i ddylanwad fydd testun sawl rhaglen gerddoriaeth arbenigol a chynnwys ar-lein.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd prif elfennau gwefan Radio 2 ar ei newydd wedd yn ymddangos yn ystod y flwyddyn. Bydd y cynnig ar-lein diwygiedig yn cynnwys deunydd, dyluniad a swyddogaethau newydd. Caiff y cynnwys ei drefnu fesul maes: cerddoriaeth, cerddoriaeth fyw, digwyddiadau, comedi a rhaglenni dogfen. Mae tudalennau'r sioeau wedi'u hailwampio'n llwyr a byddant yn cynnwys tudalen ar wahân ar gyfer pob pennod o bob rhaglen, dull haws o lywio ar y rhestri llorweddol a dolenni uniongyrchol i gynnwys yr iPlayer. Ar yr hafan newydd gwelir paneli arbennig ar gyfer y deunydd a argymhellir

a'r deunydd mwyaf poblogaidd ar yr iPlayer, ac am y tro cyntaf bydd yna banel ar gyfer y cyflwynwyr. Mae modd i'r gwrandawyr addasu hwn er mwyn cadw dolenni i'w hoff gyflwynwyr.

- Bydd yr orsaf yn hyrwyddo'r orsaf ddigidol, BBC 6 Music, yn enwedig trwy raglenni ar y cyd sy'n amlygu ffocws cerddorol 6 Music.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau Radio 2

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 40% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU
(Caiff y dydd ei ddiffinio fel bod rhwng 06.00 a 19.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08.00 a 14.00 o'r gloch ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.)
- 20% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd yn newydd
(naill ai heb ei rhyddhau neu lai na mis ers ei rhyddhau - rhyddhau'n ffisegol, nid rhyddhau i'w lawrlwytho)
- 260 awr o gerddoriaeth fyw
- >1,100 awr o raglenni cerddoriaeth arbenigol
- >100 awr o raglenni am y celfyddydau
- Cyfrannu at ymrwymiad Radio'r BBC i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o ddarlledu gan gynhyrchwyr annibynnol

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 16 awr yr wythnos o raglenni newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys bwletinau newyddion rheolaidd
(gyda hyblygrwydd ar gyfer gwyliau a newidiadau achlysurol i amserlenni dan amgylchiadau arbennig)

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 170 awr o raglenni crefyddol yn ymdrin ag ystod eang o gredoau

BBC Radio 3

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith Radio 3 yw cynnig cymysgedd o raglenni ym maes cerddoriaeth a diwylliant er mwyn difyrru a diddanu ei chynulleidfa. Cerddoriaeth glasurol yw prif arlwy'r orsaf ac fe'i hategir gan raglenni llafar a ddylai hysbysu ac addysgu'r gynulleidfa am gerddoriaeth a diwylliant. Dylai jazz, cerddoriaeth y byd, drama, y celfyddydau a syniadau, a rhaglenni crefyddol gael sylw yn yr amserlen.

Dylai'r gwasanaeth apelio at wrandawyr o bob oed sydd am ehangu eu gorwelion diwylliannol trwy ymgysylltu â byd cerddoriaeth a'r celfyddydau.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd Radio 3 yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 3 yn creu rhaglenni arbennig i ddathlu ac archwilio i waith Purcell, Handel, Haydn a Mendelssohn yn fanwl. Bydd yn dathlu pen-blwydd pwysig i bob un ohonynt yn 2009.
- Bydd yr orsaf yn nodi 2009 fel blwyddyn arbennig i gerddoriaeth Brydeinig, gan ei bod hi 75 mlynedd ers marwolaeth Delius, Holst ac Elgar ac ers genedigaeth Harrison Birtwistle a Syr Peter Maxwell Davies.
- Bydd Cerddorfa Symffoni'r BBC yn parhau i ddatblygu ei phortreadau o gyfansoddwyr cyfoes gan gynnwys Crumb, Henze a Rihm yn gynnar yn 2010.
- Mae Radio 3 wrthi'n meithrin cysylltiadau agosach gyda sefydliadau perfformio allweddol er mwyn cyfoethogi'r hyn y mae'n ei gynnig i'w gwrandawyr.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd Radio 3 yn parhau i gynorthwyo artistiaid newydd trwy'r cynllun New Generation Artists, a gafodd ei greu 10 mlynedd yn ôl ac sydd bellach wedi'i ehangu i gynnwys dau gerddor arall.
- Bydd yr orsaf hefyd yn parhau i ddatblygu'r fenter Discovering Music i ddarparu deunydd i fyfyrwyr ysgol yn ogystal â'r gynulleidfa ehangach, i'w helpu i ddod i ddeall cerddoriaeth glasurol.
- Yn dilyn y cynllun peilot y llynedd, bydd Proms Plus yn cael ei sefydlu fel rhan o Proms y BBC. Bydd yn cynnwys deunydd ar gyfer pob cyngerdd ac yn cynnig profiad cyfoethocach i'r gwrandawyr.

3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd Radio 3 yn adeiladu ar sylfaen gref y llynedd o ran sicrhau cyfraniad y gynulleidfa, gan ddatblygu gwaith allgymorth â cherddorion amatur ac ehangu'r cynllun Play To The Nation.
- Bydd yr orsaf yn parhau i asesu rhaglenni am wyliau cerddoriaeth ledled y DU er mwyn sicrhau y darlledir y cynnwys o leoliadau daearyddol mor amrywiol â phosibl.

4 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 3 yn rhoi sylw i bynciau rhyngwladol yn ei rhaglenni llafar, yn enwedig Night Waves a Music Matters. Rhoddir pwyslais arbennig eleni ar ystyried y ffordd y mae'r byd wedi newid yn sgil cwmpw Wal Berlin 20 mlynedd yn ôl.
- Bydd yr orsaf yn cryfhau'r modd y mae'n cynrychioli cerddorion a digwyddiadau y tu allan i'r DU, yn unol â'r posibiliadau ehangach a gynigir drwy Undeb Darlledu Ewrop, gan gynnwys dathliadau arbennig o waith Haydn a Handel.
- Ar y llaw arall, bydd Radio 3 hefyd yn cyflwyno bywyd cerddorol y DU yn fwy clir i'r byd ehangach. Bydd yn canolbwyntio ar gynnyg cynnwys ehangach o'r Proms i ddarlledwyr o Ewrop drwy Undeb Darlledu Ewrop.

5 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 3 yn ceisio ymgysylltu mwy â'i chynulleidfa a'i hannog i gyfrannu mwy yn y rhaglenni sy'n ymwneud â syniadau, drwy fynd allan o'r stiwdio. Bydd yn trefnu'r pedwerydd digwyddiad Free Thinking yn Gateshead, ac yn annog y cyhoedd i ryngweithio gyda meddylwyr nodedig o feysydd amrywiol.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Caiff dathliadau Purcell, Handel, Haydn a Mendelssohn eu hadlewyrch gyda chynnwys ar-lein pwrpasol ar wefan Radio 3, gyda'r nod o roi profiad mwy cyfoethog o'u cerddoriaeth i gynulleidfa oedd.
- Bydd Radio 3 yn ymgymryd â mentrau i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â chynulleidfa oedd trwy'r Proms, gan ddatblygu prosiectau newydd er mwyn ategu'r arlwy sain gyda chynnwys gweledol a nodiadau ar-lein am y rhaglenni.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau Radio 3

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 50% o gerddoriaeth yn fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig
- 500 darllediad o gerddoriaeth fyw neu berfformiadau wedi'u recordio'n arbennig
- Comisiynu 30 o weithiau cerddorol newydd (ac eithrio ailddarllediadau a rhaglenni a brynir)
- Darlledu 35 o gynrychiadau drama newydd (ac eithrio ailddarllediadau a rhaglenni a brynir)
- Cyfrannu at ymrwymiad Radio'r BBC i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o ddarlledu gan gynhyrchwyr annibynnol

Hyrwyddo addysg a dysg

- Darlledu 30 o raglenni dogfen newydd ar y celfyddydau a phynciau diwylliannol (ac eithrio ailddarllediadau a rhaglenni a brynir)

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 40% o wariant perthnasol y tu hwnt i'r M25 (Mae hyn yn cynnwys gwariant ar raglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf a dyraniad Radio 3 o gymhorthdal canolog y cerddorfeydd ond nid yw'n cynnwys gwariant ar raglenni newyddion neu chwaraeon.)

BBC Radio 4

Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth llafar cymysg sy'n cynnig newyddion a materion cyfoes treiddgar ac amrywiaeth eang o ddeunydd llafar arall gan gynnwys drama, darlenniadau, comedi a rhaglenni ffeithiol a chylchgrawn yw Radio 4.

Dylai'r gwasanaeth apelio at wrandawyr sydd eisiau rhaglenni deallusol o bob math sy'n hysbysu, addysgu a diddanu.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd Radio 4 yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd Radio 4 yn rhoi sylw manwl i faterion cysylltiedig ag etholiadau Ewrop yn ystod haf 2009 a'r paratodau ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol nesaf, ac yn dadansoddi cefndir y materion hynny.
- Bydd yr orsaf yn parhau i ddadansoddi ac adrodd ar y dirywiad economaidd byd-eang, gan roi sylw i ddatblygiadau yn y DU a ledled y byd, mewn sawl math o raglen, er mwyn sicrhau y mynegir effaith y dirwasgiad ar bobl.

2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 4 yn ceisio cael yr effaith fwyaf a'r gwerth gorau am arian o safbwynt drama drwy gomisiynu cyfresi hirdymor, gan gynnwys dramateiddio'r holl nofelau Smiley gan John le Carré a'r holl nofelau Tom Ripley gan Patricia Highsmith.
- Bydd yr orsaf yn hybu arloesedd ym maes comedi drwy ddefnyddio dulliau unigryw mewn fformatau traddodiadol, gan gynnwys peilot o sioe gomedi byrfyfyr a sioeau panel eraill.
- Bydd Radio 4 yn annog y gynulleidfa i gyfrannu mwy at weithgareddau diwylliannol e.e. trwy Neglected Classics yn Open Book, lle bydd awduron blaenllaw'n dadlau dros eu hoff glasuron angof a'r gynulleidfa'n dewis un i'w ddramateiddio yn The Classic Serial.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 4 yn darlledu cyfresi ffeithiol pwysig ac arloesol fel ei chyfres 90 rhan, America - Empire Of Liberty ac A History Of The World In 100 Objects, mewn partneriaeth â'r Amgueddfa Brydeinig (a fydd yn cynnwys agwedd ryngweithiol helaeth). Disgwylir i'r gyfres hon fod yn fan cychwyn ar gyfer mentrau cysylltiedig y BBC a fydd yn trafod hanes drwy eitemau o gasgliadau amgueddfeydd.
- Bydd yr orsaf yn nodi trichanmlwyddiant genedigaeth Samuel Johnson gyda rhaglenni ffeithiol a drama yn dathlu ei fywyd a'i fraethineb, a bydd yn darlledu cyfres ar awduron pwysigaf llenyddiaeth America'r 20fed Ganrif.

4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i ymgysylltu ymhellach gyda'n cynulleidfaoedd ledled y DU.
- Bydd Radio 4 yn parhau i gomisiynu cyfran arwyddocaol o'i rhaglenni o ranbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU, gan gynnwys Writing The Century, sef cyfres 20 rhan a gynhrychir ym Manceinion ar gyfer Woman's Hour Drama.
- Bydd Radio 4 yn parhau i roi sylw i ddigwyddiadau diwylliannol ledled y DU gan gynnwys Gŵyl Caeredin, a fydd yn cyflwyno comedi, adloniant a thrafodaethau i'r gynulleidfa.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 4 yn dathlu 20 mlynedd ers cwmp Wal Berlin gyda chyfres o raglenni dyddiol dros gyfnod o dri mis a fydd yn ail-greu digwyddiadau 1989, yn ogystal â thrafodaethau a rhaglenni dogfen a fydd yn dadansoddi ôl-ffeithiau'r flwyddyn chwyldroadol honno.
- Bydd yr Athro Michael Sandel, athronydd gwleidyddol o Harvard, yn traddodi'r Reith Lectures, gan archwilio'r thema The Common Good. Cânt eu recordio mewn lleoliadau amrywiol yn y DU ac yn Washington DC. Cânt eu darlledu ar y BBC World Service hefyd.
- Bydd A History Of The World In 100 Objects yn cael ei gysylltu â chyfres ar y World Service sy'n rhoi sylw i gasgliadau pwysig mewn amgueddfeydd ledled y byd.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd gwefan Radio 4 yn cael ei hail-lansio, fel y bydd hi'n haws chwilio a chydgrynhoi cynnwys. Bydd ystod y podlediadau yn cael ei ehangu.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo Radio 7 ar yr awyr a thrwy amserlenni sy'n cyd-fynd â'i gilydd, gan gynyddu ymwybyddiaeth mai hi yw'r orsaf ddigidol flaenllaw ar gyfer rhaglenni llafar difyr.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau Radio 4

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 2,500 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 600 awr o ddarlleniadau a dramâu gwreiddiol (ac eithrio ailddarllediadau)
- 180 awr o gomedi gwreiddiol (ac eithrio ailddarllediadau)
- Cyfrannu at ymrwymiad Radio'r BBC i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o ddarlledu gan gynhyrchwyr annibynnol

Hyrwyddo addysg a dysg

- 200 awr o raglenni dogfen gwreiddiol (ac eithrio ailddarllediadau)

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 200 awr o raglenni crefyddol gwreiddiol
(ac eithrio ailddarllediadau)

BBC Radio 5 Live

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith Radio 5 Live yw darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd. Dylai geisio cyflwyno straeon newyddion a digwyddiadau chwaraeon pwysig wrth iddynt ddigwydd a rhoi cyd-destun trwy gyfrwng dadansoddi a thrafod helaeth.

Nod y rhaglenni ddylai fod i hysbysu, difyrru a chynnwys y gynulleidfa. Dylai'r gwasanaeth apelio at ddilynwyr newyddion a chwaraeon o bob oed ac o bob cefndir ethnig a phob cwr o'r DU.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC Radio 5 Live yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd Radio 5 Live yn adrodd ar ddatblygiadau gwleidyddol yn San Steffan a ledled y DU mewn ffordd hygyrch a dengar yn ystod y paratodau ar gyfer yr etholiad nesaf.
- Bydd yr orsaf yn datblygu gwell dealltwriaeth o wybodaeth y gynulleidfa am economi'r byd a'r DU er mwyn pennu ffyrdd newydd a chreadigol o esbonio'r pwnc ac adrodd arno.

2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd Radio 5 Live yn archwilio i ffyrdd eraill o ddod â digrifwch i raglenni'r orsaf, gan gynnwys comisiynu sioe gomedi amserol yn seiliedig ar y newyddion. Bydd rhaglenni newyddion hefyd yn rhoi mwy o gyfle i'r gynulleidfa gymryd rhan mewn creu cynnwys.
- Bydd yr orsaf yn darlledu mwy o newyddion ac adolygiadau cerddoriaeth yn ystod y dydd.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd Radio 5 Live yn hyrwyddo mwy ac yn rhoi mwy o sylw i dechnoleg a gwyddoniaeth ar y rhwydwaith, gan gynnwys hyrwyddo'n well ei rhaglenni gwyddoniaeth sy'n cymryd galwadau ffôn y cyhoedd a'i phodlediadau gwyddoniaeth.

4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 5 Live yn cynhyrchu rhaglenni newyddion nodedig ac o safon o bob rhan o'r DU drwy ddarparu darllediadau ac adroddiadau allanol o sawl lleoliad gwahanol a thrwy ddatblygu rhagor o ffyrdd o gynyddu cyfranogiad y gynulleidfa.
- Bydd y gwasanaeth yn archwilio i straeon newyddion sy'n gysylltiedig â moeseg a chrefydd mewn ffordd sy'n cynnwys cwestiynau a phrofiadau'r gwrandawyr.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd Radio 5 Live yn datblygu ffyrdd o gynyddu cyfranogiad y gynulleidfa a chynyddu trafodaethau ar themâu rhyngwladol allweddol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a'r economi fyd-eang.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 5 Live yn parhau i annog pobl i wrando ar gyfryngau digidol ac i ddatblygu'i chyfleuster ar alw.
- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 5 Live yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r rhaglen ar-lein Football Player, gan ganolbwyntio ar roi cyfle i wrandawyr iau archwilio a chryfhau'u diddordeb mewn pêl-droed.
- **Blaenoriaeth:** Caiff cynnwys chwaraeon arloesol aml-lwyfan ei ddatblygu ar sail digwyddiadau chwaraeon allweddol 2009/2010 gan gynnwys Wimbledon a Gemau Olympaidd y Gaeaf. Bydd rhagor o gynnwys chwaraeon ar gael drwy'r botwm coch, ar ffonau symudol ac ar-lein.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau Radio 5 Live

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- tua 75% o'r hyn a ddarlledir i fod yn rhaglenni newyddion

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Cyfrannu at ymrwymiad Radio'r BBC i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o ddarlledu gan gynhyrchwyr annibynnol

Radio 5 Live Sports Extra

Cylch gwaith y gwasanaeth

Estyniad rhan-amser i Radio 5 Live yw 5 Live Sports Extra a'i chylch gwaith yw cynnig mwy o ddewis o chwaraeon byw i ddilynwyr chwaraeon. Dylai'r gwasanaeth gynnig mwy o werth am arian i'r sawl sy'n talu ffi'r drwydded gan ddefnyddio'r hawliau chwaraeon sydd eisoes ym meddiant y BBC i gynnig darllediadau gwahanol i'r rhai a ddarperir gan wasanaethau eraill y BBC ar gyfer y DU gyfan.

Dylai holl raglenni BBC 5 Live Sports Extra fod yn rhaglenni chwaraeon byw.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd Radio 5 Live Sports Extra yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd 5 Live Sports Extra yn cael ei datblygu a'i hyrwyddo ymhellach fel yr orsaf ar gyfer pob math o griced, gyda chyfres y Lludw yn uchelbwynt i hynny.
- Bydd 5 Live Sports Extra yn rhoi sylw manwl i'r prawf cyntaf erioed yng nghyfres y Lludw i gael ei chwarae yng Nghymru, yn ogystal â'r sylwebaeth fesul pêl. Bydd hyn yn cynnwys cyfraniadau gan westeion arbennig a gohebyddion 'y rhaff derfyn' a fydd yn cyfleu'r naws ymhlith y dorf gydol y gêm.

2 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd yr orsaf yn gweithio gyda Radio 5 Live i ategu ymdriniaeth arloesol a nodedig o'r prif ddigwyddiadau chwaraeon, er enghraifft Pencampwriaeth Athletau'r Byd ym mis Awst.

3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd yr orsaf yn gweithio gyda Radio 5 Live i ddatblygu doniau newydd ym maes darlledu a chynhyrchu chwaraeon yn y DU.

4 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd 5 Live Sports Extra yn cael ei hyrwyddo yn fwy, gan wella ymwybyddiaeth o'r orsaf a cheisio denu rhagor o wrandawyr.
- Bydd 5 Live Sports Extra yn denu mwy o wrandawyr i gyfryngau digidol drwy ddarparu rhaglenni nodedig o safon sydd ond i'w clywed ar radio digidol, gan gynnwys darlledu fesul pêl ar gyfer pob twrnamaint criced cenedlaethol a rhyngwladol a phob gêm derfynol (os bydd yr hawliau'n caniatáu), sylwebaeth ar gyfer sesiynau ymarfer Grand Prix Formula 1, sylwebaeth rygbi arloesol, a sylw ychwanegol i gemau'r Gynghrair Bêl-droed.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau 5 Live Sports Extra

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Cyfrannu at ymrwymiad Radio'r BBC i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o ddarlledu gan gynhyrchwyr annibynnol

BBC 1Xtra

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith 1Xtra yw chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau, gyda phwyslais cryf ar gerddoriaeth fyw ac ar gefnogi artistiaid newydd o'r DU. Dylai 1Xtra hefyd gynnig gwasanaeth newyddion arbennig, rhaglenni trafod rheolaidd a rhaglenni dogfen wedi'u comisiynu'n arbennig sy'n berthnasol i'r gynulleidfa ifanc a dargedir (pobl ifanc 15-24 oed), yn arbennig i rai o leiafrifoedd ethnig, ond nid i'r rhain yn unig.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd 1Xtra yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu prosiect unigryw ar yr awyr ar gyfer yr hydref, lle bydd criw o bobl ifanc yn 'cymryd yr awenau'. Bydd 1Xtra yn gwahodd nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i gyfrannu'n helaeth at yr orsaf a'i rhaglenni a rhannu'u safbwyntiau am ddiwylliant du a threfol modern y DU.
- Caiff amserlen cerddoriaeth arbenigol 1Xtra ei mireinio gyda'r nod o'i gwneud hi'n haws ei defnyddio, tra'n sicrhau ei bod yn parhau i gynnig ystod dihafal o raglenni nodedig ar gyfer y mathau gwahanol o gerddoriaeth.
- Bydd cerddoriaeth a digwyddiadau byw yn amrywio o sesiynau arbennig MistaJam i sioeau blaenllaw mawr fel 1Xtra Presents. Bwriedir cynnal yr ail ŵyl 1Xtra Live yn ystod yr hydref, sef gŵyl gerddoriaeth ddu'r rhwydwaith, os llwyddir i sicrhau'r artistiaid priodol.

2 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Caiff fformat a chwmpas rhaglenni newyddion 1Xtra eu harchwilio unwaith y bydd Ymddiriedolaeth y BBC wedi cynnal ei Hadolygiad o'r Cynnwys a Gwasanaethau i Gynulleidfaoedd Iau, gyda golwg ar sicrhau eu bod yn creu mwy o argraff.
- Bydd rhaglenni dogfen wythnosol yn rhoi sylw i bynciau amrywiol, gan gynnwys cerddoriaeth, ffordd o fyw a phynciau amserol eraill sydd o bwys i'r gynulleidfa.

3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Mae ymrwymiad i weithio i ganfod, a helpu i ddatblygu, cenhedlaeth nesaf y DU o ddoniau cerddorol du wrth wraidd gwaith yr orsaf a phwysleisir hyn mewn menter arbennig ym mis Mehefin, sef 1Xtra Loves Homegrown.

4 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Rhoddir sylw i gyfres o ddigwyddiadau cerddoriaeth ddu allweddol o fewn y calendr cerddoriaeth rhyngwladol, gan gynnwys gwyliau reggae mwyaf Ewrop, Summerjam yn yr Almaen a digwyddiad hip-hop mwyaf yr UDA, Rock The Bells.

5 Hyrwyddo addysg a dysg

- **Blaenoriaeth:** Bydd cyfres o ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol amlwg yn cael eu cynnal yn ystod rhaglenni'r dydd ochr yn ochr â Radio 1 a BBC Switch. Mae cyffuriau, gwirfoddoli a bwlio yn rhai o'r pynciau dan sylw yn 2009/2010.
- Ym mis Hydref, bydd yr orsaf yn dathlu Black History Month gyda chyfres o raglenni dogfen a rhaglenni eraill a fydd yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau cerddorol neu wleidyddol hanesyddol allweddol.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd tîm rhyngweithiol 1Xtra a Radio 1, sydd newydd gael ei gyfuno, yn canolbwyntio ar nifer o brosiectau creadigol allweddol yn ystod y flwyddyn, gan ategu digwyddiadau cerddoriaeth fyw ac ymgyrchoedd mawr, yn ogystal â gweithio i sicrhau bod mwy o gynnwys gweledol ar gael i ddefnyddwyr.
- Bydd rhai rhaglenni penodol yn cael eu syndicetio a'u ffrydio ar wefannau trydydd parti, gan helpu i sicrhau y gall sioeau arbenigol yn enwedig gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
- Bydd 1Xtra yn archwilio i'r posibilrwydd o gynnig profiad ar-lein sy'n fwy personol - er enghraifft trwy ganiatáu i'r defnyddwyr ryngweithio gyda'r orsaf neu wneud sylw ar feysydd a phynciau arbennig.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau BBC 1Xtra

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 60% o gerddoriaeth yn ystod y dydd i fod yn gerddoriaeth newydd (naill ai heb ei rhyddhau neu lai na mis ers ei rhyddhau - rhyddhau'n ffisegol, nid rhyddhau i'w lawrlwytho) (Caiff y dydd ei ddiffinio fel bod rhwng 06.00 a 19.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08.00 a 14.00 o'r gloch ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.)
- 35% o gerddoriaeth yn ystod y dydd i fod yn gerddoriaeth o'r DU
- 50 o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw
- Cyfrannu at ymrwymiad Radio'r BBC i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o ddarlledu gan gynhyrchwyr annibynnol

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- tua 20% o raglenni yr wythnos i fod yn rhaglenni llafar (gyda hyblygrwydd ar gyfer gwyliau a newidiadau achlysurol i amserlenni dan amgylchiadau arbennig)
- tua 10% o'r rhaglenni'r wythnos yn canolbwyntio ar newyddion, rhaglenni dogfen a rhaglenni gweithredu cymdeithasol (gyda hyblygrwydd ar gyfer gwyliau a newidiadau achlysurol i amserlenni dan amgylchiadau arbennig)

BBC 6 Music

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith 6 Music yw diddanu'r rheini sydd wrth eu bodd â cherddoriaeth boblogaidd, gan gynnig cerddoriaeth o'r 1960au hyd y presennol. Mae ei rhaglenni yn cyfuno recordiau newydd o'r tu allan i'r brif ffrwd gyda recordiau cynharach, gan gynnwys cerddoriaeth o Archif Sain y BBC. Dylai ddarparu cyd-destun i'r gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae, a chefnogi cerddoriaeth fyw ac artistiaid newydd.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd 6 Music yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd 6 Music yn cynnal ac ehangu ei hymroddiad i artistiaid newydd Prydain, drwy'r ddwy sioe *Introducing...* y mae Tom Robinson yn eu cyflwyno. Mae'r rhain yn parhau i ddarganfod, arddangos a chynnig llwyfannau perfformio byw i ddoniau newydd y DU, yn ogystal â chynnig cyfle arbennig i lawrlwytho gwerth albwm o gerddoriaeth artistiaid heb contract recordio.
- Bydd 6 Music yn cynnig cyfres o ddarllediadau cerddoriaeth arbennig, gan gynnwys dathlu cyfraniad labeli recordio indie yn Independence Day a hyrwyddo'r prosiect *Sound Of 2009*.
- Bydd yr orsaf yn ehangu ei hymrwymiad i gerddoriaeth fyw gan roi sylw ehangach i ddigwyddiadau fel *Gŵyl Glastonbury*, a thrwy ymrwymiad newydd i ddigwyddiadau sy'n datblygu, fel y *Camden Crawl*.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd 6 Music yn datblygu ar y cychwyn da a wnaed i'r gwaith o ailwampio'r gweithgarwch cymdeithasol er mwyn canolbwyntio ar *Transitions*, sydd wedi'i gynllunio i helpu cynulleidfaoedd i wella'u dealltwriaeth o ddigwyddiadau sy'n newid bywydau. Mae'r cynlluniau eleni'n cynnwys ystyried materion sy'n gysylltiedig â bod yn rhiant fel rhan annatod o raglenni'r orsaf ar wyliau cerddoriaeth yr haf.

3 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd 6 Music yn parhau i ddatblygu darpariaeth newyddion cerddoriaeth yr orsaf. Caiff y broses o gasglu newyddion ei gwella drwy feithrin cysylltiadau newydd gyda gwledydd y DU a chyda rhanbarthau Lloegr. Bydd yr orsaf hefyd yn ystyried addasu arddull a darpariaeth y cynnwys i gyd-fynd ag anghenion y gynulleidfa ar wahanol adegau o'r diwrnod.

4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd 6 Music yn ehangu brand yr Hub fel ei fod yn cynrychioli cerddoriaeth newydd y wlad yn fwy cyflawn. Bydd yn ymrwmo i gynnal hyd at bedair sesiwn gerddoriaeth fyw

bob wythnos o Fanceinion, fel rhan o sioe Marc Riley ar ddyddiau'r wythnos. Bydd rhai o raglenni gwyliau'r banc yn ategu hyn drwy ddarlledu o Ogledd-orllewin Lloegr. Caiff cymunedau nad ydynt yn rhai daearyddol eu cynrychioli mewn cyfres arbennig sy'n rhoi sylw i berthynas poblogaeth sy'n heneiddio gyda cherddoriaeth.

5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd yr orsaf yn gweithio'n agos gyda Radio 2 i sicrhau bod yr amserlenni'n cyd-fynd â'i gilydd a bod y rhaglenni cyffredin yn cael eu hyrwyddo, gan roi cyfle i'r gynulleidfa fanteisio ar DAB a dulliau gwrando digidol eraill.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau BBC 6 Music

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 50% o gerddoriaeth i fod yn hŷn na phedair oed
- 400 awr o gyngherddau o'r archif
- 15% o gerddoriaeth i fod yn ganeuon cyngherddau a sesiynau o archif y BBC
- 275 o sesiynau newydd
(ac eithrio ailddarllediadau a rhaglenni a brynir)
- Cyfrannu at ymrwymiad Radio'r BBC i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o ddarlledu gan gynhyrchwyr annibynnol

Hyrwyddo addysg a dysg

- 10 awr yr wythnos o raglenni llafar – yn rhaglenni nodwedd, dogfen a thraethodau

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 6 awr o newyddion yr wythnos

BBC Radio 7

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith Radio 7 yw darparu adloniant llafar. Dylai ei hamserlen gynnwys rhaglenni comedi, dramâu, straeon, rhaglenni nodwedd a rhaglenni i blant. Dylai'r rhan fwyaf o'r rhaglenni ddod o archif y BBC, ond dylai'r orsaf gomisiynu rhywfaint o ddeunydd gwreiddiol, yn enwedig deunydd nad yw ar gael ar Radio'r BBC fel arfer.

Dylai'r orsaf hefyd fod yn gartref i radio llafar y BBC i blant.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd Radio 7 yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 7 yn trefnu tymhorau i ddathlu bywydau awduron ac artistiaid sydd wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol at radio'r BBC a diwylliant y DU, gan gynnwys:
 - Tymor John Mortimer: wedi'i gyflwyno gan ei fab, Jeremy Mortimer, gyda chyfres o ddarlenniadau hunangofiannol ac addasiadau radio (gan gynnwys Rumpole Of The Bailey) i gyd-fynd â theyrnged Radio 4.
 - Dathlu pen-blwydd Alan Bennett yn 75 oed: tymor o addasiadau, darlenniadau a monologau gan Bennett, gan gynnwys Talking Heads, gyda chyflwyniad ac ambell i hanesyn gan Alan Bennett.
- Bydd yr orsaf yn trefnu mis Banned Books, a fydd yn cynnwys darlenniadau ac addasiadau o nofelau a gafodd eu gwahardd neu'u sensro yn y gorffennol gan lywodraethau ac awdurdodau am resymau amrywiol. Bydd rhaglenni o'r Archif yn cynnwys Madame Bovary, Lady Chatterley's Lover, Animal Farm a Brave New World.
- Bydd Radio 7 yn dathlu pen-blwydd The Navy Lark yn 50 oed, sef un o sioeau comedi radio mwyaf hirhoedlog y BBC, drwy gynnal sioe Navy Lark arbennig a gyflwynir gan Leslie Phillips, yn ogystal â chyfweliadau gydag aelodau'r cast sy'n dal yn fyw.
- Bydd Radio 7 yn ehangu'r ystod creadigol o raglenni drwy gomisiynu gwaith gan gynhyrchwyr annibynnol, ar gyfer darlenniadau ffuglen wyddonol a throsedd a chyffro yn benodol.
- Bydd yr orsaf yn parhau i chwilio am ffyrdd arloesol i'r gynulleidfa ymgysylltu â rhaglenni Radio 7 drwy annog y gwrandawyr i awgrymu rhaglenni o'r archif a thrwy ddatblygu ymhellach y prosiect drama rhyngweithiol, Chain Gang, ar yr awyr ac ar y we.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd Big Toe Books yn parhau i annog plant i fagu hoffter o ddarllen drwy gynnwys y llenyddiaeth orau i blant ar yr amserlen a thrwy roi cyfle i blant wrando ar lyfrau y byddant yn eu mwynhau ond nad ydynt yn barod i'w darllen drostynt eu hunain o bosibl.

- Bydd Radio 7 yn darlledu dwy sioe newydd ar gyfer CBeebies Radio. Bydd Rokit's Pocket Science yn cyflwyno safbwynt unigryw a chiplogw ar y wyddoniaeth ymarferol sy'n sail i fyd hudol a chyffrous plant ifanc, tra y bydd Madam Maestro's Music Box yn cyflwyno offerynnau cerddorol a'r hyn y gallant ei wneud, cyn cyflwyno darnau enwog o gerddoriaeth glasurol i wrandawyr ifanc er mwyn dangos y pŵer sydd gan gerddoriaeth i adrodd straeon.
- Yn unol ag argymhellion Ymddiriedolaeth y BBC yn yr Adolygiad o Wasanaethau Plant, bydd Gweithrediaeth y BBC yn cyflwyno asesiad i'r Ymddiriedolaeth yng ngwanwyn 2009 o'r galw am gynnwys clywedol i blant gan roi ystyriaeth i ble a phryd y dylid darparu'r cynnwys hwnnw, er mwyn cael y nifer fwyaf posibl o wrandawyr yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio 7 yn trefnu'i rhaglenni yn seiliedig ar ddigwyddiadau allweddol er mwyn cael yr effaith fwyaf. Er enghraifft, mae 2009 yn flwyddyn 'Homecoming' yn yr Alban, sef menter sy'n dathlu etifeddiaeth ddiwylliannol gref yr Alban. Gydol mis Gorffennaf bydd yr orsaf yn darlledu tymor o ddramâu ac eitemau cysylltiedig â'r Alban, gan gynnwys Odyssey, sef cyfres hanes Radio Scotland sy'n adrodd stori nifer o bobl a ymfudodd i'r Alban; Exiles, lle mae pobl nad ydynt yn byw yn yr Alban mwyach yn siarad am eu hunaniaeth a hiraeth am eu gwlad; a thymor o addasiadau o nofelau John Buchan.
- Bydd yr orsaf yn darlledu History Of Ireland dros y DU gyfan, sef cyfres sefydledig a gynhrychir yn Belfast ac a gafodd ei darlledu'n wreiddiol yng Ngogledd Iwerddon yn unig.
- Bydd Radio 7 yn rhoi sylw i Wyl Gomedï Caerlŷr, gan recordio'r sioe ragolwg a chyfweld y comedïwyr i'w darlledu yn y sioe hwyr, Comedy Club.
- Black History Month: caiff rhaglenni sy'n cynrychioli hunaniaeth ddiwylliannol amrywiol y DU eu darlledu, gan gynnwys ailddarllediad o Small Island, sef drama radio sy'n nodi dyfodiad llong yr Empire Windrush.

4 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd Radio 7 yn parhau i ddarlledu cynnwys a chynnig cynnwys ar alw sy'n annog pobl i wrando ar radio digidol. Yn fwy na dim, bydd yn ceisio gwella effaith y rhaglenni drwy barhau i weithio'n agos â Radio 4, gan fanteisio ar gyfleoedd i gyd-drefnu a chydhrywyddo amserlenni, a chomisiynu rhaglenni sy'n cyd-fynd â'i gilydd.
- Caiff tymhorau pwysig o raglenni eu hamlygu a'u hategu gan gyfleuster ar-lein yr orsaf.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymïadau Radio 7

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymïad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 50 awr o raglenni comedi yr wythnos
- 50 awr o raglenni drama yr wythnos
- Cyfrannu at ymrwymïad Radio'r BBC i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o ddarlledu gan gynhyrchwyr annibynnol

Hyrwyddo addysg a dysg

- 1,400 awr o raglenni plant

BBC Asian Network

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC Asian Network yw darparu rhaglenni llafar a cherddoriaeth sy'n apelio at gymunedau Asiaidd Prydain. Dylai ddarlledu yn Saesneg yn bennaf, ond dylid darparu rhai rhaglenni mewn amrywiaeth o ieithoedd De Asia.

Er mai Asiaid Prydeinig o dan 35 oed yw'r brif gynulleidfa darged (sy'n adlewyrchu proffil oedran cymunedau Asiaidd), dylai'r orsaf geisio apelio at bawb sy'n rhannu diddordeb mewn materion, cerddoriaeth a diwylliant Asiaidd Prydain.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC Asian Network yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Asian Network yn ceisio cyhoeddi a rhoi sylw i straeon newyddion allweddol sy'n berthnasol i gymunedau Asiaidd y DU. Bydd ail gyfres o The Wrap, sef y rhaglen newyddion flaenllaw 30 munud ar ddyddiau'r wythnos (newidir yr enw i Asian Network Reports ar 20 Ebrill 2009), yn parhau i gael ei darlledu gydol y flwyddyn, gyda chrynodebau newyddion yn aml amser brechwast a bwletinau bob awr.
- Bydd rhaglenni dogfen Asian Network Report yn mynd i'r afael â materion a phynciau pwysig, gyda rhaglen ar ddyddiau'r wythnos sy'n cymryd galwadau ffôn er mwyn rhoi cyfle i'r gwrandawyr drin a thrafod straeon pwysicaf y diwrnod.

2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Yn dilyn lansiad diweddar sioe frechwast newydd gydag Adil Ray, bydd rhannau eraill o'r amserlen yn cael eu hadolygu a'u diwygio i sicrhau bod yr orsaf yn cadw ei chysylltiad agos â'r gynulleidfa ac yn cynrychioli amrywiaeth eang o ddiddordebau a chwaethau.
- Bydd y gwaith yn parhau i ddarganfod a datblygu'r genhedlaeth nesaf o ddoniau ar yr awyr, gan gynnig man cychwyn i droellwyr sy'n newydd i radio cenedlaethol, neu gyfleoedd i ennill profiad pellach drwy ddirprwyo ar raglenni eraill.

3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Caiff nifer o ddigwyddiadau a chyngherddau cerdd byw eu cynnal mewn dinasoedd ledled y DU sydd â chymunedau Asiaidd sylweddol, a bydd yr uchafbwyntiau'n cael eu darlledu. Asian Network yw prif bartner London Mela a bydd yn parhau i weithio'n agos â BBC Introducing... ac Electric Proms y BBC, gan hyrwyddo artistiaid cerddoriaeth Asiaidd newydd.

4 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd Asian Network yn cyflwyno cerddoriaeth newydd a gwreiddiol gan artistiaid y DU i'w chynulleidfa, gan gynnwys artistiaid heb gcontract recordio sydd i'w glywed bob wythnos yn y sioe Friction. Bydd hefyd yn rhoi llwyfan i'r gerddoriaeth orau gan gerddorion enwog o Dde Asia a sesiynau cerddoriaeth fyw a recordiwyd yn India a Pakistan.
- Rhoddir sylw helaeth i newyddion ffilmiau, cyfweiliadau ac adolygiadau diweddaraf Bollywood ar yr awyr, mewn sioeau pwrpasol bob penwythnos, ac ar-lein drwy'r Bollywood Blog.

5 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd rhaglenni iaith Asian Network yn parhau i ddathlu etifeddiaeth ieithyddol ieithoedd Asia ac i gysylltu â phobl o gymunedau Asiaidd y DU nad ydynt yn rhugl yn y Saesneg.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Yn amodol ar hawliau a chaniatâd, bydd Asian Network yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y posibiladau a ddaw yn sgil technoleg i rannu ei chynnwys ar y we, gan gynnwys syndicetio uchafbwyntiau fideo a sain mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol a galluogi gwrandawyr i ddefnyddio cynnwys Asian Network yn eu cyrchfannau digidol eu hunain.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau BBC Asian Network

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllodiadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 50:50 fel cymhareb llafar:cerddoriaeth

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 40% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU
(Caiff y dydd ei ddiffinio fel bod rhwng 06.00 a 19.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08.00 a 14.00 o'r gloch ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.)
- Cyfrannu at ymrwymiad Radio'r BBC i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o ddarlledu gan gynhyrchwyr annibynnol

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 3-5 awr o raglenni y dydd ar gyfartaledd mewn ieithoedd heblaw Saesneg

Cyfryngau'r dyfodol

BBC Ar-lein

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC Ar-Lein yw cyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy ddarparu cynnwys arloesol a nodedig ar-lein, a thrwy gynigion nodedig sy'n adlewyrchu ac ehangu gwasanaethau darlledu'r BBC sydd ar gael i bawb.

Dylai BBC Ar-Lein alluogi'r BBC i ddatblygu perthynas agosach gyda thalwyr ffi'r drwydded a chryfhau atebolrwydd. Dylai weithredu fel man cychwyn ar y rhyngwyd lle gall defnyddwyr ddatblygu eu defnydd o'r cyfrwng a darparu canllaw dibynadwy i'r we ehangach.

Dylai BBC Ar-Lein sicrhau cydbwysedd bob amser rhwng y potensial ar gyfer creu gwerth cyhoeddus, a'r perygl o effaith negyddol ar y farchnad.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC Ar-Lein yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC, trwy'r amrywiaeth o ffordd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Maent wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

Bydd BBC Ar-Lein yn canolbwyntio ar nifer o welliannau ledled y wefan gyda'r bwriad o wella'i gallu i gyflawni pob diben:

- **Cysylltiad gwell â'r defnyddwyr** - bydd BBC Ar-Lein yn cynnig opsiynau personoli amrywiol i ddefnyddwyr, i'w galluogi i addasu'u profiad i weddu i'w hanghenion a'u diddordebau unigol. Caiff y rhain eu creu o amgylch system adnabod ddiogel ac agored newydd. Bydd yna fwy o gyfleoedd i gymryd rhan hefyd, drwy gyfrannu sylwadau neu gynnwys, neu drwy raddio, argymell neu rannu gyda ffrindiau.
- **Partneriaeth** - bydd BBC Ar-Lein yn ymestyn at amrywiaeth ehangach o sefydliadau partner yn y DU a thramor. Nod hyn yw meithrin cysylltiadau gwell gyda gwefannau a gwasanaethau y tu hwnt i gwmpas y BBC, gan hyrwyddo lluosogrwydd ledled sector cyfryngau newydd y DU a chan roi cyfle i ddefnyddwyr gael profiadau mwy cyfoethog ar-lein. Ffordd allweddol o wneud hyn yw drwy sicrhau bod mwy o gynnwys ar gael i'w syndicetio i wefannau partner sydd am roi sylw iddo.
- **Llywio ledled y wefan** - bydd BBC Ar-Lein yn cyflwyno nodweddion llywio newydd ar gyfer y wefan gyfan a fydd yn cynnig deunyddiau ychwanegol o'r BBC a gwefannau allanol i ddefnyddwyr. Nod hyn yw ei gwneud yn haws i bob defnyddiwr gael gafael ar yr ystod llawnaf o gynnwys perthnasol, ar unrhyw bwnc o ddi-ddordeb iddynt, o unrhyw ran o BBC Ar-Lein.
- **Rheoli adborth** - bydd BBC Ar-Lein yn parhau i wella'i ffordd o reoli adborth gan ei defnyddwyr, gan geisio gwneud sianeli fel systemau e-bost 'cysylltu â ni', byrddau negeseuon, a gwasanaethau cymorth a chwestiynau cyffredin yn fwy rhagweithiol ac integredig.

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Democracy Live yn cael ei lansio fel elfen allweddol yn ymdrechion y BBC i ddefnyddio'r rhyngwrdd fel ffordd o feithrin dinasyddiaeth ledled y DU. Bydd y fenter yn cynrychioli newid arwyddocaol yng ngallu'r BBC i adlewyrchu gwaith cynrychiolwyr etholedig ac i alluogi pobl i weld y gwaith hwnnw, mewn sefydliadau Ewropeaidd, yn San Steffan, mewn seneddau neu gynulladau cenedlaethol ac ar gynghorau lleol.
- Bydd BBC Ar-Lein yn datblygu ei chynnig llythrennedd y cyfryngau er mwyn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd gael gafael ar fathau gwahanol o gyfryngau, eu deall a'u defnyddio.
- Os ceir Etholiad Cyffredinol y DU, bydd BBC Ar-Lein yn rhoi sylw eang a chynhwysol iddo.
- Ar gyfer y cynulleidfaoedd ieuengaf, bydd CBeebies yn datblygu gwefan Waybuloo sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau emosiynol a llythrennedd y cyfryngau.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- **Blaenoriaeth:** Bydd Earth yn cynnig mynediad manylach ac ehangach nag erioed o'r blaen i gynnwys byd natur y BBC, o'r archif a'r cynnwys cyfredol.
- Bydd Lab UK yn datblygu ffyrdd newydd o gyfuno cwrpas a phŵer y rhyngwrdd gydag arbrofion gwyddonol. Bydd yn manteisio ar frwdfrydedd cyffredinol tuag at wyddoniaeth er mwyn rhoi cyfle i ddefnyddwyr gyfrannu at brosiectau gwyddonol pwysig.
- Trwy wneud y wefan yn fwy ymarferol, bydd hi'n haws i athrawon ddod o hyd i'r cynnwys dysgu clywedol a'i ddefnyddio.
- Bydd CBeebies yn lansio nifer o wefannau i ategu'r rhaglenni gan alinio'u cynnwys yn fwy clir gyda Chyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar ac amlygu nodau dysgu i'w gwneud yn fwy eglur i rieni.
- Bydd gwefan Blue Peter yn annog ei defnyddwyr i ddod yn rhan o gymuned sy'n ymuno mewn gweithgareddau y tu hwnt i'r rhaglen deledu. Y nod fydd gwobrwyo plant sy'n mynegi brwdfrydedd dros ddarganfod a datblygu'u gwybodaeth.

3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd y broses o gyflwyno gwefannau lleol y BBC ar eu newydd wedd yn cael ei chwblhau. Byddant yn cynnig gwasanaeth mwy ystyrion i ddefnyddwyr yn seiliedig ar newyddion, chwaraeon a thywydd lleol yn ogystal â dolenni i amrywiaeth eang o wefannau lleol allanol. Bydd y gwaith o ailwampio gwasanaethau lleol yn ymestyn y tu hwnt i Loegr, i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Bydd Democracy Live yn cynnig cynnwys lleol a rhanbarthol sylweddol, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ledled y DU gael gafael ar eu cynrychiolwyr ar bob lefel, gan gynnwys ffyrdd o gysylltu â nhw a dilyn eu gwaith. Bydd Democracy Live yn sefydlu dolenni gyda nifer o gynghorau sy'n ffrydio eu sesiynau.
- Bydd BBC Ar-Lein yn rhoi sylw ehangach a manylach i glybiau Cynghrair Bêl-droed Lloegr, gan gynnwys cynnig uchafbwyntiau helaeth er mwyn sefydlu cyswllt pwysig ag angerdd cynulleidfaoedd lleol er bod nifer ohonynt ddim yn defnyddio BBC Ar-Lein yn rheolaidd.
- Bydd iPlayer y BBC yn parhau i gynnig rhaglenni lleol a rhaglenni'r gwledydd i'r gynulleidfa genedlaethol ac yn archwilio i ffyrdd o hyrwyddo rhaglenni arbenigol i ddefnyddwyr newydd.

4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd gwefan gomedi yn cael ei hail-lansio ac yn rhoi sylw i ddarnau byr, gwreiddiol o gomedi'r we sydd wedi'u cynhyrchu'n broffesiynol. Caiff y rhain eu hanelu at bobl sy'n mwynhau comedi ond nad ydynt yn edrych ar y comedi sy'n cael ei ddarlledu gan y BBC ar hyn o bryd. Tra y bydd y wefan hefyd yn rhoi sylw i raglenni comedi cyfredol y BBC, bydd yn canolbwyntio'n arbennig ar ddoniau a gwaith newydd nad yw wedi'u darlledu.
- Bydd y tudalennau cerdd yn parhau i ddatblygu gwasanaeth gwybodaeth sy'n seiliedig ar gerddorion unigol ac yn cryfhau eu hymrwymiad i ddoniau cerddorol newydd a gwreiddiol y DU.
- Bydd CBBC yn parhau i ddarparu lleoedd ar-lein diogel ochr yn ochr â rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i ysgogi creadigrwydd ymhlith plant. Bydd hyn yn cynnwys lansio amgylchedd Tronji 3D a gwefan newydd Bamzooki Street Wars.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd gan Democracy Live ddimensiwn rhyngwladol pwysig a fydd yn tynnu sylw penodol at sut mae gweithredoedd yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar fywydau pobl.
- Bydd BBC Ar-Lein yn sicrhau bod modd i ddefnyddwyr gael canlyniadau'r gwasanaeth chwilio mewn mwy o ieithoedd tramor.
- Darperir mwy o dudalennau llywio sy'n cyflwyno cynnwys gorau'r BBC ynglŷn â gwledydd tramor.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd cynnwys BBC Ar-Lein sydd ar gael i ffonau symudol yn cael ei ehangu, gan gynnig mwy o wybodaeth leol.
- Bydd iPlayer y BBC yn parhau i weithio tuag at fod yn niwtral o ran llwyfannau electronig drwy fod ar gael ar ystod ehangach o lwyfannau a dyfeisiau.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau BBC Ar-Lein

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 25% (yn ôl gwerth) o'r cynnwys a'r gwasanaethau cymwys i ddod gan gyflenwyr allanol

Botwm Coch y BBC

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith Botwm Coch y BBC yw cynnig newyddion, gwybodaeth, addysg ac adloniant parhaus sy'n cael eu diweddarau'n gyson i holl gynulleidfaoedd teledu digidol trwy gyfryngau rhyngweithiol fideo, sain, lluniau a thestun.

Dylai Botwm Coch y BBC gynnig cynnwys sy'n cefnogi ac ehangu ar rai rhaglenni teledu llinol. Dylai fod yn borth ac yn ddull llywio ar gyfer cynnwys teledu a radio an-linol y BBC, gan gynnig deunydd sy'n ategu ac ychwanegu at raglenni llinol.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd Botwm Coch y BBC yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffordd a amlinellir yn ei thrywydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd y gwasanaeth testun digidol yn cynnig gwasanaeth gwybodaeth dibynadwy sy'n perfformio'n well ac sy'n cynnig cynnwys newyddiadurol gorau'r BBC i'r gwylwyr, gan gynnwys newyddion, tywydd a chwaraeon.
- Darperir llawer o gynnwys newyddiadurol o safon drwy negeseuon testun a'r gwasanaeth Aml-sgrîn Newyddion, gan ddod ag adroddiadau gorau'r DU i gynulleidfa eang, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt BBC Ar-Lein gartref neu nad ydynt yn ei ddefnyddio.
- Bydd y Botwm Coch yn parhau i hyrwyddo'r broses o newid i'r digidol trwy sicrhau gwasanaeth o safon tra bod y gwasanaeth analog wrthi'n cael ei ddiffodd, a thrwy hysbysu'r cyhoedd am y newidiadau i'w gwasanaeth teledu yn ystod y cyfnod hwn.
- Bydd y gwasanaeth yn rhoi sylw eang a chynhwysol i Etholiad Cyffredinol y DU os bydd yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod hwn.
- Darperir cefnogaeth barhaus i ddigwyddiadau elusen y BBC fel Plant Mewn Angen, ar ffurf cais i gyfrannu, er mwyn i wylwyr allu cyfrannu'n ariannol drwy'r teledu.
- Bydd gwasanaeth ategol Newsround yn darparu newyddion mewn ffordd sy'n briodol i gynulleidfa iau drwy'r dydd bob dydd.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd tudalennau CBeebies yn parhau i annog plant i ddysgu mewn amgylchedd difyr ac ysgogol. Bydd cyfres o gemau a chwisiau newydd ar gael ar sawl lefel o ran sgiliau, a'r rheiny wedi'u cynllunio ar gyfer y grwpiau oedran gwahanol o fewn y gynulleidfa hon.
- Bydd cwisiau'r Botwm Coch, gan gynnwys gwasanaeth ategol Blue Peter, yn cynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol i blant hŷn.

3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Caiff gwasanaethau newydd a chreadigol eu datblygu ar gyfer y Botwm Coch, gan ddefnyddio technolegau darlledu a band-eang newydd er mwyn diddanu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd y BBC.
- Ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd, cynigir deunydd ategol ar gyfer rhaglenni drama, adloniant a chomedi, a rhoddir sylw i ddigwyddiadau pwysig gan gynnwys Sioe Flodau Chelsea yr RHS.
- Caiff y technolegau llwyfan teledu sydd ar gael eu defnyddio er mwyn cynnig gwasanaethau digidol rhyngweithiol i gynulleidfaoedd sy'n gwrandao ar y radio drwy'r teledu.

4 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd y gwasanaeth Aml-sgrîn Chwaraeon yn parhau i gynnig amrywiaeth eang o chwaraeon i gynulleidfaoedd y BBC. Bydd hyn yn cynnwys fideo, sain a thestun sy'n rhoi sylw i ddigwyddiadau ledled y byd, fel Gemau Olympaidd y Gaeaf, Formula 1 a rygbi.
- Bydd Newyddion y BBC ar gael yn barhaus ar alw ar bob llwyfan.
- Bydd Botwm Coch y BBC yn darparu gwasanaeth rhyngweithiol parhaus i ategu Cystadleuaeth Eurovision y BBC er mwyn ei gwneud hi'n haws i gynulleidfa'r DU allu gwrandao ar gerddoriaeth boblogaidd y byd.

5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd gwylwyr yn gallu gweld a llywio at y cynnwys ar alw ar fwy o lwyfannau teledu.
- Caiff cynigion newydd eu datblygu ar gyfer Botwm Coch y BBC, gan ddefnyddio technolegau darlledu a band-eang newydd ar ddyfeisiau teledu â chysylltiad i ddarparwr rhyngrwyd.

6 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd y gwasanaeth yn manteisio ar welliannau technolegol a ddaw i'r amlwg er mwyn darparu gwasanaeth rhanbarthol gwell.
- Bydd yn gweithio gyda sectorau gwirfoddol ac elusennol y DU i sicrhau bod gwybodaeth amserol berthnasol ar gael drwy'r botwm coch.
- Bydd Botwm Coch y BBC yn cyflwyno gwyliau cerdd mwyaf y DU i gymuned ehangach o bobl sy'n hoff o gerddoriaeth, gan gynnwys Glastonbury, Radio 1's Big Weekend, y Proms a'r Electric Proms.
- Bydd canolfan newydd y BBC yn Salford yn cael ei datblygu i fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer gwasanaethau teledu'r genhedlaeth nesaf.

Amodau

Dim amodau penodol.

Newyddion

BBC News Channel

Cylch gwaith y gwasanaeth

Dylai BBC News Channel ddarparu'r newyddion diweddaraf gyda dadansoddiadau a sylwebaeth, yn gywir, diduedd ac annibynnol. Dylai roi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddigwyddiadau lleol, trwy'r DU ac yn rhyngwladol wrth iddynt ddigwydd, a chynnig dadansoddiad arbenigol i roi'r newyddion yn ei gyd-destun.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC News Channel yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC, trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd adroddiadau seneddol yn parhau i roi sylw i drafodaethau a digwyddiadau seneddol pwysig o San Steffan a'r seneddau a'r cynullïadau datganoledig. Bydd BBC News Channel yn parhau i egluro sefydliadau Ewropeaidd a'u gwaith er mwyn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth y gynulleidfa ledled y DU.
- Bydd BBC News Channel yn cynnig eglurhad, dadansoddiad a chyfle i drafod, wrth i'r pleidiau gwleidyddol sefydlu eu safbwyntiau yn etholiadau Ewrop yn ddiweddarach eleni ac wrth i Lywodraeth yr Alban barhau i roi ei rhaglen ar waith.
- Er mwyn hyrwyddo trafodaeth genedlaethol, caiff gwylwyr eu hannog i ryngweithio gyda'r sianel a gwefan Newyddion y BBC, i gyflwyno sylwadau ar faterion y dydd ac i holi arbenigwyr a phobl mewn awdurdod. Yn benodol, bydd y sianel yn:
 - Darlledu gwasanaeth newyddion cynhwysfawr bob awr sy'n cynnwys y manylion diweddaraf am chwaraeon a'r tywydd, crynodeb newyddion ar bob hanner awr, a newyddion busnes bob awr rhwng 09.00 a 19.00 o'r gloch ar ddiwrnodau gwaith (ar yr amod nad oes bwletinâu newyddion mawr).
 - Tan y Nadolig, darlledu'n wythnosol y rhaglen wleidyddol Straight Talk lle bydd Andrew Neil yn cynnal cyfweiliadau manwl.

2 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Nod BBC News Channel yw rhoi gwybodaeth fanylach a meithrin dealltwriaeth ehangach o faterion a digwyddiadau rhyngwladol ymhlith cynulleidfaoedd y DU drwy gynnig agenda newyddion sy'n fwy rhyngwladol na phrif sianeli newyddion parhaus eraill y DU. Bydd y sianel yn gwneud hyn drwy roi sylw i'r prif straeon rhyngwladol, sylw cynhwysfawr i etholiadau Ewrop 2009, a sylw parhaus i'r argyfwng ariannol rhyngwladol a blwyddyn gyntaf yr Arlywydd Obama. Bydd y News Channel yn manteisio ar arbenigedd gohebwyr y BBC sy'n gweithio mewn ystafelloedd newyddion ledled y byd i roi sylwebaeth a dadansoddiadau. Bydd newyddion parhaus yn cael ei

gyd-gyflwyno'n gyson o leoliadau'r straeon newyddion mawr diweddaraf ym mhob cwr o'r byd.

- Lle bo'n briodol, bydd y News Channel yn cynnwys amrywiaeth o leisiau rhyngwladol ledled y ddarpariaeth, gan gynnwys cyfweiliadau manwl gyda gwleidyddion rhyngwladol a phobl gyhoeddus o bwys.

3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Fel rhan o ymateb y BBC i adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC ar newyddion rhwydwaith yn y gwledydd datganoledig, bydd y News Channel yn ehangu ei chynnwys rhanbarthol cryf gan ddefnyddio rhwydwaith o ohebyddion ledled y DU a cheisio dangos y safbwynt rhanbarthol o'r tu allan i Lundain ym mhob stori fawr berthnasol er mwyn amlygu'r gwahanol effeithiau yng ngwahanol rannau'r DU. Byddwn yn ceisio barn a sylwadau gan amrywiaeth o ffynonellau ledled y DU - pobl fusnes, academyddion, grwpiau ymgyrchu a'r cyhoedd - ac yn rhoi cyfle i wylwyr ofyn cwestiynau i westeion y sianel.
- Bydd gwleidyddiaeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ymddangos trwy'r amserlen, gan gynnwys trafodion allweddol Senedd yr Alban a'r cynullïadau datganoledig, a byddwn yn rhoi sylw cynhwysfawr i etholiadau Ewrop. Eleni bydd y sianel yn rhoi sylw i ddadleuon a phleidleisiau allweddol yn Senedd yr Alban a Chynullïadau Cymru a Gogledd Iwerddon.

4 Hyrwyddo addysg a dysg

- Mae'r News Channel yn darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol i wylwyr trwy gyflwyno newyddion a gwybodaeth ddibynadwy ar bynciau amrywiol, fel busnes ac economeg, gwyddoniaeth a thechnoleg, y celfyddydau a diwylliant. Eleni bydd brand Entertainment 24 (E24) yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu gwell newyddion ym maes adloniant a'r celfyddydau. Mae hyn yn debygol o apelio at wylwyr iau, gan helpu i gysylltu â'r gynulleidfa hon nad yw'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol.

5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Ategir y ddarpariaeth newyddion gan fideo, lluniau llonydd a negeseuon y gwylwyr, lle bo'n briodol, er mwyn cynnig adroddiadau uniongyrchol a safbwyntiau o bob math. Bydd hi mor hawdd â phosibl i gynulleidfa oedd gyfrannu at Newyddion y BBC ar bob llwyfan.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymïadau'r BBC News Channel

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymïad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllïadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Darparu mwy o newyddion rhyngwladol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Darparu mwy o newyddion lleol/rhanbarthol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU, yn rhannol drwy gynnwys safbwyntiau rhanbarthol ar straeon cenedlaethol
- Adrodd ar newyddion chwaraeon trwy gydol y dydd, gan roi crynodeb o brif newyddion chwaraeon y dydd bob gyda'r nos
- 100 awr o newyddion chwaraeon

Ymrwymïadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr (a chyhoeddir y canlyniadau yn bbc.co.uk/annualreport):

- Sicrhau bod 90% o'r oriau yn rhaglenni gwreiddiol.
- Mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC, gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Dylid darparu gwasanaethau isdeitlo ar gyfer o leiaf 90% o'r oriau cymwys, ac iaith arwyddion ar gyfer o leiaf 5% o'r oriau cymwys.
(Mae BBC News Channel wedi'i heithrio rhag ymrwymïadau llun-ddisgrifio.)

BBC Parliament

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC Parliament yw rhoi gwaith siambrau seneddol a chyrrff deddfwriaethol y DU a Senedd Ewrop o fewn cyrraedd pawb. Dylai'r gwasanaeth hefyd ddadansoddi'r pynciau llosg a'r wleidyddiaeth y tu ôl i ddadleuon seneddol, a'u rhoi yn eu cyd-destun.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC Parliament yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC, trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Parliament yn annog gwylwyr i ymgysylltu'n ddyfnach ac yn darparu gwybodaeth fwy perthnasol trwy ategu'r rhaglenni byw o Senedd San Steffan yn ystod pleidleisiau, gan ddefnyddio'r seibiannau hir rhwng pleidleisiau allweddol i ddangos uchafbwyntiau areithiau a wnaed yn ystod y dadleuon blaenorol.

2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Parliament yn cynnig rhaglenni i ddathlu 10 mlynedd ers sefydlu Senedd yr Alban ac i fwrw golwg ar ei datblygiad. Bydd amserlenni yn ystod toriadau Senedd San Steffan yn cynnig darllediadau byw a di-dor o Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon i wella dealltwriaeth o sut mae'r gwledydd datganoledig yn cael eu llywodraethu.

3 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Parliament yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o Senedd Ewrop a'r ffordd y mae'n gweithio, trwy ddangos sut mae'r penderfyniadau a wneir yno'n effeithio ar y DU. Bydd BBC Parliament yn rhoi sylw helaeth i ymgyrch etholiadau Ewrop o safbwynt y DU ac o safbwynt cyfandirol. Caiff cymwyseddau a gweithdrefnau Senedd Ewrop eu hesbonio yn The Record Europe.

4 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd BBC Parliament yn nodi 30 mlynedd ers cwmp llywodraeth James Callaghan ac ethol llywodraeth gyntaf Margaret Thatcher gyda thymor arbennig o raglenni.

5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd BBC Parliament yn gwneud cyfraniad allweddol at ddatblygu'r wefan Democracy Live.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau BBC Parliament

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 70 awr yr wythnos o raglenni o Senedd San Steffan (wythnos arferol, yn cynnwys Pwyllgorau Dethol)
- 10 awr yr wythnos o Bwyllgorau Dethol

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 260 awr o drafodion Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cymru, gyda phob un yn cael cyfran sylweddol o'r sylw

Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- 100 awr o raglenni (yn cynnwys ailddarllodiadau) o Frwsel a Strasbwrg

Ymrwymadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr (a chyhoeddir y canlyniadau yn bbc.co.uk/annualreport):

- Sicrhau bod 90% o'r oriau yn rhaglenni gwreiddiol.
- Mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC, gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol (ac eithrio newyddion), sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.

Gwledydd a Rhanbarthau

Gorsafoedd Radio Lleol y BBC yn Lloegr

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith Radio Lleol y BBC yw darparu gwasanaeth newyddion, gwybodaeth a thrafodaeth llafar yn bennaf i gymunedau trefol a gwledig. Dylai'r rhaglenni llafar gael eu hategu gan gerddoriaeth. Y gynulleidfa darged yw gwrandawyr 50 oed a hŷn nad yw gorsafoedd eraill yn darparu'n dda ar eu cyfer. Dylid rhoi pwyslais cryf ar ryngweithio a chael y gynulleidfa i gymryd rhan.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd Radio Lleol y BBC yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC, trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Lleol y BBC yn ceisio cynyddu gwerth cyhoeddus gyda chynigion newydd sydd wedi'u cynllunio i wella perfformiad y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn amodol ar gael y gymeradwyaeth angenrheidiol, mae Rhanbarthau Lloegr yn cynnig penodi gohebwy'r newydd ar gyfer llywodraeth leol yn y rhan fwyaf o orsafoedd.
- Bydd Rhanbarthau Lloegr hefyd yn gweithio gyda gweddill y BBC ar gynlluniau ar gyfer Democracy Live. Un elfen allweddol fydd cynnig gwasanaeth ar-lein llawer mwy manwl a rhyngweithiol yn ystod etholiadau, a hwnnw'n cyd-fynd yn agos â'r hyn a gynigir ar orsafoedd radio lleol.

2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd gorsafoedd Radio Lleol yn parhau i ddatblygu mewn ffyrdd a fydd yn denu rhai rhannau allweddol o'r gynulleidfa yn ôl, ac yn parhau i gyrraedd yr un niferoedd yn gyffredinol.
- **Blaenoriaeth:** Bydd gorsafoedd Radio Lleol yn ceisio denu cynulleidfaoedd nad yw gorsafoedd eraill yn darparu'n dda ar eu cyfer a chreu cynulleidfaoedd newydd, trwy ddatblygiadau sy'n cynnwys gwell cysylltiadau amlgyfrwng. Un enghraifft yw lansio cynllun newydd ar gyfer gwefan leol sy'n cefnogi'r nod o gael y teledu, y we a radio lleol i weithio gyda'i gilydd yn well.

3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd gorsafoedd Radio Lleol yn cynnig lle i ohebwy'r Blast eto yn 2009, sef cynllun sy'n targedu pobl ifanc ar ddechrau eu gyfaoedd yn y cyfryngau. Cynigir lleoliadau sy'n canolbwyntio ar gynnwys amlgyfrwng ym maes chwaraeon a chelf. Mae'r BBC wedi dechrau gweld gwerth gwirioneddol yn y lleoliadau hyn, sy'n denu pob math o unigolion, ac mae llawer ohonynt yn parhau i weithio gyda'r BBC.

4 Hyrwyddo addysg a dysg

- Mae BBC News School Report bellach yn ei drydedd flwyddyn, a bydd Rhanbarthau Lloegr yn datblygu eu dull golygyddol a'r cymorth a gynigir i ysgolion. Eleni, bwriedir cynnwys cyflwynwyr tywydd amlgyfrwng newydd Rhanbarthau Lloegr mewn gweithgareddau sy'n cefnogi dysg a llythrennedd y cyfryngau.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd gorsafoedd Radio Lleol yn parhau i weithio'n agos gyda'u gwefannau lleol i ryngweithio â chynulleidfa fyd-eang.
- Mae gorsafoedd Radio Lleol yn dechrau cynhyrchu rhaglenni'n ymwneud â Gemau Olympaidd 2012. Yn arbennig, byddant yn gweithio gyda chonsortia diwylliannol i roi sylw i ddigwyddiadau diwylliannol a digwyddiadau eraill yn ymwneud â'r Gemau Olympaidd ledled Lloegr.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Mae ystod y podlediadau a gynigir wedi tyfu. Mae yna gynllun ar waith i ehangu ystod y cynrychiadau sy'n ymdrin â Lloegr gyfan, er enghraifft trwy ddwyn ynghyd yn rheolaidd y cynnwys sy'n ymwneud â ffydd o'r holl orsafoedd Radio Lleol a threialu podlediad Asiaidd i adlewyrchu gwaith llwyddiannus gydag UK Black.
- Mae digwyddiadau Digital Doctors wedi parhau (rhaglenni ffonio am gyngor ar Radio Lleol y BBC yn bennaf) a chaiff pwynt mynediad syml ei ddatblygu a'i hyrwyddo ar orsafoedd Radio Lleol i ddefnyddwyr newydd, i dathlu Silver Surfers Day ym mis Mai.
- Mae Radio Lleol, sydd bellach yn cael ei ffrydio ar y we trwy BBC iPlayer, yn parhau i ddenu cynulleidfa gref – yn enwedig yn ystod digwyddiadau o bwys fel argyfyngau tywydd. Mae Rhanbarthau Lloegr yn gweithio gydag is-adran Future Media & Technology y BBC i wella ansawdd y darllediadau a gwneud y gwasanaethau hyn yn fwy dibynadwy.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau Radio Lleol y BBC

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 60% o gynnwys gorsafoedd Radio Lleol y BBC yn ystod oriau craidd (06.00-18.00 o'r gloch) i fod yn gynnwys llafar
- 100% o gynnwys gorsafoedd Radio Lleol y BBC yn ystod oriau brig amser brechwast i fod yn gynnwys llafar

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 85 awr yr wythnos o raglenni lleol gwreiddiol ar bob gorsaf yn unol â gofynion y drwydded gwasanaeth

Gorsafoedd Radio Lleol y BBC yn Lloegr

BBC Radio Berkshire
BBC Radio Bristol - yn cynnwys BBC Somerset
BBC Radio Cambridgeshire
BBC Radio Cornwall
BBC Coventry & Warwickshire
BBC Radio Cumbria
BBC Radio Derby
BBC Radio Devon
BBC Essex
BBC Radio Gloucestershire
BBC Radio Guernsey
BBC Radio Hereford & Worcester
BBC Radio Humberside
BBC Radio Jersey
BBC Radio Kent
BBC Radio Lancashire
BBC Radio Leeds
BBC Radio Leicester
BBC Radio Lincolnshire
BBC London
BBC Radio Manchester
BBC Radio Merseyside
BBC Radio Newcastle
BBC Radio Norfolk
BBC Radio Northampton
BBC Radio Nottingham
BBC Radio Oxford
BBC Radio Sheffield
BBC Radio Shropshire
BBC Radio Solent
BBC Radio Stoke
BBC Radio Suffolk
BBC Sussex and BBC Surrey
BBC Tees
BBC Three Counties Radio
BBC Radio Wiltshire
BBC WM
BBC Radio York

Mae yna 38 o orsafoedd Radio Lleol yn Lloegr, yn ogystal â gwasanaethau gwahanol ar gyfer Dorset (Solent), Milton Keynes (Three Counties), Peterborough a'r Ffeniau (Cambridgeshire), Swindon (Wiltshire) a Plymouth (Devon).

BBC Radio Scotland

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith Radio Scotland yw darparu gwasanaeth llafar yn bennaf i oedolion mewn amrywiaeth o feysydd, gan adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban. Yn ogystal â materion lleol a chenedlaethol, dylai'r rhaglenni hefyd drafod materion sydd o bwys i'r DU ac yn rhyngwladol o safbwynt Albanaidd.

Dylai Radio Scotland gynnig rhaglenni lleol wedi'u targedu'n benodol a chefnogi gorsafoedd cymunedol y BBC.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd Radio Scotland yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC, trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Scotland yn ceisio gwella gwerth cyhoeddus gyda datblygiadau sydd wedi'u cynllunio i wella perfformiad y BBC yn yr Alban. Yn amodol ar gael y gymeradwyaeth angenrheidiol, penodir gohebwyr newydd ar gyfer llywodraeth leol i wella rhaglenni newyddion ar Radio Scotland.
- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Scotland yn ceisio cynyddu effaith ei newyddiaduraeth wreiddiol trwy wneud rhaglenni dogfen ymchwilol lleol yn nodwedd allweddol yn amserlen y dydd. Y nod yw cynhyrchu dwy raglen y mis ar gyfartaledd. Darperir y rhaglenni hyn gan yr adran newyddion a materion cyfoes fewnol, cynhyrchwyr rhaglenni nodwedd mewnol a chynhyrchwyr annibynnol. Bydd y gynulleidfa'n cael cyfle i wneud sylwadau trwy ffonio'r rhaglenni a fydd yn eu dilyn a thrwy flogiau ar-lein. Bydd pynciau'n cynnwys polisïau cyhoeddus, trosedd, iechyd ac addysg, economeg a gwleidyddiaeth.
- Oherwydd yr hinsawdd economaidd, cyflogaeth a busnes sydd ohoni, rhoddir mwy o sylw yn y newyddion i faterion o'r fath, a bydd hyn yn parhau mewn rhaglenni fel Good Morning Scotland, The Business a Captains Of Industry ac yn cael ei adlewyrchu mewn rhaglenni drama.
- Bydd Radio Scotland yn ceisio ailwampio rhaglenni dadlau a thrafod ym mis Awst/Medi 2009 gyda brand radio a theledu newydd a fydd yn galluogi cynulleidfaoedd i fynd i glywed dadleuon byw yn Pacific Quay a lleoliadau ym mhob cwr o'r Alban.

2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Radio Scotland wedi comisiynu 12 rhaglen beilot ar gyfer rhaglenni comedi newydd. Mae'r rhain wrthi'n cael eu hystyried fel cyfresi posibl, a chyflwynwyd proses grŵp ffocws i gefnogi'r penderfyniadau comisiynu. Disgwylir i ddwy gyfres newydd gael eu comisiynu i'w darlledu yn 2010.

- Bydd ymrwymiad Radio Scotland i ddramâu misol yn parhau, a'r nod yw comisiynu o leiaf chwe sgript newydd gan awduron newydd a chwe sgript gan awduron profiadol. Caiff y ddrama gyfoes ei chomisiynu i adlewyrchu profiadau o'r hinsawdd economaidd sydd ohoni ac i nodi dyddiadau o bwys, fel genedigaeth Syr Arthur Conan Doyle.
- Bydd Radio Scotland yn parhau i roi sylw i wyliau llyfrau, celfyddydau a cherddoriaeth ledled yr Alban, gan gynnwys gwyliau Caeredin, Aye Right (yn Glasgow) a digwyddiadau eraill yn ymwneud â'r Year of Homecoming.
- Ym maes cerddoriaeth, bydd Radio Scotland yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Radio 1, Radio 2 a Radio Ulster i roi sylw i ddigwyddiadau fel Celtic Connections, Gŵyl Caeredin, Gŵyl Jazz Glasgow a T In The Park.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd Radio Scotland yn gweithio tuag at gwblhau'r archif ar-lein o waith Burns, lle mae dros 600 o ganeuon a cherddi'n cael eu recordio gan actorion a phobl adnabyddus. Bydd y rhain ar gael ar wefan arbennig y mae modd chwilio drwyddi, a rhoddir sylwebaeth academiaidd ar rai o'r darnau. Bydd yr archif hwn yn cael sylw rheolaidd yn yr amserlen radio ac yn cael ei hyrwyddo i ysgolion fel adnodd dysgu.
- Bydd prosiect SoundTown, lle mae gorsaf radio'n cael ei hadeiladu mewn ysgol uwchradd, yn parhau am ei chweched a'i seithfed flwyddyn gyda chymorth adrannau rhaglenni ac ystod eang o adrannau eraill BBC Scotland.

4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd Radio Scotland yn cwblhau'r prosiect pilot comedi sydd wedi comisiynu dros 15 fformat newydd hyd yma, gyda'r nod o gomisiynu cyfresi hwy o'r rhaglenni mwyaf llwyddiannus.
- Bydd awduron a chwmnïau cynhyrchu newydd yn cael briffiau penodol i ddarparu dramâu radio ar gyfer yr amserlen er mwyn cefnogi dyddiadau neu ddigwyddiadau allweddol yng nghalendr yr Alban.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd Radio Scotland yn cynnig 5-10 rhaglen i'r Undeb Darlledu Ewropeaidd i'w defnyddio gan ddarlledwyr sy'n aelodau o'r undeb hwnnw, a bydd yn asesu'r posibilrwydd o rannu mwy yn y dyfodol. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant diweddar cyngerdd Auld Lang Syne a ddarlledwyd gan 10 gorsaf Ewropeaidd ac un cwmni darlledu cyhoeddus yn Awstralia.
- Mae'r orsaf yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant mentrau cydgynhyrchu diweddar gyda Radio Ulster a Radio 2. Rydym yn bwriadu rhannu o leiaf bum rhaglen gyda Radio Ulster a phum rhaglen bellach gyda Radio Wales.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Yn dilyn arbrofion llwyddiannus gyda'r Comedy Zone, byddwn yn cyflwyno pum parth thematig ar-lein ar BBC iPlayer.
- Yn 2009/2010, bydd Radio Scotland yn ehangu ystod y podlediadau i gynnwys podlediad garddio newydd ac o leiaf un podlediad chwaraeon wythnosol newydd ar bêl-droed. Mae hyn yn rhan o gynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer rhaglenni ar y Gemau Olympaidd a Gemau'r Gymanwlad. Mae Radio Scotland eisoes wedi cyflwyno podlediad busnes newydd a phodlediad Burns a ddarlledir ddwywaith yr wythnos.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio Scotland

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 43 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes yr wythnos

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 200 awr o raglenni radio'n ymwneud â'r celfyddydau
(gan gynnwys aildarllediadau storïol o sioe ddyddiol am y celfyddydau)

Radio nan Gàidheal

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith Radio nan Gàidheal yw cynnig gwasanaeth llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr ar gyfer siaradwyr Gaeleg sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o fathau o raglenni ac sy'n adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliannau a diddordebau pobl yr Alban o safbwynt Gaelaidd a thrwy gyfrwng y Gaeleg.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC Radio nan Gàidheal yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Darlledir newyddion ar adegau pwysig ar yr amserlen, gyda bwletinâu'n cael eu darlledu'n aml yn ystod y dydd. Aithris na Maidne ac Aithris an Fheasgair fydd yn darlledu'r rhan fwyaf o raglenni gwleidyddol am faterion yr Alban ond byddant hefyd yn cyflwyno adroddiadau o Senedd San Steffan a Senedd Ewrop. Rhoddir sylw hefyd i'r etholiadau Ewropeaidd ym mis Mehefin, gan ganolbwyntio'n arbennig ar faterion sy'n effeithio ar yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd. Yn sgil datblygu elfennau teledu ac ar-lein y gwasanaeth newyddion, bydd newyddiadurwyr darlledu, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio ar y gyfres materion cyfoes Ewropeaidd Eôrpa, yn rhan o gronfa ehangach o arbenigedd sydd ar gael i ategu'r hyn a ddarlledir ar y radio.
- Caiff rhaglen drafod newydd sy'n targedu pobl 35 oed a hŷn ei threialu gyda'r nod o lenwi'r bwloch yn yr amserlen rhwng hanner dydd a 2pm yn ystod yr wythnos. Bydd y datblygiad newydd hwn yn ategu rhaglenni llafar cyfredol fel Coinneach Maclomhair.

2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd Radio nan Gàidheal yn annog ei chynulleidfa i gyfrannu at ei rhaglenni trwy'r gyfres bynciau ddyddiol Coinneach Maclomhair a'r rhaglen beilot newydd a fydd yn cael ei darlledu dros amser cinio. Bydd y rhaglen i blant Aileag a'r rhaglen gerddoriaeth i ieuencid Rapal yn targedu cynulleidfaoedd iau, gan ategu'r rhaglenni stiwdio â rhaglenni a gynhyrchir ar leoliad mewn cymunedau ledled yr Alban.
- Trwy ystod o raglenni, bydd Radio nan Gàidheal yn adlewyrchu bywydau pobl Aelaidd, waeth a ydynt yn byw mewn ardaloedd gwledig neu drefol, yn y DU neu dramor, gan roi cyfle iddynt archwilio a myfyrio ar faterion cyfoes perthnasol, yn ogystal ag archwilio'r gorffennol. Mae cyfresi arfaethedig yn cynnwys proffil o'r sector gwirfoddol yn yr Alban trwy straeon y rheini sy'n gweithio ynddo ac yn ei ddefnyddio, bywyd ac etifeddiaeth John Calvin i ddathlu 500 mlynedd ers ei enedigaeth, a safbwyntiau personol o fywyd yng nghymunedau'r Alban nawr ac yn y gorffennol, gan gynnwys ochr orllewinol Lewis a dinas Caeredin.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd Radio nan Gàidheal yn darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol ar draws amrywiaeth eang o bynciau yn ein rhaglenni nodwedd, ffeithiol a dogfen. Yn arbennig, bydd yn darlledu cyfresi addysg ffurfiol sy'n cefnogi dysg a datblygiad Gaeleg yn seiliedig ar y Cwricwlwm Rhagoriaeth, gan gynnwys cyfres ar fwyd a'r materion sy'n gysylltiedig â bwyd fel rhan o brosiect tri chyfrwng.
- Bydd dysgwyr yr iaith yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o raglenni sy'n cynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol i oedolion, gan gynnwys dwy fersiwn o'r llythyr Gaeleg wythnosol i ddysgwyr, Litir, a fydd ar gael fel podlediadau. Gan weithio gyda BBC ALBA, byddwn yn hyrwyddo'r wefan Gateway to Gaelic ar bbcalba.co.uk sy'n darparu canolbwynt ar gyfer dysgwyr o bob oed a gallu, gan gynnwys estyniad o'r cwrs dysgu Gaeleg, Beag ar Bheag.
- Bydd menter newydd yn seiliedig ar y gyfres radio archif Facal Oirbh yn annog dysgwyr a siaradwyr Gaeleg i ddatblygu a gwella cyfoeth eu cofrestrïeithyddol. Ynghyd ag ailddarlledu 52 rhifyn o'r gyfres ieithyddol hon sydd â'i chanolbwynt yn y gymuned, bydd cynnig newydd ar y we yn galluogi cynulleidfaoedd i weld cynnwys o'r gyfres ar ffurf testun, sain a ffotograffau.

4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd Radio nan Gàidheal yn meithrin gwerthfawrogiad o ddiwylliant traddodiadol a chyfoes yr Alban ac yn darparu llwyfan ar gyfer y doniau a'r creadigrwydd gorau yn yr Alban. Bydd yn cynnig llwyfan i bobl o bob cefndir a diddordeb, gan alluogi lleisiau newydd i ddod i'r amlwg a darganfod a chefnogi doniau ym maes ysgrifennu, cerddoriaeth ac adloniant. Defnyddir y brand cerddoriaeth aml-gyfrwng Rapal i arddangos y doniau newydd gorau yn yr Alban ac i annog pobl i berfformio a chyfansoddi caneuon a sgoriau cerddorol ac i ddatblygu eu sgiliau yn y maes.
- Bydd Radio nan Gàidheal yn adeiladu ar lwyddiant y gorffennol trwy gydweithio gyda BBC ALBA a Radio Scotland ar ddigwyddiadau cerddoriaeth Geltaidd, traddodiadol a chyfoes trwy ddarlledu rhaglenni dwyieithog yr un pryd, a mabwysiadu agwedd gydweithredol at brynu rhaglenni. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau fel yr Hebridean Celtic Festival, Blas a'r Donald Macleod Memorial Piping Competition.
- Caiff Làrach nam Bàrd, gwefan sy'n canolbwyntio ar farddoniaeth, ei hehangu yn 2009 i gynnwys barddoniaeth Aeleg o'r 18fed a'r 19eg ganrif, gan gynnig dadansoddiad testunol a chynnwys sain a fideo i ddarparu ffynhonnell wybodaeth unigryw a chyfoethog yn ymwneud â beirdd dethol. Bydd y wefan yn ategu cyfresi a gaiff eu darlledu ar Radio nan Gàidheal ac ar y teledu.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Mae Radio nan Gàidheal yn cyflwyno'r byd i'r DU trwy roi sylw rheolaidd i ddigwyddiadau a materion rhyngwladol yn ei rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Bydd y rhaglen bynciol ddyddiol Coinneach Maclomhair yn parhau i ddarlledu rhifynnau arbennig wedi'u recordio mewn amryw o leoliadau ledled y DU, gan ganolbwyntio ar fywydau a phrofiadau pobl Aelaid yn yr ardaloedd hyn.
- Wrth i gyfleoedd godi, caiff cyfresi teithio byr eu comisiynu gan unigolion sy'n teithio'r byd ac sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau cynhyrchu radio, gan ddilyn patrwm y treialon llwyddiannus a wnaed yn 2008 yn Siberia ac Affrica.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Mae rhaglenni Radio nan Gàidheal ar gael ar radio digidol a chaiff ei ffrydio'n fyw ar y rhyngwyd, gyda chyfran uchel o'r rhaglenni ar gael ar yr iPlayer am saith diwrnod.

Mae'r gwasanaeth yn gwneud ei orau glas i greu rhaglenni arloesol i gynulleidfaoedd iau yr Alban. Gyda datblygiad y gwasanaeth newyddion a'r presenoldeb ar-lein newydd, y nod fydd sicrhau bod rhaglenni newyddion Gaeleg ar gael trwy ddyfeisiau symudol. Mae bbcalba.co.uk yn annog rhyngweithio â'r gynulleidfa a llythrennedd y cyfryngau, ac yn cyflwyno defnyddwyr i gynnwys a gwasanaethau cysylltiedig.

Amodau

Dim amodau penodol.

BBC ALBA

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC ALBA yw cynnig cymysgedd o raglenni teledu gwreiddiol, gan gynnwys rhaglenni a ddarllledwyd yn gyntaf ar wasanaethau eraill y BBC a rhaglenni archif. Ei nod yw cynnig rhaglenni sy'n targedu siaradwyr Gaeleg, y rheini sy'n dysgu'r iaith, y rheini sydd am ddysgu a'r rheini sydd â diddordeb yn yr iaith a'r diwylliant. Ei nod yw adlewyrchu a chefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Aelaid.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC ALBA yn comisiynu rhaglenni gwreiddiol mewn amrywiaeth o fathau o raglenni, gan gynnwys newyddion, y tywydd, chwaraeon, digwyddiadau byw, rhaglenni i blant, cerddoriaeth ac adloniant, rhaglenni ffeithiol, rhaglenni addysgol a rhywfaint o gomedi a drama.

Datblygiadau allweddol

Bydd BBC ALBA yn darparu amrywiaeth eang o raglenni teledu nodedig o safon ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Gaeleg, ac sy'n cynnig gwerth hefyd i gynulleidfa ehangach yr Alban.

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Fel rhan o gynnig newyddion tri chyfrwng, bydd BBC ALBA yn darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes cywir, diduedd ac annibynnol. Bydd yn darlledu rhaglen newyddion fyw 30 munud, An Là, bob noson yr wythnos yn ystod oriau brig ac adolygiad hwy o'r newyddion ar y penwythnos.
- Bydd cynnwys gwleidyddol An Là yn canolbwyntio ar faterion yr Alban, ond bydd hefyd yn rhoi sylw i Senedd San Steffan a Senedd Ewrop, gan wella dealltwriaeth cynulleidfaoedd o sut maent yn cael eu rheoli ar lefel leol, genedlaethol, y DU ac Ewropeaidd. Bydd yn canolbwyntio ar yr effaith y mae Senedd yr Alban wedi'i chael ar yr Alban ar ôl datganoli, wrth iddi ddatlu 10 mlynedd ers ei sefydlu yn 2009, ac ar yr etholiadau Ewropeaidd ym mis Mehefin.
- Bydd An Là ar gael i'w wyllo ar alw trwy wefan BBC ALBA.

2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd nifer o gyfresi ffeithiol a rhaglenni dogfen unigol, fel Trusadh a gynhyrchir gan gwmni annibynnol, yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau cartref a straeon personol o wahanol gymunedau ledled yr Alban, gan gynnwys y gyfres lle a fydd yn archwilio bywyd cyfoes ar ynys Ilay yn yr Hebrides, yn ogystal â chyfres o raglenni byr a gynhyrchir gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc yn Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, Ann an Coi5.
- Bydd BBC ALBA yn dangos rhaglenni o nifer o wyliau cerddorol a gynhelir mewn cymunedau ledled yr Alban yn ystod 2009: Cuirm @ Celtic o wyl Celtic Connections yn Glasgow, yr Hebridean Celtic Music Festival o Stornoway ym mis Gorffennaf, Blas o'r Ucheldiroedd ym mis Medi. Bydd y prif ddigwyddiad ar gyfer caneuon a cherddoriaeth Aeleg draddodiadol, y Royal National Mod, yn dychwelyd i dref ei sefydlu, Oban, a bydd rhaglenni Mod 2009 yn adlewyrchu un o brif themâu gwyl eleni, sef dod adref. Bydd y gyfres Sinne is Alba yn dangos yr hyn y mae pobl sydd wedi symud i'r Alban o wledydd eraill fel Tsieina, yr Eidal a Gwlad Pwyl yn ei feddwl o'r wlad.

- Bydd rhaglenni chwaraeon trwy'r brand Spòrs, a gynhrychir yn annibynnol, yn adlewyrchu'r amrywiaeth o ddi-ddordebau o fewn y gymuned Aelaidd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar shinty, pêl-droed a rygbi. Bydd y rhaglenni'n cynnwys cymysgedd o gemau byw a gohiriedig o Uwchgynghrair yr Alban a chynghreiriau eraill yr Alban. Bydd BBC ALBA yn rhoi sylw i bum gêm shinty yn ystod misoedd yr haf ac yn darlledu dwy raglen ddogfen ar hanes a statws cyfredol y gamp frodorol hon.

3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC ALBA yn comisiynu rhaglenni gan bob math o gyflenwyr a fydd yn adlewyrchu cerddoriaeth gyfoes yn yr Alban mewn sawl maes. Bydd Horo Gheallaidh yn darparu cymysgedd ecleictig o gerddoriaeth Geltaidd a cherddoriaeth o weddill y byd gan artistiaid a fydd yn perfformio yn y Celtic Connections Festival. Bydd y brand Rapal, ar draws radio, teledu ac ar-lein, yn cynnwys bandiau indie o bob cwr o'r Alban ac yn annog bandiau i gyfansoddi a pherfformio yn yr Aeleg drwy'r gystadleuaeth. Ceòl Country yw'r unig raglen gerddoriaeth reolaidd sy'n rhoi sylw i artistiaid canu gwlad yn yr Alban, a bydd yn dychwelyd am ail gyfres yn 2009.
- Mae'r Gaelic Arts Agency wedi gofyn i BBC ALBA gyfrannu at ddatliad St Kilda a fydd yn cyd-fynd â pherfformiad o Hiort, yr opera, yng Ngŵyl Ryngwladol Caeredin ym mis Awst. Bydd BBC ALBA yn darlledu rhaglenni ategol yn ymwneud â'r Ynys unigryw hon a'i phobl.
- Bydd cyfres archaeoleg newydd, Talamh Trocair, yn archwilio amrywiaeth eang o bynciau archaeolegol o leoliadau ledled y DU.

4 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd BBC ALBA yn rhoi cymorth rheolaidd i'r rheini sy'n dysgu Gaeleg trwy gynnig rhaglenni rheolaidd yn ystod oriau brig, yn enwedig y gyfres ddysgu o'r archif Speaking Our Language. Mae BBC ALBA hefyd yn darlledu rhaglenni dwyieithog fel Cuide ri Cathy, sy'n helpu pobl nad ydynt yn siarad Gaeleg i ymgyfarwyddo â'r iaith cyn symud ymlaen i gynnwys Gaeleg mwy cyfoethog ar y teledu. Darperir adnoddau dysgu ategol, gan gynnwys isdeitlau ac ystod o gynnwys dysgu ar-lein. Caiff yr adnodd dysgu ar-lein Beag air Bheag ei ehangu a'i wella, a datblygir fformat dysgu newydd ar gyfer y teledu.
- Bydd BBC ALBA yn gweithio gyda phartneriaid allanol yn y sector Gaelaidd i hyrwyddo strategaeth genedlaethol ar gyfer dysgu Gaeleg.
- Bydd BBC ALBA yn cynnig rhaglenni i blant cyn ysgol a phlant hŷn ar adegau rheolaidd yn ystod yr wythnos. Caiff amrywiaeth o raglenni gwreiddiol fel Na Bonachain, Leum is Dannsa a Fiona is Na Fuinn eu darlledu ochr yn ochr â fersiynau Gaeleg o gartwnau amrywiol. Caiff fformat newydd i blant hŷn, Breab, ei ddarparu yn 2009 a bydd cyfres gweithgareddau celf newydd, Sasta, yn annog plant i greu, paentio, arlunio a gwneud.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd BBC ALBA yn cyflwyno'r byd i'r DU trwy roi sylw rheolaidd i ddigwyddiadau a materion rhyngwladol trwy ei rhaglenni gyda chyfresi fel Eòrpa. Bydd y gyfres Soillse yn dangos fersiynau Gaeleg o raglenni dogfen o bob cwr o'r byd. Bydd un rhaglen ddogfen yn dilyn y bardd a'r nofelydd Gaelaidd Kevin MacNeil wrth iddo feicio ar hyd y Danube i godi arian ar gyfer elusen, gan gynnig safbwynt personol o'r ieithoedd a'r diwylliannau y daw ar eu traws.
- Bydd BBC ALBA yn cymryd rhan yn y Rhwydwaith Byd-eang newydd ar gyfer Darlledwyr Ieithoedd Brodorol a fydd yn hwyluso mentrau cydweithio creadigol a chyfnewid rhaglenni. Bydd BBC ALBA yn derbyn dros 30 o raglenni dogfen gan y

darlledwyr sy'n cymryd rhan yn y rhwydwaith rhyngwladol. Bydd y rhan fwyaf neu bob un o'r rhaglenni hyn yn cael eu trosi i fersiynau Gaeleg cyn eu darlledu.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd BBC ALBA yn cynnig 10 awr o gynnwys i'w weld ar alw trwy BBC iPlayer.
- Bydd rhaglenni newyddion BBC ALBA yn parhau i gael eu darparu mewn ffordd arloesol ac effeithlon trwy ddefnyddio fideo a sain dros IP i ddarparu ffrydiau o safon ledled yr Alban.
- Bydd BBC ALBA yn gweithredu ei gwasanaeth cynnal unigryw yn ystod oriau pan na fydd yn darlledu. Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnig sain radio, gwybodaeth am raglenni a newyddion ar ffurf testun. Eleni, bydd y gwasanaeth hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y tywydd, ac yn ei diweddarau'n rheolaidd.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau BBC ALBA

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllodiadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Hyrwyddo addysg a dysg

- Darlledu tua 5 awr o raglenni gwreiddiol (ac eithrio newyddion) yr wythnos, gan gynnwys rhaglenni a ddarlledwyd yn gyntaf ar wasanaethau eraill y BBC. Bydd dwy awr o raglenni'r wythnos yn targedu'r rheini sy'n dysgu Gaeleg.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Darlledu rhaglenni newyddion byw bob nos yn ystod yr wythnos, gan gynnwys yn ystod oriau brig, ac adolygiad newyddion hwy ar y penwythnos.

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Comisiynu o leiaf 50% o'i rhaglenni gwreiddiol (ac eithrio newyddion), yn ôl nifer yr oriau, gan gynhyrchwyr annibynnol.

BBC Radio Wales

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC Radio Wales yw darparu gwasanaeth llafar yn bennaf i oedolion, gan gwmpasu ystod eang o fathau o raglenni ac adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. Yn ogystal â materion lleol a chenedlaethol, dylai'r rhaglenni fynd i'r afael â materion o bwys i'r DU a gweddill y byd hefyd.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd Radio Wales yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC, trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Wales yn darparu gwasanaeth mwy nodweddiadol trwy gymryd rhan mewn dadleuon aml-lwyfan o safon ar bynciau amserol a pherthnasol, er enghraifft trwy National Exchange, fforwm dadlau aml-lwyfan newydd BBC Wales.
- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Wales yn ceisio gwella gwerth cyhoeddus gyda datblygiadau sydd wedi'u cynllunio i wella perfformiad y BBC yng Nghymru. Yn amodol ar gael y gymeradwyaeth angenrheidiol, mae BBC Wales yn bwriadu rhoi mwy o sylw i bum etholaeth ranbarthol y Cynulliad yng Nghymru er mwyn cyfoethogi'r adroddiadau newyddion ar Radio Wales.
- Bydd yr orsaf yn darparu darllediadau allanol perthnasol o bob cwr o Gymru i sicrhau bod dadleuon cenedlaethol yn cael eu cynrychioli a'u trafod.

2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd Radio Wales yn parhau i ddefnyddio gohebwy'r cymunedol fel ffordd o gynrychioli'r wlad gyfan a sicrhau bod cynulleidfaoedd ledled Cymru'n deall y digwyddiadau a'r materion sy'n llunio ei hardaloedd mwy gwledig.
- Bydd yr orsaf yn parhau i adlewyrchu a gwella rhaglenni o'i chanolfan yn y gogledd ac, ym maes chwaraeon, bydd yn darparu rhaglenni cynhwysfawr sy'n cynrychioli Cymru gyfan.
- Bydd Radio Wales yn parhau i ddarlledu'r rhaglen ffydd wythnosol All Things Considered.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd Radio Wales yn parhau i roi sylw i amrywiaeth eang o bynciau arbenigol mewn rhaglenni nodweddiadol, fel busnes, y celfyddydau a materion cyfoes.
- Bydd yr orsaf yn darlledu rhaglenni wythnosol trwy gydol y flwyddyn ar wyddoniaeth a thechnoleg newydd gyda Science Café a Mousema.
- Ym maes hanes, bydd yr orsaf yn datblygu fformatau newydd i ategu rhaglenni cyfredol fel Past Master a Look Up Your Genes.

4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd Radio Wales yn ceisio annog doniau ysgrifennu, cynhyrchu a pherfformio newydd mewn meysydd fel comedi, drama a cherddoriaeth.
- Bydd yr orsaf yn parhau i gynhyrchu addasiadau drama newydd gan awduron o Gymru.
- Bydd Radio Wales yn rhoi sylw i ddigwyddiadau a gwyliau cerddorol o bwys yng Nghymru a pharhau i ddarlledu cyngerddau gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd Radio Wales yn ceisio rhoi sylw i newyddion, materion cyfoes a chwaraeon rhyngwladol sy'n berthnasol i'r gynulleidfa yng Nghymru, gan gynnwys yr etholiadau Ewropeaidd a thaith rygbi'r Llewod.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd gwefannau Radio Wales a BBC Wales yn parhau i gael eu hategu gan gynnwys sain, gan ddefnyddio technolegau digidol a rhyngweithiol i ymestyn cwmpas yr orsaf, annog y gynulleidfa i ryngweithio a chyflwyno cynulleidfaoedd i gynnwys a gwasanaethau cysylltiedig.
- Bydd yr orsaf yn adolygu portffolio podlediadau Radio Wales, ac yn ei ddatblygu lle bo hynny'n briodol.
- Bydd rhaglenni gwyddoniaeth a thechnoleg yn canolbwyntio'n briodol ar y newid i'r digidol.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau Radio Wales

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- O leiaf 24 awr o newyddion a materion cyfoes yr wythnos

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- O leiaf 10% o raglenni'n cael eu comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol

BBC Radio Cymru

Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr i siaradwyr Cymraeg yw Radio Cymru ac mae'n cwmpasu ystod eang o fathau o raglenni ac yn adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. Yn ogystal â materion lleol a chenedlaethol, mae'r rhaglenni hefyd yn trafod materion o bwys i'r DU a gweddill y byd.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Mae Radio Cymru yn cyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Cymru yn adlewyrchu'r cynnydd yn amrywiaeth y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a thu hwnt. Mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu dathliad aml-ffydd i'w gynnal yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ym mis Mai 2009. Caiff y dathliad hwn ei ddarparu fel gwasanaeth gohiredig fel rhan o raglenni'r Eisteddfod.
- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Cymru yn ceisio gwella gwerth cyhoeddus gyda datblygiadau sydd wedi'u cynllunio i wella perfformiad y BBC yng Nghymru. Yn amodol ar gael y gymeradwyaeth angenrheidiol, mae BBC Wales yn bwriadu rhoi mwy o sylw i bum etholaeth ranbarthol y Cynulliad yng Nghymru er mwyn cyfoethogi'r adroddiadau newyddion ar Radio Cymru.
- Bydd rhaglenni gwleidyddol yng Nghymru'n canolbwyntio ar yr etholiadau Ewropeaidd a'r ddadl barhaus ar y berthynas rhwng Senedd San Steffan a Chynulliad Cymru. Dau O'r Bae a'r rhaglenni newyddion fydd cartref naturiol dadleuon o'r fath, ond bydd hefyd yn parhau trwy lwyfannau gwe fel blog Vaughan Roderick a Democracy Live.
- Bydd Radio Cymru yn darlledu dadleuon nodedig o safon ar y rhaglen ddyddiol Taro'r Post a thrwy raglenni trafod ffurfiol wedi'u recordio gyda chynulleidfa fyw yn Pawb A'i Farn.

2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd rôl newydd Hywel Gwynfryn fel cennad crwydrol yn datblygu i sicrhau ei fod yn gallu amlygu ac adrodd ar ddigwyddiadau cymunedol ar yr awyr neu ar lwyfannau gwe, yn ogystal ag ymgysylltu â chymunedau ym mhob cwr o Gymru. Hefyd, bydd Post Cyntaf, y rhaglen newyddion foreol, yn teithio o gwmpas Cymru o bryd i'w gilydd ac yn cael ei chyd-gyflwyno o gymunedau lleol a'r stiwdio.
- Bydd Bwrw Golwg, y rhaglen materion moesol a chrefyddol, yn helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o wreiddiau crefyddol ystod o grwpiau gwleidyddol, gweithredu cymdeithasol a chymunedol yng Nghymru a thu hwnt.

3 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd Radio Cymru yn ehangu cylchrediad y podlediad i ddysgwyr Cymraeg, gan ddarparu uchafbwyntiau rhaglenni'r wythnos gyda chymorth o ran geirfa a gramadeg gan y cyflwynydd.
- Caiff byd natur a chynaliadwyedd eu pwysleisio yn ystod tymor dathlu canmlwyddiant Darwin gyda rhaglenni fel Galwad Cynnar, Byd Iolo, Galwad Eto ac amrywiaeth o raglenni dogfen.
- Bydd Radio Cymru yn cyfrannu at ddigwyddiadau aml-lwyfan BBC Wales fel National Exchange.

4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd Radio Cymru yn comisiynu o leiaf 12 drama newydd a chomedi sefyllfa chwe rhan.
- Bydd yr orsaf yn cynhyrchu rhaglenni sy'n cynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a chantorion a chyfansoddwyr adnabyddus o Gymru, yn ogystal â rhoi sylw helaeth i'r Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a digwyddiadau diwylliannol cenedlaethol eraill. Bydd bywyd diwylliannol Cymru'n cael sylw mewn rhaglenni fel y gyfres am y celfyddydau, Stiwdio.
- Bydd C2 (rhaglen i bobl ifanc ar Radio Cymru) yn meithrin cerddoriaeth newydd trwy gyfleoedd sesiynau recordio a chystadlaethau fel Brwydr y Bandiau (mewn perthynas â chyrrff a noddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg).

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd rhaglenni newyddion Radio Cymru yn adrodd ar yr etholiadau Ewropeaidd, yn ogystal â digwyddiadau rhyngwladol o bwys fel 100 diwrnod cyntaf yr Arlywydd Obama a'r sefyllfa ariannol rhyngwladol.
- Bydd digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol, yn enwedig taith y Llewod i Dde Affrica, yn cael blaenoriaeth amlwg.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd Radio Cymru yn defnyddio technolegau newydd i wella a chefnogi gwasanaethau lle bo hynny'n bosibl.
- Bydd staff yn cael eu hyfforddi a bydd rhaglenni penodol fel Galwad Cymru yn cael y dasg o wella'u gwefannau gyda ffotograffau, clipiau fideo, cwestiynau gwrandawyr a chlipiau sain o'r rhaglen.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau Radio Cymru

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- O leiaf 16 awr o newyddion a materion cyfoes yr wythnos

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- O leiaf 10% o raglenni'n cael eu comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol

BBC Radio Ulster/Foyle

Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith Radio Ulster/Foyle yw darparu gwasanaeth llafar yn bennaf, gan gwmpasu amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni ac adlewyrchu holl agweddau ar fywyd yng Ngogledd Iwerddon. Dylai ei rhaglenni roi sylw helaeth i faterion, diddordebau a digwyddiadau lleol a rhoi sylw hefyd i ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Cyflawni dibenion y BBC yn 2009/2010

Bydd BBC Radio Ulster/Foyle yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

Datblygiadau allweddol

1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Ulster/Foyle yn annog ei chynulleidfa i gyfrannu ar faterion o ddiddordeb lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd y gwasanaeth yn darparu llwyfan i gynulleidfaoedd ymgysylltu a holi cwestiynau i benderfynwyr ar amrywiaeth o bynciau. Caiff gwaith Cynulliad Gogledd Iwerddon ei adlewyrchu ar draws gwahanol agweddau ar raglenni newyddion a rhaglenni eraill Radio Ulster/Foyle, gan gynnwys Today At The Assembly. Bydd y gwasanaeth hefyd yn darparu trafodaeth a dadansoddiad gwleidyddol trylwyr mewn cyfresi fel Inside Politics a Talk Back ac mewn rhaglenni newyddion eraill yn ystod yr wythnos.
- Bydd rhaglenni BBC Radio Ulster/Foyle hefyd yn ceisio deall datblygiadau eraill sy'n effeithio ar fywyd cymunedol yng Ngogledd Iwerddon a pharhau i ymateb iddynt. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys heriau economaidd, anghenion cymunedau ymfudwyr a lleiafrifoedd ethnig, addysg ac ad-drefnu llywodraeth leol.
- Bydd Radio Ulster/Foyle yn adlewyrchu arwyddocâd parhaus credoau ac arferion crefyddol i lawer o bobl Gogledd Iwerddon. Bydd yn hwyluso ystyriaeth o faterion crefyddol a moesegol, gan gynnwys trafod pob math o faterion cysylltiedig trwy raglenni fel Sunday Sequence.
- Bydd cyfranogiad y gynulleidfa a rhyngweithio'n rhan bwysig o raglenni yn ystod yr wythnos, gan alluogi cynulleidfaoedd i rannu eu barn a thrafod materion o bryder cymunedol. Bydd Radio Ulster/Foyle yn amlygu gwaith elusennau lleol trwy gyfleoedd rheolaidd i ddarlledu apeliadau.

2 Hyrwyddo addysg a dysg

- Bydd Radio Ulster/Foyle yn ceisio hysbysu ac addysgu gwrandawyr trwy gyfres o raglenni dogfen wythnosol.
- Bydd Radio Ulster/Foyle yn annog pobl i ddysgu yn anffurfiol trwy raglenni nodwedd a thema, gyda rhai ohonynt yn rhan o ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol a mentrau dysgu ledled y BBC. Rhoddir blaenoriaeth allweddol i sicrhau bod buddiannau ein rhaglenni o ran dysgu yn fwy hygyrch, ac i ddatblygu partneriaethau strategol a fydd yn gwireddu eu potensial yn lleol.

3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Ulster/Foyle yn meithrin doniau newydd ac yn rhoi llwyfan i wyliau, digwyddiadau a gweithgareddau lleol yn ymwneud â'r celfyddydau trwy raglenni fel Arts Extra. Bydd hefyd yn adeiladu ar ei rôl fel noddwr diwylliannol ar gyfer cerddoriaeth trwy adlewyrchu gwahanol fathau o gerddoriaeth, a rhoi sylw i gyngherddau'r Ulster Orchestra a sesiynau stiwdio gyda bandiau newydd. Bydd yn parhau i annog cyfansoddwyr, cynhyrchwyr a pherfformwyr newydd a datblygu cyfleoedd darlledu priodol.

4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Ulster/Foyle yn ceisio gwella gwerth cyhoeddus gyda datblygiadau sydd wedi'u cynllunio i wella perfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon, trwy gefnogi ieithoedd lleiafrifol brodorol â slotiau radio rheolaidd ar gyfer Gwyddeleg a Sgoteg Ulster.
- Bydd yr orsaf yn adlewyrchu diddordebau a phryderon gwrandawyr y rhanbarth. Bydd yn defnyddio rhwydwaith BBC Northern Ireland o stiwdios, gohebwy newyddion rhanbarthol a rhaglen uchelgeisiol o ddarllediadau allanol i gryfhau a chynnal ei pherthynas â chymunedau lleol. Bydd rhaglenni adrodd straeon, a chyfresi a mentrau eraill, yn rhoi llwyfan i straeon gwrandawyr, a bydd Radio Ulster/Foyle yn rhoi llwyfan i doniau cerddorol a chreadigol lleol trwy raglenni arbenigol a chyfresi yn ystod y dydd.
- Bydd Radio Ulster/Foyle hefyd yn rhoi sylw helaeth i gemau a gweithgareddau chwaraeon lleol. Bydd rhaglenni yn y maes hwn yn cynnwys amrywiaeth o gemau, gan gynnwys gemau'r Gaelic Athletic Association, pêl-droed a rygbi.

5 Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd rhaglenni newyddion a rhaglenni cysylltiedig Radio Ulster/Foyle yn rhoi sylw helaeth i faterion a digwyddiadau rhyngwladol ac yn ceisio esbonio eu harwyddocâd i gynulleidfaoedd lleol.

6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd Radio Ulster/Foyle yn ceisio datblygu gwell cynnwys ar-lein fel rhan integredig o'i gwasanaeth. Bydd hefyd yn ceisio gwella ymwybyddiaeth y gynulleidfa o dechnolegau newydd ac annog pobl i ddefnyddio mwy arnynt i gael gafael ar gynnwys y BBC, yn enwedig trwy ddatblygu pyrth ar-lein ar gyfer ieithoedd lleiafrifol brodorol.
- Bydd gwaith allgymorth gyda grwpiau cymunedol yn cynnwys mentrau pontio'r cenedlaethau a llythrennedd y cyfryngau. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi gwaith Community Bus BBC Northern Ireland a'i rhaglen o weithgareddau.
- Bydd Radio Ulster/Foyle yn darparu ffyrdd newydd o roi'r cyhoedd ar yr awyr trwy fentrau digidol a chyfresi ychwanegol ym maes adrodd straeon.

Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymadau Radio Ulster/Foyle

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, aildarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Dros 27 awr o newyddion a materion cyfoes ar Radio Ulster yr wythnos
- Dros 8 awr o newyddion a materion cyfoes ar Radio Foyle yr wythnos

Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 20 awr o gomedi newydd

Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 220 awr o raglenni mewn ieithoedd lleiafrifol brodorol, gan gynnwys rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster

Ymrwymadau pellach

Ymrwymadau pellach yn ymwneud â rhaglenni

Gwasanaethau mynediad

Mae'r BBC wedi ymrwymo i isdeitlo 100% o raglenni BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBeebies, Sianel CBBC a'r BBC News Channel yn 2009/2010, ac i ddarparu iaith arwyddion ar 5% o raglenni'r sianeli hynny. Yn ogystal, darperir isdeitlau ar o leiaf 810 awr o BBC Parliament trwy'r flwyddyn ac ar y rhan fwyaf o raglenni BBC HD. Mae'r BBC hefyd wedi ymrwymo i lun-ddisgrifio 10% o raglenni BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBeebies a Sianel CBBC yn 2009/2010.

O dan y Cytundeb, mae'r BBC wedi'i rhwymo gan god Ofcom o ran darparu ar gyfer pobl fyddar a phobl â nam ar eu golwg. Mae'r BBC wedi cytuno ar bolisiau ac wedi paratoi Production Handbook sy'n gosod disgwyliadau ar gyfer gwneuthurwyr rhaglenni ac wedi cyhoeddi Guidelines for Visually Impaired Television Audiences. Caiff ein polisiau ar hygyrchedd gwefannau eu cyhoeddi ar-lein yn bbc.co.uk/guidelines/futuremedia.

Ymrwymadau pellach y BBC

Mae ymrwymiad y BBC i gynulleidfaedd yn ymestyn y tu hwnt i'r polisi ar gyfer gwasanaethau unigol, gan gynnwys ymrwymadau arwyddocaol sy'n berthnasol ar draws gwasanaethau.

Amrywiaeth

Nod y BBC yw adlewyrchu amrywiaeth gwirioneddol y DU yn ei rhaglenni a chynnig rhywbeth i bawb yn y DU trwy ei gwasanaethau teledu, radio ac eraill.

Mae pob cynnig newydd am raglenni yn cynnwys datganiad amrywiaeth yn nodi sut bydd y rhaglen, lle bo'n briodol, yn cyflawni ymrwymiad y BBC i adlewyrchu amrywiaeth y cyhoedd sy'n talu ffi'r drwydded, ar y sgrin ac oddi arni. Bydd y BBC yn parhau i asesu effaith yr ymrwymiad hwn a bydd yn parhau i ddatblygu mecanweithiau ychwanegol i wella amrywiaeth, o safbwynt rhaglenni a chyflogaeth. Mae'r BBC wedi helpu i ddatblygu'r Cultural Diversity Network (CDN) Diversity Pledge ac wedi'i lofnodi. Nod yr addewid hwn yw annog cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y diwydiant i ystyried amrywiaeth mewn ffordd eang.

1 Mynediad

Y BBC yw un o sylfaenwyr y Broadcasting and Creative Industries Disability Network (BCIDN), ac mae wedi ymrwymo i:

- gynyddu nifer y bobl anabl ar yr awyr ac ar y sgrin
- cynyddu nifer y bobl anabl yn y gweithlu drwyddo draw
- cynyddu mynediad i wasanaethau, ar yr awyr ac oddi arno
- sicrhau mynediad i'w hadeiladau

2 Gwasanaethau'r BBC i bawb

Bydd y BBC yn parhau i sicrhau bod yr holl wasanaethau ar gael i bawb ac yn cael eu darlledu am ddim a bod pobl sy'n talu ffi'r drwydded yn gallu cael mynediad iddynt trwy gyfryngau newydd wrth i dechnolegau perthnasol ddatblygu. Mae gwasanaethau digidol ar gael ar Freeview, lloeren a chebl i'r graddau ac yn y ffordd y mae pob llwyfan yn ei ganiatáu.

3 Hyfforddi

Bydd y BBC yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddi a datblygu ei staff i gyd er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglenni neu wasanaethau cyhoeddus y DU, i'w cynnwys yn unrhyw rai o'r gwasanaethau hynny. Bydd hefyd yn parhau i wneud cyfraniad strategol at y gwaith o baratoi a chynnal gweithlu hynod fedrus ledled y diwydiant clyweledol, ac at sicrhau bod y gweithlu hwnnw'n gystadleuol. Fel rhan o'r cyfraniad hwnnw, bydd y BBC yn rhedeg cynlluniau penodol i ddenu a datblygu doniau amrywiol yn y diwydiant darlledu.

4 Atebolrwydd

Mae'r BBC yn sefydliad agored a thryloyw sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd y mae'n ei wasanaethu. Bydd yn trafod â'i chynulleidfaoedd er mwyn dysgu ganddynt ac ymateb yn onest i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

Mae gwasanaeth gwybodaeth y BBC ar gael i gynulleidfaoedd 24 awr y dydd trwy'r flwyddyn ac mae'n ymdrin â thua 1.5 miliwn o gysylltiadau dros y ffôn, e-bost a thrwy lythyr bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys ymholiadau cyffredinol, llinellau cymorth, gwasanaethau tocynnau a sylwadau neu gwynion am gynnwys rhaglenni. Caiff ansawdd yr ymateb i bryderon y gynulleidfa ei fonitro'n ofalus ac mae'n destun arolwg annibynnol o foddhad cwsmeriaid. Yn ogystal, bu'r cyfleuster cymorth ar-lein awtomatig newydd o gymorth i bobl a oedd yn defnyddio BBC iPlayer a gwasanaethau eraill, mewn rhyw 10 miliwn o sesiynau defnyddwyr.

Mae gan y BBC broses ymdrin â chwynion sy'n ei gwneud hi'n hawdd i'r cyhoedd wneud cwyn ffurfiol a chael ymateb cyflym. Mae yna broses apelio dau gam i unrhyw un sy'n anfodlon â'r ymateb cychwynnol. Pwyllgor Safonau Golygyddol yr Ymddiriedolaeth yw trydydd cam a cham olaf y broses yn y BBC. (Gweler bbc.co.uk/complaints).

Mae'r BBC yn trefnu ymgynghoriadau cyhoeddus rheolaidd ac yn cynnal ymchwil helaeth i'r gynulleidfa i wrando ar farn y bobl sy'n talu ffi'r drwydded. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau ad hoc i ddiddordebau ac anghenion gwahanol rannau o'r gynulleidfa a gwerth gwasanaethau penodol, a'r defnydd a wneir ohonynt, yn ogystal ag arolwg misol parhaus sy'n olrhain barn y gynulleidfa am y sefydliad a'i raglenni. Yn ogystal, mae rhwydwaith o Gynghorau Cynulleidfa annibynnol gwirfoddol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhoi adborth uniongyrchol ar wasanaethau'r BBC trwy Ymddiriedolaeth y BBC.

Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn adrodd ar berfformiad y BBC o'i gymharu â'r ymrwymadau yn y Datganiadau hyn yng Nghyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y BBC 2009/2010, a gyhoeddir ym mis Gorffennaf 2010.